Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
25/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/03/2025

# Gwella deilliannau llesiant ac addysgol i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt: astudiaeth gwmpasu

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-414-2

# Prosiect ASPIRE:

## Gwella deilliannau llesiant ac addysgol i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt: Astudiaeth Gwmpasu

**Er mwyn rhoi hunaniaeth glir i'r prosiect i randdeiliaid, defnyddiwyd yr acronym 'ASPIRE' (Gweithredu Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol o Ysgolion a Charchardai) trwy gydol y prosiect.**

Tîm ASPIRE: Nancy Loucks, Sarah Beresford, Polly Wright, Ben Raikes, Alyson Rees, Freya Kenny, a Sylvia Stevenson

Adroddiad Ymchwil Llawn: Loucks, N., Beresford, S., Wright, P., Raikes, B., Rees, A., Kenny, F. and Stevenson, S. (2025). *Gwella Deilliannau Llesiant ac Addysgol i Blant yng Nghymru y mae Carchariad Rhiant yn Effeithio Arnynt: Astudiaeth Gwmpasu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 25/2025
Ar gael yn https://www.llyw.cymru/cymorth-i-blant-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-carchar-ymchwil-cwmpasu

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.gwasanaethauchoeddus@llyw.cymr

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau....2

Rhestr ffigurau ....2

Geirfa 3

Cydnabyddiaethau ....5

Tîm ASPIRE....5

1. Cyflwyniad a chefndir ....6

2. Y Fethodoleg ....15

3. Canfyddiadau: Astudiaeth achos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ....24

4. Canfyddiadau: Naw blaenoriaeth allweddol ....32

5. Canfyddiadau: Astudiaethau achos eglurhaol, Megan ac Evan ....77

6. Casgliadau ....82

7. Argymhellion ....88

8. Cyfeiriadau ....95

Atodiad A: Sefydliadau yn y DU sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt ....101

Atodiad B: Aelodau'r grŵp cynghori arbenigol ....107

Atodiad C: Cwestiynau'r arolwg sylfaenol ....108

Atodiad D: Cwestiynau'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ....109

Atodiad E: Cwestiynau cyfweliadau cam 4 ....114

Atodiad F: Taflen recriwtio a chwestiynau'r arolwg i bobl ifanc ....119

Atodiad G: Poblogaeth carchardai Cymru....121

## Rhestr tablau

Tabl 1: Gwasanaethau ac adnoddau i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. ........ 14
Tabl 2: Nifer y cyfranogwyr a sut yr oeddent yn cymryd rhan yn yr ymchwil ........ 18

## Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Naw blaenoriaeth allweddol a ddatblygwyd o ganfyddiadau prosiect ASPIRE ...... 83

## Geirfa

**ACE**

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

**ASPIRE**

Gweithredu Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol o Ysgolion a Charchardai

**COPE**

Plant Carcharorion yn Ewrop

**EOTAS**

Addysg heblaw yn yr ysgol

**ESTYN**

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**EWO**

Swyddog Lles Addysg

**FABI**

Teuluoedd y mae Carchariad yn Effeithio arnynt

**FFOPs**

Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion

**HMPPS**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

**IWW**

Waliau Anweledig Cymru

**IW CIC**

Cwmni Buddiannau Cymunedol Waliau Anweledig

**NEET**

Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

**NICCO**

Canolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant Troseddwyr

**PACT**

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai

**POPS**

Grŵp Cymorth i Bartneriaid Carcharorion

**PRU**

Uned Cyfeirio Disgyblion

**SHRN**

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion

**CCUHP**

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**YOI**

Sefydliad Troseddwyr Ifanc

## Cydnabyddiaethau

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei lywio drwyddi draw gan farn a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o riant yn y carchar, rhieni a gofalwyr yn y gymuned, a rhieni yn y carchar. Mae tîm ASPIRE yn hynod ddiolchgar am eu mewnbwn ac am fewnbwn y grŵp cynghori arbenigol (gweler Atodiad A), yn ogystal â mewnbwn ymarferwyr ac arweinwyr polisi o fyd addysg, gwaith cymdeithasol, cyfiawnder troseddol, a'r trydydd sector. Er mwyn cadw anhysbysrwydd, nid yw enwau wedi'u defnyddio.

## Tîm ASPIRE

Mae **Sarah Beresford (Dirprwy Reolwr y Prosiect)** yn ymgynghorydd annibynnol ac yn Gydymaith yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

Mae **Freya Kenny (Cynorthwyydd Ymchwil)** yn Uwch-baragyfreithiwr sy'n dilyn gyrfa yn y gyfraith ac ymgyfreitha.

**Yr Athro Nancy Loucks OBE (Rheolwr y Prosiect)** yw Prif Weithredwr Families Outside, ac mae'n Athro gwadd yng Nghanolfan y Gyfraith, Trosedd a Chyfiawnder Prifysgol Ystrad Clud (Strathclyde).

Mae **Dr Ben Raikes (Arweinydd Diogelwch a Phennaeth Llywodraethu)** yn Uwch-ddarlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Huddersfield.

Mae'r **Athro Alyson Rees (Arbenigwr Cymru)** yn Athro yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant.

Mae **Sylvia Stevenson (Cynorthwyydd Ymchwil)** yn fyfyriwr PhD ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae **Polly Wright (Arbenigwr ar Bolisïau)** yn ymgynghorydd polisi, ymarfer ac ymchwil plant a theuluoedd.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Ym mis Gorffennaf 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru Dîm ASPIRE am gyfnod o 12 mis i wneud y canlynol:

- adolygu'r llenyddiaeth a'r arferion sy'n bod yn barod mewn perthynas â chymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- ystyried i ba raddau y mae model 'parth ysgolion' CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cynrychioli arferion da ac ystyried y modd y mae'n gweithredu
- ystyried sut olwg allai fod ar fodel cenedlaethol o gymorth i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

1.2 Er mwyn cefnogi newid cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru, mae'r Fframwaith (2018-2023) ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Prawf a Charchardai EF (HMPPS) yn cynnwys fel blaenoriaeth yr angen i gefnogi'r teuluoedd sy'n cael eu gadael ar ôl yn dilyn dedfrydu. Mae'r fframwaith yn cydnabod effaith bosibl carcharu ar deuluoedd, y cyfeirir ati gan yr Arglwydd Farmer (2017) fel y 'ddedfryd gudd' i bartneriaid, rhieni, a phlant â rhieni sydd wedi'u carcharu.

1.3 Mae carcharu aelod o'r cartref yn cael ei gydnabod fel profiad niweidiol yn ystod plentyndod, y profwyd ei fod yn cynyddu'r risg o effeithiau sylweddol ar iechyd a llesiant trwy gydol oes (Felitti et al., 1998). Un maes lle gall rhiant sydd wedi'i garcharu gyflwyno heriau i blant, ac sydd o ddiddordeb arbennig i'r prosiect hwn, yw o fewn eu hysgol a'u haddysg.

1.4 Fel y manylir yn yr adroddiad hwn, amrywiol yw'r cymorth ar hyn o bryd i blant sydd â rhiant yn y carchar, mae yna bocedi o arfer da ond nid oes yna fodel strategol na chenedlaethol. Mae prosiect Waliau Anweledig, y nododd yr Arglwydd Farmer ei bod yn enghraifft o arfer da, wedi bod yn rhedeg yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ers 2012. Mae un elfen o'r prosiect hwn, y Parth Ysgolion, yn hwyluso cyswllt rhwng y carchar ac ysgolion, gan gefnogi rhieni i ymgysylltu ag addysg eu plentyn, a helpu ysgolion i fynd ati mewn modd mwy effeithiol i gefnogi'r plant hynny y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

1.5 Adolygodd tîm ASPIRE y dystiolaeth a'r llenyddiaeth bresennol ynghylch modelau cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Yna lluniodd astudiaeth achos o'r Parth Ysgolion, a ddarganfuwyd (trwy gydweithio â theuluoedd, carchardai, ysgolion, iechyd y cyhoedd, gwasanaethau'r trydydd sector, a llunwyr

polisïau allweddol) a ellid (neu yn wir a ddylid) ymestyn model tebyg i blant a theuluoedd ledled Cymru.

1.6 Cyflawnwyd ASPIRE mewn pum cam allweddol rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyflwyno’r cefndir, a oedd yn cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth, y polisïau a'r arferion sy'n gysylltiedig â phlant a chanddynt riant yn y carchar, ac arolwg sylfaenol o'r cymorth a ddarperir i blant yng Nghymru a chanddynt riant yn y carchar
- astudiaeth achos o fodel Parth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid amlasiantaeth ledled Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd
- ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol: plant a theuluoedd, staff addysg, staff carchar o bob carchar yng Nghymru a CEF Styal a CEF Eastwood Park (carchardai menywod, lle mae cyfran uchel o fenywod o Gymru yn y ddalfa), rhieni sydd yn y carchar, awdurdodau lleol, a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth
- adroddiad terfynol yn crynhoi canfyddiadau ac opsiynau allweddol ar gyfer modelau cymorth posibl i blant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar

1.7 Cafodd y prosiect ei gefnogi a’i lywio drwyddi draw gan grŵp cynghori arbenigol a oedd yn cynrychioli rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth arbenigol, ac aelodau o deuluoedd sydd â phrofiad o garchariad.

1.8 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno’r cyd-destun cymorth ar gyfer plant yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar. Mae'n crynhoi'r llenyddiaeth, y polisi a'r arfer yn y DU a thramor, sydd wedi'i gynnwys yn yr atodiad adolygu llenyddiaeth llawn. Yna mae'n egluro methodoleg y prosiect, ac mae’r adnoddau ymchwil wedi'u cynnwys fel atodiadau.

1.9 Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r prosiect ar ffurf naw thema allweddol a ddaeth i'r amlwg wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen:

- ymdrin â chymorth gan ganolbwyntio ar hawliau plant a chryfderau
- polisïau ac adnoddau effeithiol i gefnogi arferion
- gwybodaeth ac adnoddau canolog

- gwaith amlasiantaeth
- hyfforddiant i arweinwyr polisïau ac ymarferwyr ledled pob sector
- mynd ati mewn modd sensitif i adnabod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- cynnwys pob plentyn yn y cymorth
- diogelu
- monitro a gwerthuso: sut y mae mesur effaith?

1.10 Mae'r prosiect ASPIRE yn cyflwyno ystyriaethau craidd i Lywodraeth Cymru ac yn awgrymu camau gweithredu ar gyfer model cymorth cydweithredol i blant ledled Cymru pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar.

### Cefndir: crynodeb o'r llenyddiaeth[1]

### Effaith carcharu rhiant ar blant

1.11 Er bod nifer o astudiaethau wedi tynnu sylw at effaith drychinebus bosibl carcharu rhiant ar blant (Condry a Scharff Smith, 2018; Jones et al., 2013; Kincaid, Roberts, a Kane, 2019; Robertson, 2011), ychydig bach o lenyddiaeth sydd ar gael ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio o ran gwella deilliannau i blant.

1.12 Yn ogystal ag ymdeimlad sylweddol o golled, mae llawer o blant yn profi stigma, ynysigrwydd cymdeithasol, cywilydd ac ofn (Jones et al., 2013). Gall carchariad rhiant gael effaith negyddol ar lesiant emosiynol byrdymor plentyn, yn ogystal â'i ragolygon iechyd a chymdeithasol hirdymor (McGillivray, 2016). Daeth astudiaeth bwysig ledled Ewrop, 'The Children of Prisoners: Interventions and Mitigations to Strengthen Mental Health', i'r casgliad bod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn wynebu risg sylweddol uwch o ddioddef anawsterau iechyd meddwl na phlant nad ydynt wedi cael rhiant yn y carchar (Jones et al., 2013).

1.13 Mae plant yn aml yn wynebu mwy o aflonyddwch pan fydd mam yn mynd i'r carchar, o gymharu â thad, er enghraifft gorfod symud i fyw gyda pherthnasau neu ffrindiau, heriau yn yr ysgol neu orfod newid ysgolion (Minson, 2017 a 2020; Beresford, 2018), ac, o bosibl, gael eu gwahanu oddi wrth frodyr a chwiorydd (Rees, Waits, a Bezeczky, 2023). Gan nad oes carchar menywod yng Nghymru,

---

[1] Am fwy o fanylion gweler yr atodiad adolygu llenyddiaeth

mae'n rhaid i blant y mae eu mam yn y carchar deithio ymhellach i ymweld â'u mam yn y ddalfa (Rees et al., 2022).

**Carcharu rhiant: Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod**

1.14 Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn ddigwyddiadau trawmatig a all effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant pobl yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae ymchwil yn nodi deg ACE; maent yn amrywio o drais domestig, i gamdriniaeth, i rieni'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ac yn cynnwys carcharu aelod o'r cartref; (Felitti et al., 1998; Kincaid, Roberts a Kane, 2019; Brown, 2020). At hynny, mae plant a chanddynt riant yn y carchar yn fwy tebygol eisoes o fod yn profi profiadau niweidiol eraill, a gall carcharu rhiant eu gwaethygu (Turney, 2018).

**Nodi a chasglu data**

1.15 Rhwng 1 Hydref 2021 a 1 Hydref 2022, amcangyfrifwyd bod gan 192,912 o blant yng Nghymru a Lloegr riant yn y carchar (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2024). Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddata cysylltiedig yn hytrach nag unrhyw ddull casglu data systematig. Yn fyd-eang, nid oes bron unrhyw broses systematig ar waith i gasglu data ynghylch nifer y plant sy'n cael eu gadael ar ôl pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar (Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2022).

1.16 Mae casglu a rhannu gwybodaeth i gefnogi plant pan fydd aelod agos o'r teulu yn mynd i'r carchar yn ymateb i hawliau plant i ofal a chymorth arbennig pan gânt eu hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol, yn unol ag Erthygl 20 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP); yr hawl i wybodaeth, yn unol ag Erthyglau 9, 13 ac 17 CCUHP; a'r hawl i gymorth dan Erthygl 6 Argymhellion Cyngor Ewrop 2018 yn achos plant a chanddynt riant yn y carchar.

1.17 Dylid defnyddio'r broses o gasglu data i dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud ag effaith carcharu rhiant, ac ni ddylai fod yn rhwystr i deuluoedd wrth iddynt geisio cymorth (Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022). Hyd yn oed yn achos plant y gwyddys bod carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi datblygu cynlluniau i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar (Raikes, 2021; Kincaid, Roberts a Kane, 2019). Gall y stigma o garchar wneud teuluoedd yn anodd eu hadnabod, ac yn anaml iawn y bydd teuluoedd mewn sefyllfa o'r fath yn ceisio cymorth neu'n tynnu sylw atynt eu hunain pan fyddant yn cael pethau'n anodd (Weaver a Nolan, 2015).

### Rôl ysgolion yn y broses o gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt

1.18 Mae plant yn treulio llawer iawn o amser yn yr ysgol. Mae ysgolion yn darparu cysondeb a strwythur, a gallant leddfu'r anawsterau y mae plant yn eu hwynebu. Ysgolion yw'r lle y gallant gael eu cefnogi a theimlo'n ddiogel (Mannay et al., 2015). Gall ysgolion, felly, fod yn achubiaeth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac mae ganddynt y potensial i ddarparu cymuned bwysig o dosturi i deuluoedd (Roberts, 2012; Plant Carcharorion Ewrop (COPE), 2022a). Mae dull gweithredu amlddisgyblaeth ar y cyd rhwng ysgolion, carchardai a sefydliadau'r trydydd sector yn hanfodol er mwyn darparu cymorth cyfannol i blant (COPE, 2022b).

1.19 Fodd bynnag, gall ysgolion fod yn lleoliadau lle caiff stigma ei amlygu, a hynny ar ffurf bwlio a diarddeliad (McGillivray (2016: 31). Mae plant a chanddynt riant yn y carchar yn aml yn cael eu hystyried yn wahanol i'w cyfoedion, ac mae cyd-ddisgyblion ac athrawon, fel ei gilydd, yn cysylltu gweithredoedd y rhiant â'r plant eu hunain (Warren, Coker a Collins, 2019; Roberts, 2012). Dywed Pilotto (2024) nad yw mentrau carchardai-ysgolion yn unig yn ddigonol i wella perthnasoedd rhwng ysgolion a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt, a bod hyfforddiant a pharatoad yn hanfodol.

### Dull amlasiantaeth

1.20 Mae papur briffio COPE (2022b) yn pwysleisio mai dull amlddisgyblaethol ar y cyd rhwng ysgolion, carchardai a sefydliadau cymunedol yw'r ffordd gadarnaf o sicrhau bod plant yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Yn yr un modd, mae ymchwil gan Kincaid, Roberts a Kane (2019) yn amlygu'r angen am gymorth cydgysylltiedig, teulu cyfan a thraws-sectoraidd er mwyn iddo fod o fudd i anghenion amrywiol plant a'u teuluoedd. Maent yn awgrymu y byddai protocolau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, carchardai a gwasanaethau prawf yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd pobl sydd yn y carchar, a hynny'n seiliedig ar asesiad o anghenion y plant.

### Diogelu

1.21 Nid yw carchariad rhiant yn cyfateb yn awtomatig i fater diogelu gan fod gofal priodol ar waith yn achos llawer o blant tra bo eu rhiant yn y carchar. Mae ymarferwyr, yn gyffredinol ond ar gam, yn cymryd yn ganiataol nad oes gan rieni (ac

yn enwedig mamau) hawliau rhieni mwyach wedi iddynt fynd i'r carchar, ac y bydd yn niweidiol i blant ymweld â'u rhiant yn y carchar (Rees, Waits, a Bezeczky, 2024). Mae llawer o blant yn dymuno cadw cysylltiad â'u rhiant (Rees, Staples, a Maxwell, 2017), a rhaid ystyried eu barn yn unol ag Erthygl 2 y CCUHP (ynghylch peidio â gwahaniaethu).

**Cydnabod anghenion pob plentyn**

1.22 Nid yw plant a chanddynt riant yn y carchar yn grŵp homogenaidd; maent yn dod o amrywiaeth eang o gymunedau cymdeithasol, economaidd ac ethnig, ac mae yna amrywiaeth o fewn y profiad ei hun o gael rhiant yn y carchar. Ni fydd pob plentyn sydd â rhiant yn y carchar yn mynychu'r ysgol. Mae'r llenyddiaeth yn pwysleisio'r angen i ystyried anghenion **unigol** plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt (Sutherland a Wright, 2017). Mae Asesiadau o'r Effaith ar Blant yn helpu i nodi anghenion pob plentyn (Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022).

**Cefndir: crynodeb o'r polisïau perthnasol**[2]

1.23 Dangosodd yr adolygiad o ddeddfwriaethau a pholisïau yng Nghymru fod gan Gymru eisoes bolisïau sy'n cefnogi dull gweithredu ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (megis y Ffordd Gywir, y Cynllun Hawliau Plant, a Plant yn Gyntaf). Mae angen cydnabod plant sydd â rhiant yn y carchar, a dylid ymgorffori eu hanghenion yn y polisïau hyn. Rhaid i'r angen i gadw plant yn ddiogel hefyd fod yn ganolog i unrhyw bolisïau ac arferion sy'n cefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar, a rhaid i hyn gael ei gynnwys yng Nghod Ymarfer Diogelu Llywodraeth Cymru yn ogystal â Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.

1.24 Nid yw'r DU yn cydymffurfio â rheolau rhyngwladol ar hyn o bryd ynghylch cofnodi gwybodaeth yn systematig am blant a phobl ifanc sydd â rhiant yn y carchar. Byddai casglu, cydgrynhoi a chyhoeddi data yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i asesu ac ymateb i anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt trwy bolisïau ac adnoddau. Fodd bynnag, gall sut y gwneir hyn a sut y defnyddir yr wybodaeth fod yn faterion sensitif iawn.

1.25 Mae'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) eisoes yn canolbwyntio ar wella ansawdd addysg, hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng

[2] Am fwy o fanylion gweler yr atodiad adolygu llenyddiaeth

Nghymru. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithrediad effeithiol rhwng addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill wrth gefnogi plant, ac mae hynny wedi llywio prosiect ASPIRE drwyddi draw. Mae fframwaith Llywodraeth Cymru i ymgorffori dull ysgol gyfan, sy'n cynnwys pedwar diben y cwricwlwm (gweler yr adolygiad llenyddiaeth), yn rhan o ddull system gyfan ehangach i ddiwallu anghenion llesiant pob plentyn a pherson ifanc. Rhaid i hyn gynnwys anghenion plant y mae eu rhieni yn y carchar. Yn yr un modd, mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2024) Llywodraeth Cymru yn ymrwymo'r Llywodraeth i wella gofal a chymorth i blant a phobl ifanc na allant aros gyda'u teuluoedd, sydd, yn ôl diffiniad, yn cynnwys plant a chanddynt riant yn y carchar.

1.26 Mae polisïau Cymru megis y Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y Rheini sydd mewn Risg o Droseddu yng Nghymru (Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Fawrhydi, 2018), y strategaeth Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol (HMPPS, 2019) a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Llywodraeth Cymru, 2019) yn eistedd o fewn polisi cyfiawnder, ac, o ganlyniad, yn canolbwyntio ar yr oedolyn yn y system gyfiawnder. Er bod adolygiadau'r Arglwydd Farmer yn arloesol o ran cydnabod rôl bwysig perthnasoedd teuluol cryf wrth leihau aildroseddu, rhaid cydnabod teuluoedd a phlant fel pobl a chanddynt eu hawliau eu hunain yn hytrach na fel cyfrwng i wella canlyniadau i eraill. Yn hytrach, mae'r angen i gefnogi plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar yn gweddu'n well i feysydd polisi addysg ac iechyd, a dylid cydnabod plant a chanddynt riant yn y carchar yn benodol yn y cod ymarfer yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant sydd â mam yn y carchar, gan nad oes yr un carchar menywod yng Nghymru ar hyn o bryd.

### Cefndir: adolygiad ymarfer[3]

1.27 Ochr yn ochr â'r adolygiadau llenyddiaeth a pholisi, adolygodd tîm ASPIRE arferion presennol sy'n ceisio cefnogi plant ledled Cymru, y DU, a thu hwnt y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, a hynny er mwyn llywio'r broses o ddatblygu ystyriaethau ar gyfer model ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cymorth i deuluoedd yn y carchar, cymorth ac adnoddau yn yr ysgol, cymorth yn y gymuned,

[3] Am fwy o fanylion gweler yr atodiad adolygu llenyddiaeth

a hyfforddiant. Gellir gweld rhestr fanwl o'r sefydliadau yn y DU sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn Atodiad A. Mae'r gwasanaethau a'r adnoddau sy'n bodoli yng Nghymru i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn cael eu crynhoi yma:

**Tabl 1: Gwasanaethau ac adnoddau i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.**

| Math o wasanaeth/adnodd | Darpariaeth |
|---|---|
| Cymorth yn y carchar i deuluoedd a gwasanaethau ymwelwyr | Waliau Anweledig Cymru: CEF Caerdydd, CEF Brynbuga, CEF Prescoed, a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc<br>Pact(Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai): CEF Abertawe, CEF Eastwood Park, CEF Styal, a'r rhaglen Visiting Mum<br>Barnardo's: CEF Berwyn<br>Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion (FFOPs): Cymorth gan gymheiriaid i deuluoedd CEF Abertawe<br>Y Bont: Prosiect Cwlwm CEF Styal<br>Storybook Dads |
| Cymorth yn yr ysgol a'r gymuned i blant a phobl ifanc | Pact**:** Prosiect allgymorth, allgymorth ysgolion, cymorth cymheiriaid a gwasanaethau cyfeillio i oedolion.<br>Barnardo's**:** gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chysylltiadau â gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys cyfarfodydd ar-lein rhwng rhieni ac athrawon.<br>Waliau Anweledig Cymru**:** Parth Ysgolion |
| Gwaith datblygu strategol | FABI Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt: dull strategol amlasiantaeth o gefnogi plant a theuluoedd yng Ngogledd Cymru y mae carchariad yn effeithio arnynt. Daeth yr arian ar gyfer y rhaglen hon i ben ym mis Awst 2024. |
| Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol | Pact:<br>Barnardo's<br>Waliau Anweledig Cymru |
| Adnoddau a phecynnau cymorth i lywio arferion yng Nghymru | Pact Llawlyfr Ysgolion Cymru (2023)<br>Barnardo's Cymorth i blant a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt – Llawlyfr ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru (2012)<br>Barnardo's Pecyn Cymorth Adnoddau y Cytundeb Waliau Anweledig (2024)<br>Barnardo's Llawlyfr Ysgolion Cymru (2014)<br>Llywodraeth Cymru Cyngor i Rieni, Cefnogi eich plentyn pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar (2023) |

## 2. Y Fethodoleg

2.1 Comisiynwyd prosiect ASPIRE i ddarparu opsiynau ac ystyriaethau ar gyfer model cenedlaethol o gymorth i wella deilliannau llesiant ac addysgol plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Defnyddiodd y prosiect fethodoleg gymysg, gan dynnu ar ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd a chasglu data ansoddol a meintiol. Nod y tîm oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys staff carchardai, athrawon, llunwyr polisïau, a theuluoedd sydd â phrofiadau personol, a hynny er mwyn edrych yn eang ar fodelau posibl. Nododd y fethodoleg anghenion posibl yr holl gyfranogwyr yn ogystal â'r risgiau posibl a oedd yn gysylltiedig â'u hymgysylltiad. Y nod oedd creu methodolegau cynhwysol a oedd yn ymateb i'r anghenion hyn ac yn lliniaru unrhyw risgiau, wedi'u llywio drwyddi draw gan ddull hawliau plant, fel yr amlygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn ogystal â dull sy'n ystyriol o drawma, a amlygwyd yn adroddiad Estyn (gweler adolygiad polisi). Cafodd prosiect ASPIRE Cymru ei lywio gan y Ffordd Gywir (Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Mae'n cadw at ei egwyddorion, yn enwedig bod plant yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau am eu bywydau. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r prosiect gan Gyngor Ymchwil Cenedlaethol yr HMPPS[4] a Phrifysgol Huddersfield. Cafodd tîm ASPIRE ei gefnogi a'i arwain gan grŵp cynghori arbenigol o randdeiliaid allweddol o garchardai a gwasanaethau prawf, addysg, polisi plant a theuluoedd, iechyd, ymarferwyr y trydydd sector, a phobl â phrofiad bywyd (gweler Atodiad B).

2.2 Cyflawnwyd prosiect ASPIRE ar draws pum cam allweddol dros gyfnod cyflawni o 12 mis:

- cam un: cyflwyniad a gosod y sylfaen
- cam dau: adolygiad o fodel Parth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- cam tri: adeiladu sylfaen ar gyfer model cymorth cynhwysfawr
- cam pedwar: casglu’r dystiolaeth yn derfynol i ddatblygu'r model
- cam pump: cyflwyno'r model yn yr adroddiad terfynol

[4] 4 Ymchwil yn HMPPS – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

**Cam un: cyflwyniad a gosod y sylfaen**

2.3 Ystyriwyd y cwestiynau canlynol mewn adolygiad o'r llenyddiaeth, y polisïau a’r arferion:

- beth yw'r cyd-destun polisi (ledled pob adran, gan gynnwys cyfiawnder troseddol ac addysg) lle datblygir cymorth i blant a theuluoedd y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt?
- beth yw effaith carcharu rhiant ar lesiant ac addysg plant, a beth yw eu hanghenion?
- pa fodelau sy'n bod eisoes (yng Nghymru, yn y DU, ac yn rhyngwladol) i gefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar i gael y cymorth gorau gan eu hysgol a'u cymuned ac i annog eu rhiant yn y carchar i ymgysylltu â'r ysgol?
- pa ganlyniadau sydd i’w gweld i'r plant a'r rhieni hynny a gefnogir trwy'r modelau hyn, ac i ba raddau y gellir eu priodoli i ysgol, carchar neu ymyrraeth benodol yn y gymuned?
- beth yw'r polisïau, yr arferion, y canllawiau a'r adnoddau allweddol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau hyn?
- pa rwystrau sy'n atal plant sydd â rhiant yn y carchar rhag cael cymorth gan eu hysgol neu gymuned?
- pa ddata sydd ar gael ar hyn o bryd o ran asesu canlyniadau i blant â rhieni yn y carchar mewn perthynas â'r cymorth y maent yn ei gael gan yr ysgol, a beth yw'r bylchau data allweddol?

2.4 Defnyddiodd tîm ASPIRE chwiliadau allweddeiriau i ddiweddaru’r adolygiadau llenyddiaeth a oedd yn bod yn barod a gynhaliwyd yn ystod ei waith blaenorol. Canolbwyntiodd y chwiliadau yn bennaf ar lenyddiaeth Saesneg o wledydd y gorllewin, a chynhwyswyd cyfuniadau o dermau chwilio megis ‘children/parent/prison/incarcerated/support/school’, yn ogystal â chwilio cronfeydd data perthnasol megis JSTOR, Google Scholar, Sage, Pro Quest, a chanolfannau academaidd o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Huddersfield, a Phrifysgol y Gyfraith. Anfonodd y tîm 'alwad am dystiolaeth' hefyd i'r grŵp cynghori arbenigol ac at aelodau o rwydweithiau tîm ASPIRE ei hun (er enghraifft, trwy'r Clymblaid Ryngwladol ar gyfer Plant sydd â Rhiant yn y Carchar, rhwydwaith COPE, ac elusennau sy’n darparu gwasanaethau i deuluoedd), i sicrhau bod unrhyw lenyddiaeth berthnasol hefyd yn cael ei chynnwys yn yr adolygiad. Casglwyd

ffynonellau ychwanegol o lyfryddiaethau'r cyhoeddiadau a nodwyd trwy'r broses hon.

2.5 Rhan olaf cam un oedd asesiad sylfaenol a fyddai'n llywio’r gweithgareddau ar gyfer camau olaf y prosiect, gan egluro'r dirwedd o ran carchardai ac addysg yng Nghymru, yn cynnwys cipio data sylfaenol. Y bwriad oedd dadansoddi'r data hyn cyn cam dau; fodd bynnag, bu oedi cyn cael caniatâd i gynnal yr elfen hon o’r ymchwil, felly cynhaliwyd yr asesiad sylfaenol yn ddiweddarach yn y prosiect, a chasglwyd y data terfynol ychydig cyn y digwyddiad i’r rhanddeiliaid (cam tri). Anfonwyd yr arolwg ar-lein hwn at randdeiliaid perthnasol a nodwyd gan y grŵp cynghori i gasglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth y cyfranogwyr o’r canlynol:

- polisïau, fframweithiau, canllawiau ac adnoddau perthnasol
- y modd y mae carchardai yng Nghymru yn cefnogi tadau yn y carchar a'u plant
- y modd y mae carchardai menywod yn Lloegr yn cefnogi mamau o Gymru a'u plant
- y modd y mae ysgolion yng Nghymru yn cefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar
- unrhyw fath o gymorth nad yw'n gysylltiedig â'r ysgol neu'r carchar

Yn ogystal, gofynnodd yr arolwg i’r ymatebwyr wneud sylwadau ar eu dull gweithredu wrth weithio gyda rhiant yn y carchar neu blentyn sydd â rhiant yn y carchar, a myfyrio ar y materion a'r heriau allweddol wrth ddatblygu model ar gyfer Cymru gyfan.

2.6 Cafodd yr arolwg sylfaenol ymatebion gan 28 o blith 30 o randdeiliaid allweddol posibl. Roedd y rhain yn cynnwys staff carchardai (wyth, gan gynnwys gweithiwr cymdeithasol), addysg (wyth), y gwasanaeth prawf (pedwar), y trydydd sector (tri), pobl ifanc â phrofiad bywyd (dau), ac un yr un o Lywodraeth Cymru, Iechyd ac awdurdodau lleol. Gweler Atodiad C am gopi o gwestiynau'r arolwg.

**Cam dau: Adolygiad o fodel Parth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc**

2.7 Yn 2017, cyhoeddwyd gwerthusiad cynhwysfawr o gynllun Waliau Anweledig a weithredir yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc (Clancy a Maguire, 2017), ac mae'n cynnwys canfyddiadau perthnasol yn ymwneud â’r canlyniadau i'r rhiant yn y carchar ac, yn bwysig iawn i'r prosiect hwn, lesiant a chynnydd addysgol y

plant yr oedd eu rhiant yn y Parc. Ni wnaeth prosiect ASPIRE efelychu'r gwerthusiad hwn ond yn hytrach defnyddiodd adolygiad trawsdoriadol yn seiliedig ar astudiaeth achos i wneud y canlynol:

- creu astudiaeth achos o fodel Parth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- nodi’r 'gwersi allweddol a ddysgwyd' o’r Parth Ysgolion, a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu model cenedlaethol i Gymru
- archwilio’r modd y mae’r Parth Ysgolion yn berthnasol i'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r adolygiad llenyddiaeth a’r asesiad sylfaenol

2.8 Roedd yr adolygiad o’r Parth Ysgolion yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- i ba raddau y mae'r gweithgarwch a gynigir trwy gynllun CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn gyson ag arferion seiliedig ar dystiolaeth o’r 'hyn sy'n gweithio'?
- pa ganlyniadau y mae'r ymyrraeth yn eu cyflawni i blant a'u rhieni?
- sut y mae gwaith CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc gydag ysgolion wedi newid ers gwerthusiad 2017?
- beth yw prif elfennau'r model?
- beth yw profiadau darparwyr addysg, a pha 'arferion da' y gallant eu rhannu?
- pa ganlyniadau sy'n cael eu cyflawni i'r plant sy'n cymryd rhan o ran eu llesiant a'u haddysg, a sut y maent yn cael eu mesur?
- beth yw'r prif alluogwyr, cyfyngiadau a rhwystrau yn y model?
- a yw'n bodloni'r anghenion sylfaenol a nodwyd yng ngham un?

2.9 I ateb y cwestiynau hyn, ymwelodd y tîm â CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc dros ddau ddiwrnod, gan gadw'r amserlen yn fwriadol fyr er mwyn lleihau'r baich ar staff y carchar a thîm Waliau Anweledig. Caniataodd yr ymweliad, a oedd yn cyd-daro â digwyddiad gan y Parth Ysgolion, i'r tîm ddatblygu astudiaeth achos gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol:

**Tabl 2: Nifer y cyfranogwyr a sut yr oeddent yn cymryd rhan yn yr ymchwil**

| Grŵp cyfranogwyr | Nifer y cyfranogwyr | Dull ymgynghori (gweler Atodiad D ar gyfer yr adnoddau ymchwil) |
|---|---|---|
| Plant | Deg, 3-15 oed | Grŵp ffocws |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Hwylusodd tri aelod o dîm ASPIRE y grŵp ffocws i alluogi plant o wahanol oedrannau i gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar eu hoedran. Er enghraifft, cefnogwyd y plant hŷn i lenwi taflenni gweithgareddau, wrth i'r plant iau gymryd rhan mewn gweithgareddau trafod gan ddefnyddio papur siart droi, gwrando ar straeon, a defnyddio cymeriad ffuglennol sydd â thad yn y carchar.<br>• Cynhaliwyd y grŵp yn y neuadd ymweliadau, ger yr ardal chwarae.<br>• Roedd staff Waliau Anweledig Cymru ar gael i oruchwylio'r plant iau a oedd yn dymuno chwarae ar ôl cymryd rhan yn y grŵp ffocws.<br>• Data a gasglwyd trwy nodiadau ysgrifenedig yr hwyluswyr, taflenni gwaith a gwblhawyd gan y plant, a siartiau troi anodedig. |
| Tadau yn y ddalfa | Wyth. | Grŵp ffocws<br>• Wedi'i hwyluso gan ddau aelod o dîm ASPIRE a'i recordio gan aelod ychwanegol o'r tîm.<br>• Cynhaliwyd y grŵp mewn ystafell lolfa ger y neuadd ymweliadau.<br>• Cafodd y grŵp ffocws ei recordio'n ddigidol a'i drawsgrifio. |
| Rhieni/gofalwyr | Chwe gofalwr (pedair mam a dwy fam-gu) | Grŵp ffocws<br>• Wedi'i hwyluso gan ddau aelod o dîm ASPIRE<br>• Cynhaliwyd y grŵp mewn ystafell lolfa ger y neuadd ymweliadau.<br>• Data a gasglwyd trwy nodiadau ysgrifenedig yr hwyluswyr.<br><br>Arolwg ar-lein dilynol<br>• Oherwydd cyfyngiadau amser yn y grŵp ffocws, cynigiwyd cyfle i'r cyfranogwyr rannu rhagor o wybodaeth trwy arolwg ar-lein a oedd yn gofyn yr un cwestiynau ag a ofynnwyd yn y grŵp ffocws.<br>• Llenwodd pedwar rhiant/gofalwr arolwg ar-lein Microsoft Forms. |
| Athrawon | 23 (gan gynnwys naw mewn rolau arwain) | Cyfweliadau lled-strwythuredig<br>• Cynhaliwyd cyfweliadau â staff ysgolion o amgylch paramedr y neuadd ymweliadau wrth i'r teuluoedd rannu bwyd gyda'i gilydd yn dilyn y digwyddiad.<br>• Cynhaliwyd cyfweliadau gan aelodau unigol o dîm ASPIRE ag athrawon mewn grwpiau ysgolion. Roedd rhai cyfweliadau yn rhai un i un, |

| | | |
|---|---|---|
| | | a chynhaliwyd eraill â dau neu dri o athrawon gyda'i gilydd.<br>• Data a gasglwyd trwy nodiadau ysgrifenedig yr hwyluswyr. |
| Staff y carchar | Pedwar (o amrywiaeth o ddynodiadau) | Cyfweliadau lled-strwythuredig<br>• Cynhaliwyd y cyfweliadau ar ffurf un-i-un ac mewn grwpiau bach o ddim mwy na thri unigolyn.<br>• Data a gasglwyd trwy nodiadau ysgrifenedig yr hwyluswyr. |
| Staff Waliau Anweledig Cymru | Tri | Cyfweliadau lled-strwythuredig<br>• Cynhaliwyd y cyfweliadau ar ffurf un-i-un ac mewn grwpiau bach o ddim mwy na thri unigolyn.<br>• Data a gasglwyd trwy nodiadau ysgrifenedig yr hwyluswyr. |
| Cyfranogwyr y digwyddiad arddangos | 16 o dadau a'u teuluoedd. | Arsylwi<br>• O baramedrau'r neuadd ymweliadau arsylwodd holl aelodau tîm ASPIRE ar gyflwyniad y digwyddiad arddangos gan gofnodi eu sylwadau â llaw.<br>• Roedd yr arsylwadau'n canolbwyntio ar y modd y cafodd y digwyddiad ei gyflwyno a'r rhyngweithio rhwng yr athrawon, staff y carchar a'r teuluoedd. |

2.10 Cysylltodd Cydlynydd Ysgolion a Charchardai G4S â'r holl deuluoedd ac ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad Parth Ysgolion ymlaen llaw i ddarparu gwybodaeth am yr ymchwil ac i sicrhau eu bod yn barod i gymryd rhan ac i'r digwyddiad gael ei arsylwi arno. Yna casglodd tîm ASPIRE gydsyniad ysgrifenedig gan yr holl gyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan. Roedd pob cyfweliad a grŵp ffocws yn ddienw, felly nid oes rhestr o rolau na sefydliadau y tu hwnt i'r dynodiadau uchod ar gael i'r cyhoedd.

2.11 Llywiodd canfyddiadau'r ddau gam cyntaf ac adborth gan y grŵp cynghori arbenigol gamau tri i bump. Mae'r cyfnod byr a'r niferoedd bach o gyfranogwyr a orfodwyd gan yr amserlen a'r cyllid a oedd ar gael yn sicr yn cyfyngu ar gadernid y canfyddiadau, ond, serch hynny, maent wedi ennyn fframwaith gwerthfawr o bynciau i'w harchwilio yn y camau diweddarach.

**Cam tri: adeiladu sylfaen ar gyfer model cymorth cynhwysfawr**

2.12 Roedd y cam hwn o'r prosiect yn cynnwys digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid amlasiantaeth ledled Cymru, a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ac a hwyluswyd gan dîm ASPIRE. Diben y digwyddiad oedd:

- llywio gweithgareddau ymgynghori cam pedwar (pwy y dylid ymgynghori â nhw, pa gwestiynau y dylid eu gofyn)
- 'gwirio'r tymheredd' o ran cymhelliant a pharodrwydd i ddarparu model cymorth ledled Cymru i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- nodi unrhyw fodelau cymorth ychwanegol
- nodi'r materion allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu model ar gyfer Cymru gyfan

2.13 Ymgysylltodd y digwyddiad â 44 o randdeiliaid allweddol (swyddogion a llywodraethwyr y carchar, athrawon a phenaethiaid (yn bennaf o ysgolion cynradd), llunwyr polisïau, darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector, a phobl â phrofiad bywyd o garchar (neu o gael rhiant yn y carchar). Roedd y cyfranogwyr yn eistedd wrth fyrddau crwn wedi'u trefnu i gymysgu pobl a chanddynt meysydd arbenigedd gwahanol wrth bob un, a chafodd y trafodaethau eu hwyluso a'u cofnodi (yn ysgrifenedig) wrth bob bwrdd gan aelod o dîm ASPIRE. Cynhaliodd y tîm ddau rownd drafod awr o hyd, ac roedd y grwpiau o gyfranogwyr yn newid rhwng y rowndiau i hwyluso trafodaethau gwahanol. Cyflwynodd tîm ASPIRE y prosiect ymchwil, gan rannu canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a'r ymweliad â Pharth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, a rhoddodd gyfle i'r cyfranogwyr drafod y cwestiynau canlynol:

- beth sydd bwysicaf i chi am y cymorth y mae ysgolion yn ei gynnig i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt?
- beth yw'r rhwystrau sy'n eich pryderu fwyaf?
- beth yw eich gweledigaeth ar gyfer cefnogi plant yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar?
- sut olwg allai fod ar ddull cenedlaethol 'awyr las' i gefnogi plant a'u rhiant yn y carchar fel rhan o gynllun ledled Cymru?

2.14 Roedd y digwyddiad hefyd yn ceisio gwneud y canlynol:

- meithrin ymwybyddiaeth o effaith carcharu rhiant ar blant
- annog cydweithio amlasiantaeth

- creu tir ffrwythlon ar gyfer cyd-ddatblygu model arfaethedig
- meithrin dealltwriaeth o'r hyn y mae ei angen ar randdeiliaid o'r model
- ychwanegu gwerth at y prosiect, gan gydnabod a chefnogi canlyniadau tymor hwy
- creu cydberchnogaeth o'r prosiect fel bod rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac yn cael eu clywed

**Cam pedwar: casglu’r dystiolaeth yn derfynol i ddatblygu'r model**

2.15 Roedd cam pedwar yn adeiladu ar yr wybodaeth a ddatblygwyd yn ystod y camau blaenorol ac yn anelu at feithrin dealltwriaeth fanylach o’r modd y gallai model ledled Cymru fodloni anghenion yr holl randdeiliaid allweddol. Roedd hyn yn cynnwys nifer o ddulliau.

2.16 Yn gyntaf, cynlluniwyd arolwg ar-lein arall i ymgysylltu ag 20 o ymarferwyr sy'n cefnogi rhieni yn y ddalfa a'u plant yn yr ysgol, nad oeddent yn rhan o fodel Parth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Fodd bynnag, o ystyried natur fanwl canfyddiadau'r arolwg sylfaenol a'r oedi cyn cwblhau'r arolwg, penderfynodd y tîm beidio â chynnal galwad ar-lein arall am wybodaeth er mwyn osgoi dyblygiad, ac yn lle hynny siaradodd yn uniongyrchol â saith ymarferydd sy’n darparu gwasanaethau.

2.17 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein neu wyneb yn wyneb ag ystod o gyfranogwyr a ddewiswyd i gynrychioli trawstoriad o ddaearyddiaeth a safbwyntiau personol a phroffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- deuddeg o staff carchardai o ystod o ddynodiadau mewn carchardai nad ydynt yn gweithredu’r model Parth Ysgolion ar hyn o bryd[5] (Penaethiaid Gweithrediadau, Pennaeth Sgiliau a Dysgu, Lleihau Aildroseddu, dau Lywodraethwr, ymarferydd addysg, a staff adain ac ymweliadau)
- pedwar aelod o staff addysg o rolau gwahanol (athro ysgol gynradd, athro ysgol uwchradd, pennaeth uned cyfeirio disgyblion, swyddog lles addysg, ac ymarferydd Thrive)[6]

[5] Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, bu i fwy o garchardai gyflwyno model Parth Ysgolion Waliau Anweledig Cymru, a oedd yn golygu bod rhai o’r staff carchardai y cyfwelwyd â nhw yn gyfarwydd erbyn hyn â'r model hwnnw yn eu carchardai.
[6] Gwnaed ymdrechion sylweddol i gynnwys staff addysg ychwanegol, ond ni lwyddwyd i gyflawni hyn yn ystod amserlen y prosiect.

- pump rhanddeiliad polisi yng Nghymru (gwaith cymdeithasol, addysg, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma, cyfiawnder troseddol)
- pedwar plentyn a pherson ifanc â phrofiad o fod â rhiant mewn carchar ar wahân i CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- tri gofalwr plant a phobl ifanc a chanddynt riant mewn carchar ar wahân i CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- tri rhiant (dau dad ac un fam) mewn carchar ar wahân i CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, ynghyd â dau ymateb ysgrifenedig gan dadau Cymraeg eu hiaith a oedd yn y carchar

Ar gyfer y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn y cyfweliadau, gweler Atodiad E.

2.18 Yn olaf, dosbarthwyd arolwg ar-lein i bobl ifanc â phrofiad o fod â rhiant yn y carchar, nad oeddent wedi cael cymorth trwy CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Er mwyn eu hannog i gymryd rhan, estynnwyd gwahoddiad iddynt rannu eu barn ar-lein. Trwy’r dull hwn cyrhaeddwyd y targed arfaethedig o ddeg ymateb a osodwyd yng ngoleuni’r cyfyngiadau amser a’r cyfyngiadau ar y gyllideb. Gellir dod o hyd i gwestiynau'r arolwg yn Atodiad F.

**Cam 5: creu model newydd o gymorth**

2.19 Roedd cam olaf y prosiect yn cynnwys coladu a dadansoddi canfyddiadau camau tri a phedwar. Cyfarfu'r grŵp cynghori arbenigol i ystyried y cwestiynau canlynol:

- a yw tîm ASPIRE wedi methu â rhoi sylw i unrhyw beth?
- pa un o’r themâu sy'n dod i'r amlwg yw’r pwysicaf?
- beth ddylai blaenoriaethau'r model arfaethedig fod?
- beth ym marn y grŵp yw’r prif rwystrau a ffactorau lliniarol?

2.20 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o bob cam ochr yn ochr â chyfres o argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gweithredu’r camau hyn a darparu adnoddau ar eu cyfer. Cafodd pawb a gymerodd ran yn yr ymchwil wybodaeth am y modd y llywiodd eu barn yr adroddiad hwn, a rhoddwyd crynodeb hawdd ei ddeall iddynt o'r prosiect.

### Rhagor o nodiadau ar y fethodoleg

2.21 Roedd cyfyngiadau ar amser a chyllid ar gyfer prosiect ASPIRE yn golygu bod yn rhaid manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan, yn hytrach na’u dewis ar hap. Targedwyd y cyfranogwyr er mwyn sicrhau ymatebion traws-sector, ond mae'r nifer bach o gyfranogwyr yn golygu nad yw'r ymatebion yn gynrychioliadol ac na ddylid eu cyffredinoli. Yn hytrach, mae'r ymchwil yn rhoi trosolwg bras o'r lefelau ymwybyddiaeth a'r mathau o heriau a wynebir wrth ddarparu cymorth i blant yng Nghymru pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar. Mae'r canfyddiadau, felly, yn tynnu'n helaeth ar arbenigedd y tîm ymchwil a'r grŵp cynghori, y cyd-destun polisi, ac ymchwil flaenorol, yn ogystal ag ar ymatebion y cyfranogwyr yn yr arolygon ar-lein, yr ymweliadau safle, a’r cyfweliadau.

2.22 Trwy gydol y prosiect, roedd tîm ASPIRE yn cydnabod bod yr hinsawdd bresennol yn heriol i'r rhai sy'n gweithio mewn carchardai ac ysgolion oherwydd anawsterau staffio ac adnoddau cyfyngedig. Roedd y fethodoleg yn ystyried sut y gellid cefnogi addysg a llesiant plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, yn darparu argymhellion o ran sut olwg allai fod ar fodel cymorth cenedlaethol, ac yn ceisio mynnu cyn lleied â phosibl o amser staff i gynhyrchu'r canlyniadau gorau. Lle bynnag y bo'n bosibl, defnyddiwyd cyfarfodydd a digwyddiadau a drefnwyd eisoes i ymgynghori â gweithwyr proffesiynol. Defnyddiwyd dulliau cyfathrebu rhithwir i leihau'r amser a'r costau cysylltiedig â theithio.

2.23 Gall diffyg cydweithredu rhwng sectorau a rhanddeiliaid gwahanol gyfyngu ar arferion arloesol. Roedd methodoleg ASPIRE yn meithrin cysylltiadau rhwng sectorau (carchardai, ysgolion, a darparwyr cymorth statudol ac anstatudol yn y gymuned i blant a chanddynt riant yn y carchar). Mae'r argymhellion a'r camau gweithredu a awgrymir yn yr adroddiad hwn yn ystyried y realiti sy'n wynebu'r rhai mewn gwasanaethau rheng flaen yn ogystal â'r cyd-destun polisi yng Nghymru. Maent hefyd yn ystyried yr adnoddau a'r modelau sydd eisoes yn bod i hyrwyddo gwaith amlasiantaeth yng Nghymru, megis Hyb ACE Cymru.

## 3. Canfyddiadau: Astudiaeth achos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

3.1 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn seiliedig ar ymweliad dau ddiwrnod tîm ASPIRE â CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym mis Tachwedd 2023. Ni fwriadwyd i

hyn fod yn werthusiad cadarn o'r model na'i effaith, ond yn hytrach yn ymarfer casglu gwybodaeth i lywio'r cwestiynau ar gyfer camau dilynol y prosiect.

**Trosolwg o'r Parth Ysgolion a'r digwyddiad arddangos**

3.2 Menter dan ofal Cwmni Buddiannau Cymunedol Waliau Anweledig yw'r Parth Ysgolion. Cafodd ei sefydlu o fewn prosiect gwreiddiol Waliau Anweledig Cymru, a gyflwynodd fentrau gan gynnwys:

- Uned Ymyraethau i Deuluoedd CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- ymweliadau dan arweiniad ymyraethau mewn cyfleusterau sy'n addas i deuluoedd
- gwaith achos trwy'r-giât gan Fentoriaid Integreiddio Teuluoedd
- partneriaeth ag asiantaethau cymunedol

Nodau datganedig menter Waliau Anweledig Cymru oedd lleihau aildroseddu a'r risg o droseddu rhwng y cenedlaethau. Cynhaliodd Prifysgol De Cymru werthusiad o Waliau Anweledig Cymru yn 2017 (Clancy a Maguire, 2017). Amlygodd y gwerthusiad lwyddiant y sesiynau ymwybyddiaeth athrawon ac agweddau cadarnhaol y digwyddiad arddangos, gan nodi bod ymgysylltiad yr ysgolion yn ffactor allweddol yn ei lwyddiant. Yn ehangach, canfu'r gwerthusiad fod prosiect Waliau Anweledig Cymru, yn ei gyfanrwydd, yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad plant yn yr ysgol, yn ogystal ag ar eu perthnasoedd â'u cyfoedion yno.

3.3 Gweledigaeth y Parth Ysgolion yw torri tir newydd ac ehangu ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, gan sicrhau ar yr un pryd fod y teulu yn aros wrth wraidd pob arfer. Ei nod datganedig yw:

- rhwystro troseddau rhwng y cenedlaethau ac aildroseddu
- helpu teuluoedd i ailgysylltu â'u cymunedau
- gweithio gyda theuluoedd i wella perthnasoedd teuluol yn ystod y cyfnod yn y carchar ac wedi hynny
- helpu i wneud y profiad ymweld yn gadarnhaol ac yn ddiddorol i bawb dan sylw
- darparu cymorth yn ystod y cyfnod yn y carchar ac wedi hynny i helpu pobl i adeiladu dyfodol gwell

3.4 Ers 2014, mae 14 o ddigwyddiadau arddangos wedi ymgysylltu â chyfanswm o 16 o awdurdodau lleol. Mae'r digwyddiadau arddangos, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd, yn creu amgylchedd noson rhieni mewn ysgol yn neuadd ymweliadau y carchar, gan ddod â’r tadau sydd wedi’u carcharu, eu plant, athrawon y plant, a mam neu ofalwr y plant ynghyd i drafod cynnydd y plentyn yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn rhannu gwaith ysgol y plant, yn union fel y byddent yn ystod unrhyw noson rhieni, ac yn aml byddant yn darparu llungopïau o waith eu plant i'r tad yn y carchar i'w cadw a'u darllen yn ei amser ei hun wedi’r digwyddiad. Mae'r carchar yn darparu bwyd ar gyfer y digwyddiad.

3.5 Mae’r digwyddiad arddangos ar gyfer ysgolion yn rhan o raglen ehangach o gymorth i deuluoedd yn CEF y Parc, sy'n cynnwys yr Uned Ymyraethau i Deuluoedd, sef neuadd breswyl yn y carchar a neilltuir ar gyfer tadau sydd am ganolbwyntio ar fagu eu plant. Mae gan bob tad yn CEF y Parc hawl i gynnig ei hun i gymryd rhan yn y digwyddiad arddangos, a gall unrhyw un atgyfeirio teulu at y Cydlynydd Carchardai ac Ysgolion. Ar ddiwrnod ymweliad tîm ASPIRE, roedd 16 o dadau yn cymryd rhan yn y digwyddiad arddangos (o blith poblogaeth o dros 1,600 o ddynion yn y carchar). Pan fydd atgyfeiriad yn dod i law, cysylltir â'r gofalwr yn gyntaf, ac yna, gyda chaniatâd y gofalwr, bydd y Cydlynydd yn siarad â Phennaeth yr ysgol. Os yw'r Pennaeth yn cytuno y gall ei ysgol gymryd rhan, bydd y Cydlynydd yn cynnal sesiynau meithrin ymwybyddiaeth yn yr ysgol cyn y digwyddiad arddangos nesaf. Mae'r fenter hon bellach yn cael ei rhedeg mewn carchardai eraill, gan gynnwys CEF Caerdydd, CEF Brynbuga, a CEF Prescoed yng Nghymru, a CEF Bedford, CEF Littlehey, CEF Five Wells, CEF Oakwood, a CEF Rye Hill yn Lloegr.

**Cryfderau a buddion**

3.6 Fel y nodwyd yn y gwerthusiad gwreiddiol (Clancy a Maguire, 2017), ac a gadarnhawyd yn ystod arsylwadau tîm ASPIRE, mae'n amlwg bod angerdd, gwybodaeth ac ymrwymiad y staff sy'n ymwneud â’r Parth Ysgolion yn hwyluso cydweithio da rhwng yr ysgolion a’r carchardai. Mae hyn yn gryfder sylweddol i brosiect y Parth Ysgolion a'r digwyddiad arddangos, ac mae o fudd i blant, rhieni, a gofalwyr yn y gymuned, rhieni yn y carchar, athrawon, a staff carchardai.

3.7 Yn seiliedig ar arsylwadau, trafodaethau a gweithdai tîm ASPIRE, amlygodd y digwyddiad arddangos fuddion clir i'r plant a oedd yn bresennol y pryd hwnnw. Roedd y plant yn gallu cwrdd ag eraill sydd wedi cael yr un profiad, a oedd, ym

marn pob un o'r plant, yn elfen bwysig o'r fenter. Roedd y plant yn teimlo bod y digwyddiad arddangos wedi helpu i gryfhau eu perthynas â'u tadau. Dywedodd un plentyn fod y digwyddiad arddangos ar gyfer ysgolion ac ymyraethau eraill 'wedi fy achub i'n bersonol', a'i neges i Lywodraeth Cymru oedd y dylid 'cynnig y math yma o gymorth ym mhob carchar'. Elfen gref oedd y ffaith bod y digwyddiad arddangos yn darparu profiad wedi'i normaleiddio i'r plant, (mynd i noson rhieni gyda'r ddau riant fel y mae plant eraill yn ei wneud), ac mae hyn yn rhywbeth a oedd i'w weld yn bwysig i'r plant.

3.8 Siaradodd y plant am y buddion a ddaw o gael cyfle i'w tadau cwrdd â'u hathrawon:

> 'Os yw'r athrawon yn cael gweld eich tad, mae'r athrawon a'ch tad yn dod i wybod rhagor amdanoch chi. Os yw'r athrawon yn gwybod rhagor, byddan nhw'n deall pam rydych yn drist, ac mae Dad yn gwybod fy mod i'n gwneud llawer o waith yn yr ysgol.'

3.9 Gall cymryd rhan yn y digwyddiad arddangos gynyddu hyder plant yn yr ysgol a gartref, a'u galluogi i ymgysylltu mwy yn yr ysgol. Dywedodd un athro, 'Mae'r Parth Ysgolion wedi ei helpu [y plentyn] yn fawr – mae'n llawer mwy cyfforddus yn yr ysgol ac yn gallu canolbwyntio'n well.' I blant, y sylfaen ar gyfer yr hyder cynyddol hwn yn yr ysgol oedd y ffaith bod pobl yn yr ysgol yn eu deall yn well:

> 'Mae'n fy helpu i deimlo'n fwy cyfforddus yn yr ysgol gan fod fy athrawon yn gwybod difrifoldeb yr hyn sy'n digwydd gyda Dad, felly, pan fydda i'n cael diwrnod gwael, mae ganddyn nhw well dealltwriaeth."

3.10 Mae'r digwyddiad arddangos wedi helpu rhieni a gofalwyr yn y gymuned i deimlo'n llai ynysig. Dywedodd un rhiant:

> 'Rydw i wedi ymuno â'r fforwm teuluol[7] ac yn mynychu boreau coffi gyda gwragedd, mamau a mam-guod eraill sy'n mynd trwy'r un peth. Ni allaf hyd yn oed ddechrau egluro pa mor fuddiol y mae hyn wedi bod i mi. Nid oes neb yn y byd y tu allan yn deall y straen parhaus, y trallod, a'r emosiynau a'r rhwystrau dyddiol rydyn ni'n eu hwynebu yn well na nhw.'

3.11 Roedd cymryd rhan yn y digwyddiad arddangos yn helpu rhieni a gofalwyr yn y gymuned i weld nad eu cyfrifoldeb nhw yn unig yw cynnydd addysgol eu plentyn, ac roedd yn rhoi cyfle i rieni gael sgyrsiau ag athrawon nad oeddent efallai wedi gallu

[7] Roedd y fforwm teuluol yn gyfle i deuluoedd gwrdd wyneb yn wyneb yn y carchar cyn neu ar ôl eu hymweliad.

eu cael o'r blaen, gan leihau'r stigma o gael partner yn y carchar. Dywedodd un rhiant:

> 'Maen nhw'n ein cefnogi ni fel teulu yn llwyr a heb unrhyw feirniadaeth o gwbl ... mae hyn wedi cael effaith enfawr arna i gan nad ydw i wedi bod yn gadael y tŷ ryw lawer eleni ... am fy mod i'n ofni y bydd y gymuned ehangach yn fy meirniadu ac yn ceisio dial ... mae'n gwneud i chi deimlo fel bod gennych wal o gefnogaeth o'ch cwmpas.'

3.12 Wrth drafod y digwyddiad arddangos mewn grwpiau ffocws, tynnodd tadau yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc sylw eto at y modd y gall y digwyddiad 'normaleiddio' pethau i'w plant. Yn ogystal, roeddent yn teimlo'n fwy o ran o addysg eu plant, ac yn mwynhau gweld eu cynnydd, er enghraifft, eu llawysgrifen. Dywedasant fod hyn yn rhoi hyder iddynt fod ganddynt rôl i'w chwarae wrth annog a chefnogi eu plant. Dywedodd un tad fod y profiad i'r plentyn fel petai 'dau ddarn gwahanol o fywyd yn dod at ei gilydd'.

3.13 Siaradodd y tadau am eu haddysg eu hunain a'r profiadau negyddol a gawsant yn yr ysgol. Dywedasant fod y digwyddiad arddangos wedi helpu i feithrin eu hymddiriedaeth a'u hyder yn yr ysgol. Roedd dau dad a oedd â phlant mewn ysgolion Cymraeg yn falch iawn bod eu plant yn gallu eu helpu i ddysgu Cymraeg, a dywedodd dau dad arall fod gweld eu plant yn gwneud yn dda yn yr ysgol yn eu gwneud yn awyddus i wneud yn dda hefyd. Dywedodd y tadau fod y digwyddiad arddangos wedi eu helpu i ollwng gafael ar y pryderon a'r rhagdybiaethau a oedd ganddynt o'r blaen, er enghraifft, poeni am gael eu beirniadu gan yr athrawon.

3.14 I'r athrawon, roedd y buddion yn canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth. Dywedasant fod y digwyddiad arddangos wedi rhoi rhagor o ymwybyddiaeth iddynt o'r materion a'r heriau y mae plant yn eu hwynebu, a dirnadaeth ehangach o anghenion plant penodol. Dywedodd un athro, 'Nid oes gennym unrhyw syniad am yr effaith y mae hyn i gyd yn ei chael ar iechyd meddwl [y plentyn]. Dywedodd un arall, 'Byddwn yn deall ei ymddygiad yn well nawr, a bydd yn ein helpu i ddarparu cymorth cyson.'

3.15 Trwy gwrdd â'r ddau riant gyda'i gilydd, gall yr athrawon weld ei bod yn dal yn bosibl i'r rhiant yn y carchar fod yn rhiant da. Dywedodd un athro, 'Roedd yn hyfryd, dyma oedd y tro cyntaf i mi gwrdd â dad, ac roedd yn hyfryd gweld [y plentyn] gyda'i thad. Nid wyf erioed wedi gweld rhiant yn edrych ar waith ei blentyn mewn cymaint o

fanylder nac yn cymryd cymaint o ddiddordeb.' A thrwy weld y teulu cyfan gyda'i gilydd, gall yr athrawon feithrin gwell dealltwriaeth o'r plant:

> 'Mae hyn wir wedi agor fy llygaid i'r hyn y mae plant a theuluoedd yn mynd drwyddo – hyd yn oed y gost o gyrraedd yma [y carchar], heb sôn am y gost emosiynol.'

3.16 Yn yr un modd â’r athrawon, mae'r digwyddiad arddangos yn helpu staff y carchar i weld y rhiant yn y carchar fel rhiant sydd â rôl i'w chwarae ym mywyd ei blentyn. Dywedodd un aelod o staff, 'Mae'r tadau yn llawn bwrlwm – y balchder y gallwch ei weld ar eu hwynebau ... roedden nhw wrth eu bodd yn ennill y dyfarniadau ar y diwedd ... aeth eu tystysgrifau yn syth i fyny ar y waliau yn eu celloedd pan gyrhaeddon nhw'n ôl.'

3.17 Unwaith eto, mae mwy o ymwybyddiaeth yn fudd allweddol i staff carchardai, gan eu helpu i ddeall y materion sy'n wynebu plant a theuluoedd pan fydd aelod o'r teulu yn y carchar. Dywedodd un aelod o staff, 'Mae athrawon wedi dweud wrthym eu bod yn cosbi plentyn am ei ymddygiad, ac yna'n teimlo'n euog ar ôl sylweddoli pam y mae’r plentyn hwnnw'n ymddwyn felly.'

**Ystyriaethau ar gyfer model i Gymru gyfan**

3.18 Er bod y digwyddiad arddangos yn cynnig buddion eang i’r holl randdeiliaid dan sylw, mae angen ystyried rhai ffactorau wrth ddatblygu model cymorth i blant ledled Cymru:

3.19 Hawliau plant**:** nododd rhai tadau yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc rwystrau o ran cymryd rhan yn y digwyddiad arddangos, a bod rhai o aelodau staff y carchar yn ystyried hyn yn wobr i dadau yn hytrach nag yn hawl i blant. Yn unol ag Erthygl 9 o'r CCUHP, dylid caniatáu i blant gael cyswllt â'u rhieni oni bai fod hynny’n groes i’w budd gorau. Nid yw cyfyngu ar gyswllt er mwyn i’r carchar arfer disgyblaeth a rheolaeth, yn hytrach nag yn seiliedig ar fudd gorau’r plentyn, yn cynnal yr hawl hon. Dylai plant hefyd gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12), ond roedd un plentyn yn y digwyddiad arddangos wedi cael siom am fod ei phennaeth wedi dod yn hytrach na'i hathro dosbarth. Byddai canolbwyntio ar hawliau plant o fewn model ar gyfer Cymru gyfan yn sicrhau y gwrandewir ar farn plant a bod eu llesiant yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

3.20 Polisïau ac adnoddau effeithiol**:** roedd y tu hwnt i gylch gwaith y prosiect hwn i gynnal dadansoddiad manwl o gostau'r digwyddiad arddangos; fodd bynnag, mae cost yn ystyriaeth fawr i Lywodraeth Cymru o ran creu model ar gyfer Cymru gyfan. Mae angen i unrhyw ddadansoddiad o gostau a wneir fod yn gynhwysfawr ac ystyried yr ystod lawn o gostau sy'n gysylltiedig â'r holl asiantaethau, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u cyfyngu gan ddiffyg amser ac adnoddau, sef y carchar (staff i wneud y gwaith paratoi, staff i ddarparu lluniaeth yn y digwyddiad, diogelwch ychwanegol, e.e. cŵn synhwyro cyffuriau); yr ysgolion (athrawon cyflenwi, cludiant), a’r teuluoedd (cludiant, colli cyflog, bwyd ar gyfer teithio).

3.21 Mynediad canolog at wybodaeth ac adnoddau: un o'r rhwystrau rhag cymryd rhan mewn digwyddiadau megis y digwyddiad arddangos yw nad yw pob rhanddeiliad yn gwybod amdano. Mae hyn yn cynnwys y rhieni yn y carchar, y teuluoedd a’r athrawon. Rhaid i fodel ar gyfer Cymru gyfan ystyried sut y gellir cyrraedd pawb a sut y gellir cyflawni cynaliadwyedd hirdymor y model.

3.22 Gwaith amlasiantaeth**:** er mai un o brif gryfderau’r Parth Ysgolion yw'r cydweithio rhwng asiantaethau, mae'r cydweithio hwnnw'n dibynnu ar y carchar ac nid yw'n cyrraedd y plant nad ydynt yn ymweld, nad ydynt yn yr ysgol, neu y mae arnynt angen cymorth ychwanegol y tu hwnt i ymweliadau. Rhaid i fodel ar gyfer Cymru gyfan ystyried y modd y gall asiantaethau gydweithio'n effeithiol er budd y teulu cyfan, yn enwedig y plentyn, a rhaid iddo gynnwys cymorth cymunedol.

3.23 Hyfforddiant**:** mae hyn yn hanfodol i staff y carchar ac i athrawon, yn anad dim i leddfu'r pryderon a fynegwyd i dîm ASPIRE gan athrawon ynghylch ymweld â charchar am y tro cyntaf. Nid oedd pob aelod o staff y carchar a oedd yn bresennol yn y digwyddiad arddangos wedi cael hyfforddiant ar effaith carchariad rhiant ar blant, ac nid oedd staff yr ysgolion bob amser yn teimlo'n barod am yr hyn i'w ddisgwyl wrth ymweld â'r carchar a chwrdd â'r teuluoedd. Rhaid i fodel ar gyfer Cymru gyfan ystyried anghenion hyfforddi’r holl randdeiliaid a'r ffordd y caiff yr hyfforddiant ei ddarparu a'i ledaenu (gan adeiladu ar hyfforddiant sydd eisoes yn cael ei ddarparu yng Nghymru, gweler Tabl 1).

3.24 Cynnwys pob plentyn**:** nifer cymharol fach o blant sy’n cymryd rhan yn y Parth Ysgolion a'r digwyddiad arddangos (a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn unig gyda dim ond ychydig o’r tadau yn y carchar). Sut y gellir cyrraedd pob plentyn yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymweld â'r carchar (naill ai trwy ddewis neu oherwydd nad ydynt yn gallu gwneud hynny), y

rhai nad ydynt yn mynd i'r ysgol, a'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol? Rhaid i unrhyw fodel ar gyfer Cymru gyfan sicrhau bod cymorth ar gael i bob plentyn, er enghraifft, trwy ystyried sut y gellir defnyddio cyfarfodydd ar-lein rhwng y rhiant, yr athro, a’r plentyn.

3.25 Monitro a gwerthuso: rhaid i fodel ar gyfer Cymru gyfan gael ei fonitro a’i werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni deilliannau da i bob plentyn.

3.26 Wrth fyfyrio ar yr ymweliad, nododd tîm ASPIRE ystyriaethau ychwanegol y tu hwnt i ganfyddiadau'r astudiaeth achos a fyddai hefyd yn berthnasol ar gyfer model ledled Cymru, sef sicrhau ffordd sensitif o adnabod plant a oedd â rhiant yn y carchar, fel y gallent gael cymorth a chymryd rhan mewn cyfleoedd megis y Parth Ysgolion pe baent yn dymuno, a sicrhau bod diogelu yn elfen hanfodol ac yn sylfaen i unrhyw fodel a ddatblygir.

**Crynodeb**

3.27 Darparodd model Parth Ysgolion Waliau Anweledig a ddatblygwyd yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yr ysgogiad i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ASPIRE ac ystyried model cymorth ar gyfer Cymru gyfan. Amlygodd yr ymweliad safle fanteision niferus dull o'r fath i bawb dan sylw, a chreodd fframwaith ar gyfer archwilio model ar gyfer Cymru gyfan. Roedd hefyd wedi tynnu sylw at fylchau posibl i'w hystyried, sef dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach nag ar adsefydlu; sy'n cyrraedd pob plentyn yng Nghymru, ni waeth lle y mae ei riant yn y carchar neu a yw'n ymweld â'r carchar ai peidio; ac sy’n ennyn yr isadeiledd gofynnol o ran hyfforddiant, cydweithredu a chyllid i sicrhau bod y gwaith yn hygyrch ac yn cael ei gynnal.

## 4. Canfyddiadau: Naw blaenoriaeth allweddol

4.1 Nododd dadansoddiad o ganfyddiadau camau un i bedwar prosiect ASPIRE naw blaenoriaeth allweddol ar gyfer datblygu model ledled Cymru:

- ymdrin â chymorth gan ganolbwyntio ar hawliau plant a chryfderau
- polisi ac adnoddau effeithiol
- mynediad canolog at wybodaeth ac adnoddau
- gwaith amlasiantaeth
- hyfforddiant
- adnabod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- cynnwys pob plentyn yn y cymorth
- diogelu
- monitro a gwerthuso

Mae'r adrannau canlynol yn archwilio pob un o'r naw blaenoriaeth hyn yn eu tro. Er mwyn osgoi enwi rhanddeiliaid, cyfeirir atynt o fewn eu maes arbenigedd eang.

**Ymdrin â chymorth gan ganolbwyntio ar hawliau plant a chryfderau**

**Y cyd-destun**

4.2 Gall ysgolion a charchardai, fel ei gilydd, chwarae rhan unigryw yn y broses o gynnal hawliau plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt a chydnabod eu potensial. Mae plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt wedi cael eu disgrifio fel 'dioddefwyr anghofiedig' y system gyfiawnder, ac yn aml maent yn cael eu diffinio o fewn model diffyg. Mae ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau a chryfderau yn grymuso plant fel bodau dynol a chanddynt set benodol o hawliau yn hytrach na gwrthrychau goddefol gofal ac elusengarwch (UNICEF, dim dyddiad), a hynny er mwyn gwrthsefyll yr heriau y maent yn eu hwynebu a meithrin ymdeimlad o obaith ar gyfer y dyfodol. Mae pob plentyn yn wahanol a bydd ganddynt anghenion gwahanol, hyd yn oed o fewn grwpiau o frodyr a chwiorydd. Pa bynnag lefel o gymorth y mae ar blentyn ei angen, dylai'r cymorth fod wedi'i wreiddio mewn hawliau plant, fod yn ystyriol o drawma, a dylai ganolbwyntio ar ei farn a'i anghenion.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.3 Roedd yn glir o'r grŵp ffocws yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, yr arolwg ar-lein i blant, a'r cyfweliadau â phobl ifanc fod cael rhiant yn y carchar yn

arwain at ystod o emosiynau cymhleth ymhlith plant: cywilydd, gorbryder, rhwystredigaeth, dicter, colled, galar (er nid galar sy'n ennyn cefnogaeth a dealltwriaeth – yn hytrach, un sy'n arwain at ynysigrwydd cymdeithasol; Doka, 1989), ac weithiau rhyddhad. Er gwaethaf y cythrwfl emosiynol a brofir gan blant, roedd y cymorth yn dameidiog ar y gorau ac yn aml nid oedd yn cael ei ddarparu o gwbl. Roedd y rhan fwyaf o’r plant yn teimlo'n unig iawn, yn enwedig ar ddechrau taith eu rhiant trwy'r system gyfiawnder. Mae’r astudiaeth achos, 'Stori Megan', a gyflwynir yn y bennod nesaf (paragraff 5.2), yn tynnu sylw at achos o ymyrryd â hawliau plant a diffyg cymorth systematig.

4.4 I'r rhan fwyaf o'r plant, eu prif ffynhonnell cymorth oedd y rhiant neu’r gofalwr arall (e.e. tad-cu neu fam-gu). Dywedodd rhai plant fod yr oedolion a’r ymarferwyr eraill a oedd eisoes yn eu bywydau (e.e. athrawon, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol) yn gefnogol. Nid oedd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw wedi cael cynnig cymorth arbenigol (e.e. cwnsela neu gymorth gan sefydliad arbenigol sy'n cefnogi teuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt), er bod hyn yn rhywbeth, o edrych yn ôl, a fyddai wedi bod o fudd yn eu barn nhw.

4.5 Dywedodd y plant a oedd yn bresennol yn nigwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc eu bod am gael eu clywed a'u deall:

> ‘Gwrandewch arnon ni’.
>
> ‘Siaradwch â ni a darganfod beth sydd ei eisiau arnom ni.’
>
> ‘Dylai'r Llywodraeth wrando.’
>
> ‘Dim ond plentyn ydw i, ac mae angen i chi ein helpu ni oherwydd ein bod ni'n teimlo'n unig, yn enwedig yn yr ysgol.’

4.6 Roedd y plant yn teimlo bod cymorth gan gymheiriaid yn fuddiol; gall gwybod nad ydynt ar eu pen eu hunain feithrin cadernid:

> ‘Pe bawn i'n adnabod pobl ifanc eraill mewn sefyllfa debyg, byddai wedi fy helpu i deimlo'n well amdanaf fy hun a byddwn wedi gwybod nad oeddwn i'n unigryw yn fy sefyllfa i." (Person ifanc, cyfweliad cyfnod pedwar)

4.7 Trwy gydol y prosiect, roedd y rhanddeiliaid yn glir y dylai hawliau plant a'u lleisiau fod wrth wraidd unrhyw fodel cymorth, a chael eu hymgorffori ynddo, ac y dylid eu defnyddio i lywio polisïau ac arferion:

'Dylai'r plentyn fod yn ganolog i hyn, neb arall.' (Rheolwr gwaith cymdeithasol, cyfweliad cam pedwar)

'Mae angen grymuso plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau. Ac mae angen cyfle cyfartal; dylai pob plentyn [gael] yr un mynediad at yr un egwyddorion.' (Arweinydd polisi plant, cyfweliad cam pedwar)

4.8 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y dylai hawliau plant gael eu hymgorffori mewn hyfforddiant i ymarferwyr a llunwyr polisïau ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Dylai'r hyfforddiant fynd i'r afael â rhagfarn ddiarwybod (e.e. bod plant yn well eu byd heb gysylltiad â'r rhiant yn y carchar) a naratifau nad ydynt yn llesol, er enghraifft, ystyried plant yn ffordd o leihau aildroseddu, neu, fod plant a chanddynt riant yn y carchar yn fwy tebygol o fynd i mewn i'r system gyfiawnder yn y pen draw:

'Mae pobl yn meddwl eich bod chi a'ch rhiant yn adar o'r un lliw. Roeddwn i'n arfer teimlo fel y carcharor. Dim ond eisiau help oedd arnaf i.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.9 Roedd yn glir o'r digwyddiad i randdeiliaid a chyfweliadau cam pedwar na ddylai hawliau plant fod yn ymarfer 'ticio'r blwch': dylai plant gael eu cynnwys mewn modd ystyrlon mewn penderfyniadau yn eu cylch. Mae hyn hefyd yn rhywbeth yr oedd y bobl ifanc yn ei amlygu:

'Mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud amdanaf i, ond does neb wedi gofyn beth y mae ei angen arna i." (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.10 Roedd ymarferwyr o sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn sôn am adnoddau megis y fframwaith Asesu'r Effaith ar Blant, a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2022), fel ffordd ymarferol o sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed, eu safbwyntiau'n cael eu hystyried, ac yr eir i'r afael â'u hanghenion o'r cychwyn cyntaf. Roedd adnoddau fel hyn, sy'n rhoi cyfleoedd i blant fynegi eu teimladau a newid eu meddyliau am y cymorth y maent yn ei gael, yn cael eu hystyried yn bwysig gan blant a rhieni fel ei gilydd. Roedd y plant eu hunain yn glir y dylid nid yn unig glywed eu barn ond y dylid gweithredu ar hynny. Ar ben hynny, roedd y rhieni yn y carchar a'r rhai a oedd yn gofalu am y plant gartref yn glir bod plentyn yn blentyn yn gyntaf ac uwchlaw pob dim, ac na ddylid ei ddiffinio o gael rhiant yn y carchar; dylid ystyried ffactorau eraill ym mywyd y plentyn hefyd wrth ymdrin â chymorth.

4.11 Dywedodd y bobl ifanc fod perthnasoedd dibynadwy a chadarnhaol yn bwysig er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel, rhannu eu teimladau, a magu hyder:

> 'Dylen nhw [y bobl sy'n cynnig cymorth] fod yn ofalgar iawn a deall o le rydych chi'n dod ac ni ddylen nhw fod yn feirniadol. Mae angen iddyn nhw fod yn garedig a pharchu'r hyn rydych chi'n ei ddweud.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.12 Roedd yn glir o'r plant a'r bobl ifanc, yr ymarferwyr a'r arweinwyr polisïau fod gan ysgolion rôl allweddol wrth sicrhau bod plant yn cael cymorth pan fydd eu rhiant yn mynd i'r carchar a bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae'r realiti yn aml yn bell o hyn:

> 'Yn yr ysgol ychydig iawn a oedd yn cael ei hysbysebu o ran cymorth llesiant – roedd yn rhaid i chi chwilio amdano, ac roedd cael mynediad ato'n teimlo'n fwy heriol. Mae'n anodd gofyn am gymorth, ac felly mae'n bwysig bod cymorth yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i bobl ifanc fel eu bod yn gwybod ei fod ar gael pan fyddan nhw'n penderfynu bod arnyn nhw ei angen.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.13 Trwy gydol y prosiect, amlygodd y rhanddeiliaid ffyrdd ymarferol y gall cymunedau ysgolion ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnwys:

- awdurdodi absenoldebau pan fydd plentyn yn ymweld â'r carchar yn ystod y diwrnod ysgol
- anfon adroddiadau a gwaith ysgol at y rhiant yn y carchar
- cwrdd â'r rhiant yn y carchar (dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb)
- cynnig cymorth i blant wrth baratoi ar gyfer ymweliad ac ar ei ôl.

4.14 Nododd y digwyddiad i randdeiliaid a chyfweliadau cam pedwar fod hyfforddiant ar effaith carchariad rhiant ar blant yn hanfodol i athrawon os yw ysgolion am gynnal hawliau plant mewn unrhyw benderfyniad yn eu cylch. Roedd yr athrawon a oedd yn bresennol yn nigwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn teimlo bod deall ymddygiadau heriol a allai fod yn gysylltiedig â thrawma (e.e. gweld eu rhiant yn cael ei arestio neu ymweld â'r carchar) neu orbryder (e.e. ynghylch rhiant yn cael ei ryddhau neu sylw digroeso gan y cyfryngau) yn arwain at gymorth gwell i blant.

4.15 Nododd yr ymatebwyr y gallai fod yn haws i ysgolion cynradd gynnig cymorth, gan fod ganddynt berthynas gryfach â theuluoedd yn aml. Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod bod cyfathrebu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn bwysig iawn.

4.16 Gyda gwybodaeth, dealltwriaeth ac agwedd dosturiol, gall staff ysgolion ysgogi atgyfeiriadau at gymorth arbenigol i blant (megis cwnsela) a chymorth ehangach i deuluoedd (er enghraifft, cymorth ariannol ac emosiynol i ofalwyr a Chynadleddau ar gyfer Grwpiau Teuluol). Efallai na fydd gan athrawon y gallu i ddarparu cymorth manylach eu hunain, felly tybiwyd y byddai o fudd pe bai yna gymorth allanol y gellid ei gyrchu yn ôl yr angen. Yn ogystal â chymorth i'r plentyn, roedd yr ymarferwyr a'r bobl ifanc o'r farn bod cymorth i'r rhieni a'r gofalwyr yn bwysig iawn:

> 'Mae'n neis gweld mam-gu yn siarad â rhywun, yn chwerthin ac yn gwenu ... mae'n anodd, nid yn unig i blant, ond i'r oedolion hefyd.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.17 Nododd y rhanddeiliaid ystyriaethau pwysig ynghylch cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar hawliau plant a chryfderau:

- dylai'r cymorth yn yr ysgol fod yn sensitif (nid yw plant am fod yn ganolbwynt sylw, er enghraifft, trwy gael eu tynnu allan o'r dosbarth i siarad â rhywun neu drwy gael eu holi am eu rhiant o flaen eraill)
- yn hytrach na phroblem y mae angen ei datrys, dylid ystyried pobl ifanc yn bobl sydd â dyheadau a'r potensial i lwyddo
- mae angen cynnig cymorth cyn gynted â phosibl
- rhaid i'r llwybrau atgyfeirio ar gyfer cymorth fod yn glir i blant a theuluoedd; mae hunanatgyfeirio yn fuddiol lle bo hynny'n bosibl
- yn aml mae angen amser ar blant a'u gofalwyr i feddwl am y cymorth sy'n cael ei gynnig

Yn ogystal, trwy gydol y prosiect, nodwyd ystyriaethau o ran y modd y gall carchardai ystyried hawliau plant. Dywedodd y plant ei bod yn bwysig iddynt wybod bod eu rhiant yn y carchar yn ddiogel:

> 'Roeddwn am wybod lle roedd fy nhad a sut roedd yn cael ei drin.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

Roedd rhai o'r plant yn nigwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o derminoleg a phrosesau cyfiawnder troseddol:

> 'Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd 'gwisgo tag' yn ei olygu.

4.18 Nododd y rhanddeiliaid sawl ffordd y gall carchardai sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd sy'n canolbwyntio ar y plentyn:

- sicrhau bod unrhyw fodel cymorth yn y carchar yn hawl i blant yn hytrach nag yn gymhelliant i rieni yn y carchar
- cynnig galwadau fideo am ddim ychydig ar ôl i riant gyrraedd y ddalfa
- llunio llyfryn i blant sy'n dangos lluniau o ardaloedd y carchar ac yn disgrifio trefn ddyddiol eu rhieni
- sicrhau bod y broses ymweld yn addas i blant
- cynnig ymweliadau arbennig (e.e. lle ceir gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran, ac y gall plant a'u rhieni ryngweithio'n fwy rhydd); gall hyn gynnwys mentrau creadigol megis barbeciws yn yr awyr agored neu ddefnyddio cerddoriaeth ysgafn yn y neuadd ymweliadau.

4.19 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod cysondeb yn bwysig: dylai pob carchar ac ysgol ledled Cymru fod yn rhan o'r un model. Dylai unrhyw fodel cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar fod yn integredig, yn gyfannol, ac yn hyblyg.

**Datblygu polisïau ac adnoddau sy'n cefnogi model ar gyfer Cymru gyfan**

**Y cyd-destun**

4.20 Bydd unrhyw fodel ar gyfer Cymru gyfan i gefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar yn gweithredu yng nghyd-destun systemau datganoledig ar gyfer addysg ac iechyd, ond system gyfiawnder sy'n dod o dan nawdd San Steffan a’r HMPPS. Yn achos mater sy'n croesi'r holl gylchoedd gwaith hyn, bydd natur a chyfrifoldeb y cymorth i blant yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar yn dibynnu ar y modd y mae'r cymorth hwn yn cael ei fframio.

4.21 Er bod nifer o bolisïau Addysg Cymru a Chyfiawnder Troseddol y DU yn sôn am blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ychydig sy'n ystyried eu hanghenion na’r modd y dylid cefnogi'r anghenion hyn. Fel yr amlygwyd yn yr adran gefndir, gall polisïau a chanllawiau chwarae rhan hanfodol o ran y canlynol:

- sicrhau y diogelir hawliau plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- cefnogi’r broses o adnabod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- sicrhau bod gwasanaethau'n ymwybodol o effaith bosibl carchariad rhiant ar blant
- herio stigma a sbarduno newid diwylliannol
- hyrwyddo llesiant plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt

- darparu fframwaith ar gyfer monitro deiliannau plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- llywio bwriadau comisiynu

4.22 Mae’r modd y comisiynir ac y telir am wasanaethau yn effeithio ar natur, argaeledd, cynaliadwyedd, cysondeb ac ansawdd y cymorth sydd ar gael i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Gan fod llawer o’r cymorth i deuluoedd pan fydd rhywun yn mynd i'r carchar yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r trydydd sector, mae yna risg o anghysondeb o ran y gwasanaethau gan fod y cyllid yn fyrdymor, ac yn aml wedi'i gyfyngu i rai ardaloedd daearyddol, grwpiau oedran, neu amgylchiadau eraill a ddiffinnir gan y cyllidwyr. Mae hefyd yn peri i sefydliadau orfod cystadlu yn erbyn ei gilydd yn hytrach na chydweithio, sy'n wrthgynhyrchiol ar gyfer model cymorth cynaliadwy ledled Cymru.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.23 Nododd yr arolwg sylfaenol, y digwyddiad i randdeiliaid, a chyfweliadau ag arweinwyr polisïau, fod polisïau a chanllawiau yn dylanwadu ar gymorth i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt trwy:

- **amddiffyn eu hawliau** trwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (2011) a Fframwaith y Ffordd Gywir (Comisiynydd Plant Cymru, 2022)
- **nodi bod arnynt angen cymorth ychwanegol o bosibl** trwy Teuluoedd yn Gyntaf – Canllawiau Rhaglen (2017a), canllawiau Estyn ynghylch 'Cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' (2020), a strategaeth Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol yr HMPPS (2019)
- **sicrhau bod eu hanghenion o ran llesiant yn cael eu diwallu** trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (2021)
- **cefnogi’r broses o rannu gwybodaeth ac adnabod** trwy Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2018), yn ogystal â chanllawiau Estyn ynghylch cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (2020)

4.24 Yn ogystal, er nad yw Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru (2024) yn nodi'n benodol effaith carchariad rhiant ar blant, mae'n blaenoriaethu cefnogi **pob** plentyn a pherson ifanc i gael cyfle teg mewn bywyd, yn enwedig y rhai y mae

arnynt angen cymorth ychwanegol i oresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial (a fyddai'n berthnasol i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt), a sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth angenrheidiol i aros gyda'i gilydd neu i ddod ynghyd eto, os yn bosibl, gydag aelodau'r teulu (sy'n hanfodol i lawer o blant a chanddynt riant yn y carchar).

4.25 Fel y nodwyd yn yr adolygiad polisi, mae cwricwlwm ysgolion Cymru yn seiliedig ar bedwar diben allweddol, sef 'y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru). Dylai cwricwlwm pob ysgol yng Nghymru anelu at gefnogi ei dysgwyr i ddod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau gwerth chweil fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

4.26 Felly, yn unol â dibenion y cwricwlwm, dylid cefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar i fod yn uchelgeisiol, yn fentrus, yn wybodus ac yn iach, a dylid lliniaru effaith carchariad rhiant i sicrhau y gellir gwireddu'r potensial hwn.

4.27 Mae'r rhan fwyaf o'r cymorth targededig ar gyfer teuluoedd yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt wedi'i ariannu o fewn y system cyfiawnder troseddol trwy'r HMPPS (neu G4S, yn achos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc) ar ffurf contractau neu fentrau cymorth i deuluoedd (megis Visiting Mum, a ariannwyd yn flaenorol gan y Loteri Fawr). O ganlyniad, mae cymorth i blant yng Nghymru wedi canolbwyntio'n bennaf ar blant sy'n ymweld â charchardai, ac mae'n tueddu i gael ei fframio fel ffordd o leihau'r risg o droseddu yn y dyfodol.

4.28 Mae Teuluoedd yn Gyntaf: canllawiau i awdurdodau lleol (2017a: 23) yn datgan:

> 'Disgwyliwn i chi weithio mewn ffordd ragweithiol i nodi teuluoedd y gallent fod yn cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar fel rhan o'r broses asesu Yn aml iawn, efallai na fydd teuluoedd yn rhoi'r wybodaeth hon o'u gwirfodd o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn peri embaras iddynt neu o ganlyniad i'w pryderon ynghylch dioddef stigma, ond efallai y byddant yn fwy tebygol o ymateb os gofynnir y cwestiwn iddynt yn uniongyrchol.  Bydd angen i chi sicrhau bod

teuluoedd y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn cael cymorth a gwybodaeth berthnasol, er enghraifft, trwy gyfrwng cysylltiadau â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y teuluoedd hyn.  Yn ogystal, efallai y byddwch yn dymuno ystyried a oes angen comisiynu gwasanaethau penodol trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf'

4.29 Mae Ymgysylltu a Chymorth wrth Rianta: Canllawiau i Ddarparwyr Llywodraeth Cymru (2017b) hefyd yn cyfeirio at deuluoedd sydd â rhiant yn y carchar. Mae'r ddogfen hon, hefyd, yn sôn am y stigma a'r awydd cysylltiedig i deuluoedd guddio'r wybodaeth hon, gan nodi felly 'y gallai helpu teuluoedd i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â gofyn am gymorth a gwybodaeth am eu sefyllfa pe byddai ymwelydd iechyd yn ymgysylltu â'r teuluoedd ar y dechrau, yn datblygu perthynas â nhw, ac yn mabwysiadu agwedd nad yw'n feirniadol' (2017b: 64), a rhoddir cymorth i rieni ar gyfer problemau emosiynol ac ymddygiadol plant fel enghraifft. Mae'r canllawiau'n nodi gwerth hyfforddiant i ymarferwyr ac yn rhoi enghreifftiau o hyn. Roedd Canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf a'r Canllawiau Rhianta yn cael eu hadolygu ar adeg ysgrifennu.

4.30 Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn targedu cymorth i deuluoedd y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn eu cynlluniau cyflenwi lleol, er bod rhai ohonynt yn gwneud hynny trwy weithgareddau sy'n mynd i'r afael mewn modd ehangach â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, neu'n cynnwys hyn o fewn elfen Tîm o Amgylch y Teulu Teuluoedd yn Gyntaf. Nid yw prosiect ASPIRE wedi nodi unrhyw gymorth targededig gan wasanaethau'r trydydd sector a ariennir trwy Teuluoedd yn Gyntaf yn benodol ar gyfer plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae prosiectau lleol, prosiectau a ariennir gan grantiau, neu brosiectau a ariennir yn wirfoddol wedi bodoli, megis Pecyn Cymorth Ysgolion Cymru a ddatblygwyd gan Pact, model Parth Ysgolion Waliau Anweledig Cymru, rhaglenni hyfforddi a ddarperir gan ddarparwyr y trydydd sector, a gwaith strategol gan Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI). Fodd bynnag, nid yw'r un o'r modelau hyn yn darparu cymorth cenedlaethol, ac mae'r trefniadau cyllido ar gyfer darparwyr y trydydd sector wedi bod yn anodd eu cynnal (daeth y cyllid ar gyfer FABI, er enghraifft, i ben ym mis Awst 2024). Awgrymodd y rhanddeiliaid y gallai'r diffyg darpariaeth yn y gymuned fod oherwydd blaenoriaethau gwrthgyferbyniol mewn awdurdodau lleol, diffyg ymwybyddiaeth o

effaith carcharu rhiant, ac 'ofni barn y cyhoedd' sy'n gysylltiedig â chefnogi teuluoedd sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol:

> ‘Rydym yn dibynnu ar y trydydd sector ... ar ba adeg y mae'r wladwriaeth yn camu i mewn i'w ariannu, a ninnau’n gwybod bod yr arfer hwnnw'n effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau?' (Arweinydd polisi cyfiawnder troseddol, cyfweliad cyfnod pedwar)

4.31 Amlygodd y rhanddeiliaid yn yr arolwg sylfaenol yr angen i sicrhau bod unrhyw fodel cymorth i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn cael ei integreiddio i'r dirwedd bolisi bresennol:

> ‘Mae angen [i’r model hwn] ... ryngweithio ac alinio â'r gwaith Glasbrintiau[8] yng Nghymru,
> Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, a'r angen i gynnwys pobl ifanc eu hunain i ofyn iddynt beth y mae arnynt ei angen.' (Cyfranogwr yn yr arolwg sylfaenol)

4.32 nodwyd heriau sy'n gysylltiedig â'r dirwedd bolisi a chomisiynu yng Nghymru. Yn gyntaf, mae unrhyw fodel amlasiantaeth sy'n pontio'r system cyfiawnder troseddol a gwasanaethau yn y gymuned yn wynebu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gweithio ar draws gwasanaethau a deddfwriaethau datganoledig a heb eu datganoli.

4.33 Yn ail, mae cyllid a gwasanaethau a ddarperir yn lleol wedi creu 'loteri cod post' i deuluoedd a phlant yng Nghymru. Soniodd un teulu a oedd ag aelodau o'r teulu mewn dau awdurdod lleol gwahanol am anghyfartaledd o ran y gwasanaethau a ddarperir: er i un unigolyn gael cymorth rhagweithiol yn ei ardal leol, dywedodd ei frawd mewn ardal arall:

> ‘Ni chynigiwyd unrhyw beth i mi, ni wnaeth neb gysylltu â mi, ni ofynnodd neb a oedd arnaf angen unrhyw gymorth.’ (Person ifanc, cyfweliad cyfnod pedwar)

4.34 Yn drydydd, mae’r modelau comisiynu presennol yn y system cyfiawnder troseddol wedi peri i asiantaethau orfod cystadlu yn erbyn ei gilydd, gan effeithio'n negyddol ar y gallu i gydweithio, rhannu arferion, ac i fynd ati mewn modd cydgysylltiedig i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu polisïau. Mae'r Alban wedi ceisio mynd i'r afael

---

Yn yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid ledled Cymru ynghylch [8]y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, 2019) a’r Glasbrint Cyfiawnder i Ieuenctid (y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru)

â'r her hon trwy ddefnyddio [model partneriaeth cenedlaethol y trydydd sector] i gomisiynu cymorth trwy'r broses i bobl sy'n gadael carchar, gan annog darparwyr y trydydd sector i gydweithio i ddarparu model cyflawni cenedlaethol.

4.35 Yn bedwerydd, mae amryw byd o bolisïau, canllawiau a fframweithiau yn dylanwadu ar y cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, gan arwain at ailadrodd, cymhlethdod, a diffyg eglurder i gomisiynwyr ac ymarferwyr:

> 'Mae yna ormod o fframweithiau a dulliau gweithredu sydd i gyd yn dweud yr un peth; mae arnom angen polisïau symlach sy'n cynnig eglurder a chysondeb.' (Arweinydd polisi plant, cyfweliad cyfnod pedwar)

4.36 Yn bumed, mae ffocws bwriadau polisi a chomisiynu yn y sector cyfiawnder troseddol (y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, 2019), yn cyfeirio at 'deuluoedd' a pherthnasoedd teuluol fel arf ar gyfer lleihau aildroseddu (polisi Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol yr HMPPS) neu fel trosoledd/gwobr am ymddygiad da (Cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillwyd yr HMPPS), yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc:

> 'Sut y mae'n mynd i fod o fudd [i blant sydd â rhiant yn y carchar]? Nid yw plant yn un o arfau adsefydlu y wladwriaeth.' (Arweinydd cyfiawnder troseddol, cyfweliad cyfnod pedwar)

Mae rhai polisïau, canllawiau a bwriadau comisiynu (ac felly ymyraethau) yn caniatáu parhad o ran camliwio a chamddefnyddio ystadegau ynghylch risg plentyn o droseddu yn y dyfodol pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar, ac ynghylch trosglwyddo troseddu ‘rhwng y cenedlaethau', ac yn defnyddio’r elfennau hyn fel rhesymau allweddol dros ymyrryd – gan stigmateiddio plant a phobl ifanc ymhellach a thanseilio arferion sy'n seiliedig ar gryfderau.

4.37 At hynny, mae polisïau ac arferion comisiynu ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar effaith carcharu rhiant ar blant yn unig, gan ddiystyru'r cymorth sy'n ofynnol yn aml gan blant yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl i'w rhiant gael ei arestio neu yn ystod y cyfnod ailsefydlu ar ôl ei ryddhau.

4.38 Nesaf, er bod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ystyried y CCUHP wrth ddatblygu deddfwriaethau a pholisïau (hynny yw, rhoi pwysau priodol i ofynion y CCUHP, gan eu cydbwyso yn erbyn yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw), gall y diffyg

rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnal y CCUHP herio penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau cyllido.

4.39 Yn olaf, mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn aml wedi bod yn fyrdymor. Nid yw'r gwasanaethau bob amser yn cael eu cynnal, ac wrth i wasanaethau newydd gael eu comisiynu, mae perygl o ailddyfeisio'r olwyn yn hytrach nag adeiladu ar arfer blaenorol. Er enghraifft, nododd un rhanddeiliad fod y Cytundeb Ysgolion a ddatblygwyd gan Barnardo's yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, ac a gafodd derbyniad da, wedi mynd i'r gwellt ar ôl i'r cyllid ddod i ben:

> 'Mae yna naratif parhaus nad oes yna ddigon o arian. Mae hyn yn dod yn rhwystr rhag gwneud newidiadau 'nawr lle gallwn ni." (Arweinydd polisi plant, cyfweliad cam pedwar)

4.40 Wrth ystyried pa adran o'r Llywodraeth ddylai fod yn gyfrifol am ariannu model cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, awgrymodd y rhanddeiliaid y byddai symud i ffwrdd o gyllid gan yr HMPPS yn unig yn sicrhau'r canlynol:

- mynediad at gymorth i bob plentyn (nid dim ond y rhai sy'n ymweld â'r carchar)
- mynediad at gymorth i blant trwy gydol taith eu rhiant trwy'r system cyfiawnder troseddol (h.y. cymorth sy'n cael ei lywio gan bryd y mae ar y plentyn angen cymorth, yn hytrach na phryd y mae ei riant yn y ddalfa)
- ffocws ar y plentyn, yn hytrach na'r rhiant yn y carchar

4.41 Awgrymodd y rhanddeiliaid y gellid cyflawni hyn trwy gyllid yr Adran Addysg neu fodel wedi'i gydgomisiynu a allai dorri ar draws adrannau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli, gan gefnogi gwaith amlasiantaeth ac, o bosibl, gynyddu'r gyllideb sydd ar gael:

> 'Mae angen iddo fod yn fenter ar y cyd gan y Llywodraeth.' (Arweinydd cyfiawnder troseddol, cyfweliadau cam pedwar)
>
> 'Ni ddylai cymorth i blant sydd â rhiant yn y carchar eistedd o fewn cyfiawnder troseddol, ac ni ddylai ddechrau a gorffen gyda'r ysgolion. Mae arnom angen dull system gyfan cenedlaethol." (Arweinydd polisi plant, cyfweliad cam pedwar)

Mae'n bosibl mai cyd-gomisiwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (yn gysylltiedig â'r agenda ACEs) ac Addysg Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i ariannu model ledled Cymru, sy'n sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan hyrwyddo llesiant pob plentyn yng Nghymru sy'n profi carchariad rhiant.

4.42 Er mwyn lliniaru rhai o'r heriau allweddol yn yr amgylchedd polisi a chomisiynu, awgrymodd y rhanddeiliaid y dylai'r polisïau a'r modelau comisiynu gyd-fynd â'r dull sy'n canolbwyntio ar hawliau plant a chryfderau a amlinellwyd yn flaenorol; ymateb i anghenion plant trwy gydol taith eu rhiant trwy'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys cyn ac ar ôl ei garcharu; a chael eu comisiynu am bum mlynedd a dwy, yn unol â gwasanaethau teuluoedd ac eraill arwyddocaol yr HMPPS. Byddai hyn yn galluogi'r gwaith i ymwreiddio, ysgogi newid diwylliannol/sefydliadol, a chreu cyfleoedd ar gyfer cynaliadwyedd (megis datblygu capasiti ac ymwybyddiaeth o fewn gwasanaethau cyffredinol).

4.43 Yn ogystal, pwysleisiodd y rhanddeiliaid yr angen i brosesau comisiynu gydnabod goblygiadau ehangach unrhyw fodelau cymorth o ran adnoddau i deuluoedd a gwasanaethau sy'n bod yn barod, yn enwedig o ystyried y pwysau presennol ar adnoddau ym meysydd addysg, iechyd a chyfiawnder troseddol. Er enghraifft, awgrymwyd bod angen i unrhyw fodel megis y Parth Ysgolion ystyried y canlynol:

- yr effaith ariannol ar deuluoedd yn sgil teithio i'r carchar ac oddi yno ar gyfer ymweliadau ychwanegol
- costau athrawon cyflenwi i alluogi staff ysgolion i fynd i ddigwyddiadau yn y carchar
- y goblygiadau o ran adnoddau i garchardai wrth ddarparu staff ar gyfer ymweliadau/digwyddiadau ychwanegol

**Mynediad canolog at wybodaeth ac adnoddau**

**Y cyd-destun**

4.44 Mae anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn aml yn cael eu diystyru mewn polisïau ac arferion mewn ysgolion a charchardai. Er bod enghreifftiau o strategaethau a mentrau lleol yn bodoli, prin yw'r enghreifftiau o ddulliau cydweithredol cenedlaethol o gefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar. Er bod y Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant Troseddwyr [NICCO] (gweler Atodiad A) yn darparu hwb gwybodaeth ar-lein i ymarferwyr ledled Cymru a Lloegr,

ychydig o wybodaeth sydd ar gael ynghylch polisïau ac arferion Cymru, ac nid oes yna ffynhonnell wybodaeth ganolog wedi'i hanelu at blant a theuluoedd.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.45 Amlygodd y rhieni, y gofalwyr, y plant a'r bobl ifanc ddiffyg gwybodaeth i gefnogi eu taith trwy'r system cyfiawnder troseddol. Ategwyd hyn gan y gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg sylfaenol, yn nigwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, yn y digwyddiad i randdeiliaid, ac yng nghyfweliadau cam pedwar, a soniodd am ddiffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaethau cymorth, y polisïau, y pecynnau cymorth neu'r adnoddau sydd ar gael:

> 'Dylai fod ar gael ym mhob ysgol ... doeddwn i ddim yn gwybod bod dim o hyn [y Parth Ysgolion] hyd yn oed yn bodoli.' (Athro, digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

4.46 Awgrymodd y rhanddeiliaid fod y diffyg hwn o ran adnodd canolog yng Nghymru wedi cyfrannu at y canlynol:

- diffyg mynediad i blant, pobl ifanc a theuluoedd at wybodaeth sy'n addas i blant am y system cyfiawnder troseddol, yr hyn i'w ddisgwyl, a sut i gael gafael ar gymorth
- plant sy'n teimlo'n ynysig yn eu profiadau
- teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ei chael yn anodd adnabod y person 'cywir' i siarad ag ef i gael mynediad at gymorth neu wybodaeth briodol
- diffyg ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr am y gwasanaethau, yr hyfforddiant a'r adnoddau sy'n bod yn barod i gefnogi gwaith gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- dyblygu ac 'ailddyfeisio'r olwyn' (yn enwedig o ran cyflwyno hyfforddiant)
- diffyg adnoddau i lywio dull strategol cydgysylltiedig, amlasiantaeth ledled Cymru i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- diffyg cysondeb o ran yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru
- ymarferwyr sy'n cael trafferth dod o hyd i'r amser i chwilio am yr adnoddau mwyaf diweddar a pherthnasol i lywio a chefnogi eu harferion

4.47 Cytunodd yr holl randdeiliaid, ar bob cam o'r ymchwil, ar yr angen am ddull cydlynol, canolog i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Awgrymwyd y

gellid cyflawni hyn trwy ddatblygu canolfan yng Nghymru ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt a allai gyflawni dwy swyddogaeth:

- hwb ar-lein canolog i rannu adnoddau, arferion, gwybodaeth a gwasanaethau cymorth
- rôl gydlynol ganolog i gefnogi plant a phobl ifanc ledled Cymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt ac i reoli'r hwb ar-lein

'Byddai Hwb yn enfawr i ysgolion a swyddogion lles addysg – gallai swyddogion lles addysg ei ddefnyddio gyda phobl ifanc gartref os yw'r person ifanc yn teimlo'n fwy diogel yno.' (Swyddog Lles Addysg, cyfweliad cam pedwar)

'Rhowch yr adnoddau i ni er mwyn cefnogi'r disgyblion ... megis sut y gallem ymateb i'w cwestiynau. Byddai rhestr o gwestiynau cyffredin yn ddefnyddiol iawn.' (Athro, digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

4.48 Roedd pob un o'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw yn yr arolwg cam pedwar ar-lein, ac eithrio un ohonynt, yn cytuno y byddai hwb gwybodaeth ar-lein yn ffynhonnell cymorth werthfawr i blant a chanddynt riant yn y ddalfa. Yn hytrach nag adeiladu gwefan annibynnol a fyddai'n gofyn am adnoddau sylweddol i ddatblygu brand, parth a chyhoeddusrwydd newydd, awgrymodd nifer o'r rhanddeiliaid y dylid creu ardal newydd ar wefan sy'n bod yn barod. Nodwyd Hwb Cymru a gwefan Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru fel safleoedd lletya posibl.

4.49 Awgrymodd y rhanddeiliaid y gallai'r hwb ar-lein gynnwys y ddau faes canlynol:

**Ardal ar gyfer plant a phobl ifanc**

- wedi'i llywio a'i datblygu mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc
- blogiau, flogiau ac erthyglau wedi'u datblygu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, gan ganolbwyntio ar bynciau megis yr hyn i'w ddisgwyl yn ystod eich ymweliad cyntaf, yr emosiynau sy'n gysylltiedig â chael rhiant yn mynd i'r carchar, a gwybodaeth am sut brofiad ydyw i'w rhiant yn y ddalfa
- ffotograffau a ffilmiau byrion am fywyd carchar
- cyfeiriadau at wasanaethau cymorth (wedi'u targedu a rhai cyffredinol)
- cyfle i ymuno â grwpiau cymorth cymheiriaid ar-lein
- swyddogaeth sgwrsio fyw i ymateb i bryderon/gwestiynau
- atebion i 'gwestiynau cyffredin'
- cymorth ac arweiniad ynghylch sut i reoli eich teimladau
- adnoddau a gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran

- gwybodaeth a chymorth i rieni a gofalwyr

'[Cyfathrebu ar-lein] yw ein ffordd ni o gyfathrebu ’nawr, ac mae’n eich galluogi i siarad â phobl yn ddienw os ydych chi’n dymuno.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

**Ardal ar gyfer gweithwyr proffesiynol**

- gwybodaeth am effaith carcharu rhiant ar blant a phobl ifanc
- gwybodaeth am pam y mae’n bwysig darparu cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- manylion cyswllt a disgrifiad o'r sefydliadau arbenigol sy'n darparu cymorth i deuluoedd yng Nghymru y mae carchariad yn effeithio arnynt
- manylion cyswllt a disgrifiad o’r gwasanaethau mewn carchardai ac yn y gymuned a all gefnogi teuluoedd y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt (megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, tai, gofal cymdeithasol, dalfa fwy diogel yn y carchar, ac ati)
- dolenni i bolisïau, fframweithiau a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â chymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- atebion i ‘gwestiynau cyffredin’
- offer a phecynnau adnoddau i gefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc
- manylion am gyfleoedd hyfforddi a datblygu
- protocolau clir am rolau a chyfrifoldebau pobl wahanol a’r modd y maent yn coladu ac yn rhannu pryderon
- cyfleoedd ar gyfer fforymau ymarfer ar-lein sy'n galluogi ymarferwyr i ddod at ei gilydd bob chwarter a rhannu arferion/annog ymarfer myfyriol/rhannu adnoddau/llywio datblygiad polisïau ac arferion
- y potensial i ddatblygu Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi Plant y mae Carchariad Rhiant yn Effeithio arnynt, gan gynnwys rhestr ar y dudalen we o’r asiantaethau sy'n cofrestru ar gyfer y Siarter a thystiolaeth o'u harferion effeithiol

‘Pe bawn i'n athro, dylen i fod yn meddwl beth yw'r arwyddion? Beth ddylwn i fod yn edrych amdano, pwy sy'n rhannu pa wybodaeth â mi? Felly, rwy'n ymwybodol y gallai'r plentyn hwnnw fod yn mynd trwy sefyllfa anodd oherwydd bod ei riant yn y carchar. Pa offer a thechnegau sy'n cael eu rhoi i mi i gefnogi'r plentyn hwnnw? Pa wybodaeth sydd gennyf er mwyn ei gyfeirio at asiantaethau eraill, a sut ydw

i'n gwneud hynny os oes gen i bryderon am y person ifanc hwnnw, naill ai am ei ... lesiant meddyliol neu ... ei iechyd meddwl?' (Arweinydd polisi gwaith cymdeithasol, cyfweliad cam pedwar)

4.50 Roedd y rhanddeiliaid yn glir y byddai angen i asiantaeth neu rôl unigol fod yn gyfrifol am oruchwylio a diweddaru'r hwb ar-lein. Awgrymwyd y gallai'r rôl gydlynol ganolog hon hefyd gynnwys y cyfrifoldebau canlynol:

- cydlynu gweithgorau amlasiantaeth ar themâu allweddol megis y broses adnabod
- darparu un pwynt cyswllt ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, fel ei gilydd, gan eu cyfeirio at wasanaethau, gwybodaeth a chymorth perthnasol
- ysgogi newid diwylliannol ledled Cymru trwy sicrhau bod anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn cael eu cydnabod ac yr ymatebir iddynt mewn polisïau ac arferion, gan herio stigma a gwahaniaethu
- mapio'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd a nodi 'bylchau'
- gwrando ar farn plant a phobl ifanc y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac ymateb i hynny
- hwyluso fforymau ymarfer proffesiynol ar-lein
- meithrin perthynas rhwng carchardai ac ysgolion ledled Cymru
- hwyluso fforymau cymorth cymheiriaid ar-lein ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr
- sicrhau cysondeb mewn negeseuon ledled yr holl wasanaethau, polisïau a darpariaeth hyfforddiant, gan bwysleisio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant a chryfderau
- cydlynu rhwydwaith hyrwyddwyr, gan ddarparu hyfforddiant arbenigol i 'hyrwyddwyr' a nodir mewn sefydliadau ledled Cymru[9]

4.51 Er bod rhai rhanddeiliaid yn bryderus ynghylch datblygu rhwydwaith hyrwyddwyr a gydlynir yn ganolog (gan eu bod yn pryderu y gallai staff symud ymlaen ac efallai na fyddai neb yn cymryd drosodd yn y rôl, ac y gallai rôl o'r fath annog ymarferwyr eraill i roi gorau i'w cyfrifoldebau o ran cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt), roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cydnabod y manteision posibl, gan gynnwys:

[9] Mae Hyrwyddwyr yn unigolion hyfforddedig sy'n mynd ati yn eu sefydliadau i hyrwyddo hawliau ac anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Gweler yr adolygiad o ymarfer am enghreifftiau ar waith.

- creu model cynaliadwy sy'n defnyddio ac yn datblygu’r gallu yn y gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc sydd eisoes yn bod yng Nghymru
- datblygu cymorth amlasiantaeth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- meithrin ymwybyddiaeth a gallu ledled asiantaethau yng Nghymru
- creu newid diwylliannol a meithrin ymwybyddiaeth yn eu sefydliadau eu hunain
- nodi pwyntiau cyswllt unigol mewn asiantaethau sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth arbenigol effaith carcharu rhiant

4.52 Awgrymodd y rhanddeiliaid fod angen i’r gwaith o gyflawni adnodd cydlynol, canolog, fel yr un a ddisgrifir uchod, gael ei wneud gan asiantaeth:

- sy’n gosod plant wrth wraidd ei hymarfer
- sydd wedi ymrwymo i gydweithio ac sy’n gwneud hynny’n effeithiol
- a chanddi staff sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth, y profiad a’r perthnasoedd i weithio ledled y sectorau cyfiawnder troseddol ac addysg/cymunedol
- sy’n teimlo’n angerddol ynglŷn â’r agenda ac sy’n ymroddedig iddi

**Gwaith amlasiantaeth**

**Y cyd-destun**

4.53 Mae plant a chanddynt riant yn y carchar yn dod i gyswllt â sawl asiantaeth, gan gynnwys y rhai yn y sectorau addysg a chyfiawnder troseddol. Fel y manylir yn yr adolygiadau llenyddiaeth a pholisi, mae dull integredig a chydlynol yn allweddol i sicrhau bod plant yn cael y cymorth y mae arnynt ei hangen mewn modd amserol. Hyrwyddir a darperir cymorth orau o fewn partneriaethau amlasiantaeth sy'n cydnabod cydgyfrifoldeb am lesiant plant a chanddynt riant yn y system gyfiawnder. Mae ysgolion, y gwasanaeth lles addysg, iechyd y cyhoedd, gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a’r glasoed, yr heddlu, carchardai, y gwasanaeth prawf, llysoedd, gofal cymdeithasol, byrddau diogelu plant, a darparwyr y trydydd sector mewn sefyllfa dda i eirioli dros blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Trwy weithio mewn partneriaethau presennol, gall y grwpiau hyn ddatblygu atebion arloesol a chreadigol i wella bywydau unrhyw blentyn a chanddo riant yn y system gyfiawnder. Fodd bynnag, er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, mae angen i bob asiantaeth ddeall y problemau a'r heriau sy'n gysylltiedig â charcharu rhiant, gan

gynnwys effaith stigma ar deuluoedd a’r modd y gallai hyn eu rhwystro rhag ceisio cymorth.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.54 Ar bob cam o'r prosiect, roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod bod cydweithio yn hanfodol i sicrhau cymorth effeithiol i blant a chanddynt riant yn y carchar. Roedd y cyfranogwyr yn y digwyddiad i randdeiliaid, a oedd yn cynnwys staff o fyd addysg (gan gynnwys lles addysg), carchardai, y gwasanaeth prawf, gofal cymdeithasol, sefydliadau arbenigol y trydydd sector, arweinwyr polisïau, ac aelodau o deuluoedd a chanddynt brofiad bywyd, yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod heriau a chynnig atebion mewn grwpiau traws-sector. Y canlyniadau cadarnhaol a nodwyd o'r digwyddiad oedd:

> 'Gweithio mewn grŵp amlasiantaeth a chlywed safbwyntiau gwahanol.'
>
> 'Dod â darparwyr gwasanaethau i deuluoedd ac arbenigwyr ynghyd yn ôl profiad, ynghyd â ffigurau allweddol yn y llywodraeth/HMPPS, i'w hatgoffa o bwysigrwydd y mater ac i gadw teuluoedd/plant yn uchel ar yr agenda.'

4.55 Nododd y cyfranogwyr nad oedd digon o gynrychiolaeth i ysgolion uwchradd ac y byddai'r digwyddiad wedi elwa o fewnbwn gan yr heddlu a'r farnwriaeth i roi darlun llawn o daith rhiant trwy'r system gyfiawnder a phrofiadau ac anghenion cymorth plant ar bob cam. Roedd y cyfranogwyr yn y digwyddiad yn teimlo'n unfrydol bod cyfleoedd fel y rhain yn hanfodol i feithrin perthnasoedd rhyngasiantaethol cadarnhaol, gwella cyfathrebu rhwng asiantaethau, a chryfhau diwylliant o gydweithio.

4.56 Fel y disgrifiwyd yn astudiaeth achos Parth Ysgolion CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, elfen allweddol o'r fenter yw'r cydweithio rhwng staff carchardai ac ysgolion. Mae deall amgylcheddau ei gilydd yn hanfodol i bartneriaeth effeithiol. Mae'r ffaith bod staff y carchardai yn ymweld â’r ysgolion i drafod anghenion y plant cyn digwyddiad arddangos, a bod athrawon yn gallu profi'r broses ymweld yn y carchar, yn helpu staff ysgolion a charchardai i ddod o hyd i atebion i heriau ar y cyd:

> 'Mae'n creu cysylltiad rhwng ysgolion, carchardai a'r gymuned.' (Swyddog carchar, digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

Roedd hyn hefyd yn gryfder allweddol a nodwyd yng ngham 4 y Prosiect: Mae staff Barnardo's, sydd wedi'u lleoli yn CEF y Berwyn, yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd ac yn gwahodd athrawon i'r carchar i gael cipolwg ar brofiadau plant, ac mae staff Pact yn CEF Abertawe yn dod â staff ysgolion a'r carchar at ei gilydd pan fyddant yn cefnogi plant unigol. Roedd yn glir o'r mentrau carchardai-ysgolion bod cyfathrebu rhagorol yn elfen sylfaenol o unrhyw fodel cymorth i blant:

> 'Mae'n wych cael cyfathrebu rhwng y carchar a'r ysgol os yn bosibl. Mae ef [yr ŵyr] am i'w fam gymryd rhan, yn enwedig o ran ei lesiant.' (Mam-gu, cyfweliad cam pedwar)

4.57 Nodwyd sawl rhwystr rhag cyflawni gwaith amlasiantaeth trwy gydol y prosiect. Roedd yr ymarferwyr addysg a'r ymarferwyr carchardai y cyfwelwyd â nhw yn ystod cam pedwar yn cydnabod y gall cyfathrebu effeithiol fod yn anodd mewn hinsawdd o brinder staff, lle mae adnoddau'n gyfyngedig ar y gorau. Mae cydweithio rhwng asiantaethau yn aml yn gofyn i staff weithio y tu hwnt i'w gweithgareddau craidd yn hytrach na bod hyn wedi'i ymgorffori fel rhan o'u gwaith bob-dydd. Mae plant a chanddynt riant mewn carchar sy'n ddaearyddol anghysbell o'u hysgol yn debygol o gael eu heithrio o fanteision cydweithio o'r fath oni bai bod yna gyfleoedd creadigol ar gyfer cysylltiadau o bell yn cael eu creu.

4.58 Roedd y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw yn ystod cam 4 yn dweud bod carchardai, ysgolion a sefydliadau'r trydydd sector yn gweithio mewn seilos. Roedd perthnasoedd weithiau'n heriol, ac roedd diffyg gwybodaeth am yr hyn yr oedd sefydliadau gwahanol yn ei gynnig i deuluoedd yn yr un ardal ddaearyddol:

> 'Mae yna ormod o weithio mewn seilos – rydyn ni'n canolbwyntio ar y darnau sy'n berthnasol i ni, yn hytrach nag ar y darlun ehangach.' (Arweinydd polisïau plant, cyfweliad cam pedwar)

4.59 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf nad yw'r broses gomisiynu yn arwain at feithrin cydweithredu, a phan fydd contractau'n trosglwyddo o un darparwr i'r llall nad oes fawr ddim cyfnod pontio. Roedd staff o sefydliadau'r trydydd sector yn teimlo bod teuluoedd dan anfantais oherwydd proses gomisiynu sy'n gosod sefydliadau yn erbyn ei gilydd yn hytrach nag annog dull integredig o rannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau.

4.60 Un rhwystr mawr rhag cyfathrebu effeithiol a nodwyd gan y rhanddeiliaid oedd nad yw'r systemau gwybodaeth yn cyd-fynd â'i gilydd. Ychydig iawn o rannu data a llif

gwybodaeth sydd rhwng ysgolion, carchardai a sefydliadau'r trydydd sector. Mae methiant mewn cyfathrebu rhwng asiantaethau yn effeithio ar waith partneriaeth ac, yn ei dro, gall peri i blentyn fod ar ei golled. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed o fewn yr un sector: yn ystod yr ymweliad safle â CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, er enghraifft, cafodd tad a oedd i fod i gymryd rhan yn y digwyddiad arddangos ei symud i garchar arall yn ddirybudd ar ddiwrnod y digwyddiad, a hynny er mwyn ei gwneud yn haws iddo gymryd rhan mewn cyrsiau fel rhan o'i gynllun dedfrydu (heb roi gwybod ymlaen llaw i dîm Waliau Anweledig, a oedd yn cydlynu'r digwyddiad ac yn cysylltu â'r teulu a'r ysgol). Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith sylweddol ar lesiant emosiynol y plentyn dan sylw, nad oedd yn gallu mynd i'r digwyddiad nac ymweld â'i dad yn ôl y bwriad.

4.61 Trwy gydol y prosiect, roedd y rhanddeiliaid ac aelodau teuluoedd yn cydnabod y dylai anghenion a hawliau plant fod wrth wraidd pob achos o gydweithredu. Er enghraifft, dylai dull amlasiantaeth sydd wedi'i gydlynu'n dda osgoi'r angen i blant adrodd eu straeon dro ar ôl tro:

> 'Sicrhau bod y plentyn yn aros wrth wraidd pob achos o gydweithredu a gofyn, beth sydd orau i'r plentyn hwn? Mae hynny'n bwysig iawn.' (Ymarferydd y trydydd sector, cyfweliad cam pedwar)

Mae Stori Megan (para. 5.2) yn datgelu canlyniadau diffyg cydlynu a chydweithredu.

4.62 Gall modelau presennol megis Tîm o Amgylch y Teulu, Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd, a chynadleddau ar gyfer grwpiau teuluol fod yn ddefnyddiol wrth hyrwyddo dull cyfannol, seiliedig ar hawliau plant, o ymdrin â chydweithredu. Dylai'r ymyraethau hyn gynnwys y rhiant yn y carchar lle bo hynny'n briodol:

> 'Mae pawb wastad wedi rhoi ein lle i ni wrth wneud penderfyniadau am [fy ŵyr]. Rydw i bob amser wedi teimlo ein bod wedi ein cynnwys.' (Mam-gu, cyfweliad cam pedwar)

> 'Mae'n bwysig iawn i mi fod yn rhan o'r penderfyniadau am fy mab ... Fi yw ei dad, rydw i am gael dweud fy marn hefyd.' (Rhiant yn y ddalfa, cyfweliad cam pedwar)

4.63 Trwy gydol y prosiect, soniodd y rhanddeiliaid mor werthfawr yw cael un pwynt cyswllt mewn ysgolion a charchardai i gynorthwyo o ran cydweithio a gwaith rhyngasiantaethol. Tynnodd yr ymatebwyr i'r arolwg sylfaenol sylw at yr angen i aelod staff dynodedig o fewn ysgolion fod yn 'esiampl o arferion da;' a hwyluso

cydweithrediad. Gall hyn ei gwneud yn gliriach â phwy y dylid cysylltu ynghylch plentyn unigol a chanddo riant yn y carchar, ond ni ddylai amharu ar yr angen i bob aelod o staff fod â gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch effaith carcharu rhiant ar blant, fel y nodir yn yr adran 'Hyfforddiant' isod.

4.64 Roedd y rhieni yn y gymuned, y rhai yn y carchar, a’r plant i gyd yn cydnabod y rôl allweddol y mae sefydliadau’r trydydd sector yn ei chwarae wrth gydlynu gwaith amlasiantaeth effeithiol. Yn aml, bydd gan sefydliadau arbenigol y trydydd sector berthynas dda â theuluoedd, awdurdodau lleol, ysgolion a charchardai. At hynny, gall sefydliadau'r trydydd sector dynnu ar adnoddau ac arbenigedd eraill yn y sefydliad ehangach, er enghraifft atgyfeirio plant a rhieni at wasanaethau eraill. Disgrifiodd y rhieni yn y ddalfa a’r gofalwyr yn y gymuned y sefydliadau hyn fel rhai:

> 'Teg a gonest.' (Rhiant yn y ddalfa, cyfweliad cam pedwar)
>
> ‘Anhygoel, mor garedig. Roedden ni'n teimlo mor ddiogel gyda nhw.’ (Mam-gu, cyfweliad cam pedwar)

4.65 Ar bob cam o'r prosiect roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod bod teuluoedd yn aml yn teimlo’n nerfus ynghylch ymyrraeth statudol, ac y gall hyn rwystro plant rhag cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Dywedodd y rhieni a oedd yn gofalu am blant gartref fod sefydliadau'r trydydd sector o gymorth wrth frocera perthnasoedd â'r gwasanaethau cymdeithasol os oedd angen. Roedd hyn yn amlwg yn y trafodaethau â gweithwyr cymdeithasol a leolir yn y carchar sy'n ymwneud â menter Together a Chance gan Pact yn CEF Eastwood Park. Yn y prosiect hwn, gall staff gynnig hyfforddiant a dirnadaeth i weithwyr cymdeithasol yn y gymuned sy'n gyfrifol am blant a chanddynt fam yn y carchar, sydd yn ei dro yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng plant a'u mamau. Mae hyn yn sylfaen i'r angen am ddull integredig rhwng gwasanaethau statudol, gwasanaethau cyffredinol a sefydliadau'r trydydd sector.

4.66 Rhaid i waith amlasiantaeth effeithiol fod wrth wraidd unrhyw fodel cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae angen i sefydliadau wybod beth yw eu cwmpas a'u cyfyngiadau a bod yn hyderus o hynny, a chysylltu â sectorau a sefydliadau eraill i sicrhau canlyniadau gwell i blant. Yn y pen draw, rhaid i ddull cydweithredol arwain at weithredu sy'n cefnogi plant.

### Hyfforddiant

### Y cyd-destun

4.67 Nododd yr adolygiad llenyddiaeth y gallai ymarferwyr a llunwyr polisïau fod heb wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch yr effaith y mae bod â rhiant yn y carchar yn ei chael ar blant, a bod hyfforddiant a meithrin ymwybyddiaeth ymhlith staff ysgolion a charchardai, fel ei gilydd, yn bwysig. Mae hyfforddiant yn chwarae rhan annatod wrth herio stigma a gwahaniaethu, gan greu cymunedau tosturi lle mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am help, a meithrin sgiliau a magu hyder ymhlith pob aelod o staff.

### Canfyddiadau prosiect ASPIRE

4.68 Fel y nodwyd yn yr adran gefndir, mae rhaglenni hyfforddi amrywiol eisoes yn cael eu darparu ledled Cymru i feithrin ymwybyddiaeth o effaith carchariad rhiant ac i ddatblygu sgiliau i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan asiantaethau anstatudol megis Pact, Waliau Anweledig Cymru, Barnardo's, a rhaglen Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt.[10]. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ynghylch carchariad rhiant wedi cael ei ddarparu i staff mewn ysgolion, er ei fod wedi'i ymestyn mewn rhai meysydd i asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, er enghraifft gofal cymdeithasol.

4.69 Amlygodd y cyfweliadau trwy gydol y prosiect nad oes fawr o hyfforddiant i staff carchardai ynghylch effaith carchariad rhiant ar blant a phobl ifanc a sut i'w cefnogi'n effeithiol. Mae'r HMPPS wedi datblygu rhaglen ddysgu ar-lein sy'n canolbwyntio ar deuluoedd ac eraill arwyddocaol, ac mae ei Offeryn Mesur newydd yn gofyn i bob aelod o staff mewn carchardai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd, megis staff sy'n gweithio ar ymweliadau, gwblhau'r modiwl ar-lein. Gan ei fod yn adnodd ar-lein, gall yr HMPPS gasglu data ynghylch y niferoedd sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

4.70 Roedd yr holl randdeiliaid yn cytuno bod hyfforddiant yn elfen bwysig o unrhyw fodel cymorth ledled Cymru gyfan, ac y byddai'n cyfrannu at y canlynol:

- meithrin ymwybyddiaeth o faint o blant a phobl ifanc y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt

[10] Daeth yr arian ar gyfer y gwasanaeth hwn i ben ddiwedd mis Awst 2024.

- meithrin ymwybyddiaeth o'r polisïau a'r arferion sydd ar waith ar hyn o bryd ynghylch plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- cynyddu dealltwriaeth o effaith carchariad rhiant
- creu diwylliannau sy'n herio stigma a gwahaniaethu
- cymell ymarferwyr i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- datblygu empathi a thosturi tuag at blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- datblygu gwybodaeth a sgiliau o ran sut i fynd ati mewn modd effeithiol i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar

Disgrifiodd un person ifanc werth hyfforddiant er mwyn i weithwyr proffesiynol ddeall y profiad: ‘Dyw e ddim yn rhy annhebyg i golli rhiant, jyst ddim cweit mor ddifrifol, ond mae'n bendant yn teimlo'n debyg iawn i alar ... felly dylai athrawon ymddwyn mewn ffordd debyg i ddelio â phrofedigaeth, a chael hyfforddiant tebyg.' (Person ifanc, cyfweliad cam 4)

4.71 Amlygodd y rhanddeiliaid carchardai yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ac yn ystod Cam 4, er bod hyfforddiant yn werthfawr, fod profiad a diwylliant sefydliadol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi staff i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol i gefnogi plant a theuluoedd yn effeithiol:

> ‘Mae angen ei arwain o'r brig mewn carchardai ... mae'n hanfodol bod Llywodraethwyr yn datblygu diwylliant o ymarfer perthynol.' (Arweinydd cyfiawnder troseddol, cyfweliad cam pedwar)

4.72 Amlygodd yr ymgynghoriad â’r rhanddeiliaid a'r adolygiad o'r arfer presennol rai heriau posibl o ran darparu hyfforddiant ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Er enghraifft, gall prinder staff a gofynion ar wasanaethau statudol arwain at allu cyfyngedig i ymarferwyr fynd ar hyfforddiant:

> 'Does dim capasiti o fewn ystad y carchar i fynd ar unrhyw hyfforddiant ychwanegol ... y flaenoriaeth yw hyfforddiant gorfodol, ac mae hynny'n her.' (Arweinydd cyfiawnder troseddol, cyfweliad cam pedwar)

4.73 Efallai na fyddai hyfforddiant ar-lein mor effeithiol â chyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb. Er i’r rhanddeiliaid nodi bod modiwlau hyfforddi ar-lein yn ddefnyddiol o ran lleihau’r adnoddau y mae eu hangen i ddarparu neu ddilyn hyfforddiant, roedd yr ymarferwyr yng nghyfweliadau cam 4 yn teimlo eu bod yn aml yn llai effeithiol o ran ennyn diddordeb cyfranogwyr a chyflawni deilliannau dysgu:

‘… mae pobl yn dwlu ar wyneb yn wyneb. Rwy'n gweld bod pethau'n llawer mwy effeithiol os yw pobl yn mynd i rywbeth. Rwy'n gweld eu bod yn buddsoddi ychydig yn fwy ... mae llawer o bobl yn colli ychydig o ffocws ar Teams.' (Swyddog Carchar, cyfweliad cam 4)

4.74 Mae’r rhaglenni hyfforddi presennol sy'n cael eu darparu ledled Cymru wedi cael eu datblygu'n annibynnol gan amrywiaeth o asiantaethau, ac er bod rhai pethau’n gyffredin rhyngddynt, mae yna anghysondebau hefyd o ran cynnwys a negeseuon allweddol. Mae rhywfaint o’r hyfforddiant mewn perygl o ganiatáu i’r stereoteipiau negyddol barhau am blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, a hynny trwy bwysleisio negeseuon ynghylch y tebygolrwydd o droseddu rhwng y cenedlaethau yn hytrach na thynnu ar fodelau cymorth sy'n seiliedig ar gryfderau. Siaradodd y rhanddeiliaid hefyd am ddiffyg cyllid cynaliadwy ar draws pob sector, a’r ffaith y byddai angen 'newid calonnau a meddyliau' er mwyn i gyllid gael ei gyfeirio at y maes hwn.

4.75 Trwy gydol yr ymgynghoriad, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y dylai pob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gael mynediad at hyfforddiant cyson ac effeithiol ar effaith carchariad rhiant. Nodwyd pwysigrwydd cynnwys staff rheng flaen a staff strategol a/neu uwch aelodau o staff mewn rhaglenni hyfforddi.

4.76 Nododd y rhanddeiliaid ystod eang o asiantaethau/ymarferwyr y byddai'n gofyn iddynt gael mynediad at hyfforddiant ar gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar. Roedd y rhain yn cynnwys staff addysg o feithrinfeydd, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a cholegau, gan gynnwys staff ag arbenigedd mewn anghenion dysgu ychwanegol a lles addysg; staff carchardai; yr heddlu; gweithwyr cymdeithasol; y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd; staff y llysoedd; staff y gwasanaeth prawf; ymarferwyr sy'n ymwneud â NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a chyfarfodydd Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg; sefydliadau cymorth ieuenctid, megis y rhai sy'n cefnogi gofalwyr ifanc; darparwyr iechyd, megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a’r Glasoed; asiantaethau tai; ymarferwyr sy'n ymwneud â Thîm o Amgylch y Teulu; swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a chydlynwyr ardaloedd lleol; a myfyrwyr israddedig ar gyrsiau megis gwaith cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol, neu ofal iechyd. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y byddai sesiynau hyfforddi amlddisgyblaethol, sydd ar gael i ystod eang o ymarferwyr, yn cefnogi cydweithrediad, dealltwriaeth gyson, a dysgu ar y cyd.

4.77 Er bod y cyfranogwyr yn amlygu cefnogaeth eang i hyfforddiant mewn ysgolion, amlygwyd bod hyfforddiant sy’n digwydd mewn carchardai ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio yn y gymuned yn arbennig o effeithiol. Dywedwyd bod cael y cyfle i 'gerdded trwy’r profiad' o ymweld â charchar yn rhoi dealltwriaeth well a mwy cofiadwy i ymarferwyr o systemau carchardai, ac yn rhoi'r wybodaeth iddynt ddweud wrth blant, 'Rydw i wedi ei weld, byddi di'n iawn' (Athro, digwyddiad arddangos, CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc). Pwysleisiodd y rhanddeiliaid, fodd bynnag, pe byddai’r hyfforddiant yn digwydd mewn carchardai, y byddai’n rhaid sicrhau bod ffocws yr hyfforddiant yn aros ar y plentyn a'r effaith arno yn hytrach nag ar y carchar ei hun.

4.78 Roedd y cyfranogwyr yn y digwyddiad i randdeiliaid ac yng nghyfweliadau cam pedwar yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys plant a'u rhieni wrth ddatblygu a darparu rhaglenni hyfforddi:

> ‘Mae'n rhaid i chi wrando ar brofiadau pobl.’ (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)
>
> ‘Dylen nhw [y plant] deimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys ac nid yn cael eu trafod yn unig. Dylen nhw gael dweud eu dweud yn yr hyfforddiant.' (Rhiant yn y carchar, cyfweliad cam pedwar)
>
> 'Astudiaethau achos uniongyrchol, straeon uniongyrchol am bobl ifanc yn eu 20au neu eu 30au sy'n myfyrio ar yr adeg honno, a sut roedden nhw'n teimlo a pha gymorth a weithiodd iddyn nhw yn ogystal â'r hyn na weithiodd iddyn nhw bryd hynny, er mwyn deall cymhlethdod y peth mewn gwirionedd.' (Pennaeth, cyfweliad cam pedwar)

Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhieni a’r ymarferwyr bwysigrwydd ystyried y ffordd fwyaf priodol o gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu hyfforddiant, gan roi llesiant plant wrth wraidd unrhyw ymarfer.

4.79 Wrth ystyried cynnwys unrhyw raglen hyfforddi ynghylch plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, awgrymodd y rhanddeiliaid y dylai anelu at gyflawni'r deilliannau dysgu canlynol ymhlith y cyfranogwyr:

- gwell dealltwriaeth o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y broses ddedfrydu, y ddalfa (ac ymweliadau â’r carchar), y broses ryddhau a’r broses ailsefydlu, yn ogystal â’r modd y gall pob cam effeithio ar blant a phobl ifanc

- gwell dealltwriaeth o effaith carchariad rhiant ar blant a phobl ifanc, y modd y gall hyn amrywio ar draws grwpiau oedran/amgylchiadau/mathau o drosedd, a sut olwg allai fod ar yr effaith hon o ran llesiant emosiynol ac ymddygiad plant
- gwell dealltwriaeth o'r stigma sydd ynghlwm wrth garcharu rhiant a sut i herio gwahaniaethu
- mwy o hyder wrth gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, a’r gallu i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt
- gwybodaeth estynedig am yr offer a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi arferion gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt

'[Mae angen i weithwyr proffesiynol] ddeall o le mae'r plant yn dod ... er enghraifft pe baech chi'n cynhyrfu yn yr ysgol ... fel eu bod nhw'n deall beth sy'n digwydd i chi.’ (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

'Rhowch yr offer i ni er mwyn cefnogi’r disgyblion, megis sut y gallem ymateb i'w cwestiynau.' (Athro, digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

4.80 Roedd y rhanddeiliaid, wrth fyfyrio ar yr hyfforddiant i staff carchardai, yn teimlo y dylai’r deilliannau dysgu ychwanegol gynnwys y canlynol:

- dealltwriaeth well o’r modd y mae penderfyniadau yn y carchar yn effeithio ar blant (e.e. canslo cyswllt, peidio â chaniatáu galwadau ffôn, symud rhiant o un carchar i'r llall ar fyr rybudd)
- dealltwriaeth well o bwysigrwydd cydnabod rôl unigolion yn y ddalfa fel rhieni
- dealltwriaeth well o sut i sicrhau bod y gweithdrefnau ymweld yn addas i blant
- dealltwriaeth well o ddiogelu plant

4.81 I grynhoi, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y dylai unrhyw raglen hyfforddi ar gyfer Cymru gyfan gael ei llywio gan brofiadau bywyd plant a theuluoedd a bod yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol: yn ystyriol o drawma, yn dileu stigma, yn canolbwyntio ar hawliau plant ac yn seiliedig ar gryfderau. Dylid ei theilwra i gyd-destun polisi ac ymarfer penodol Cymru, a'i chefnogi gan ymrwymiad uwch-arweinwyr ledled pob asiantaeth. Gyda’r hyfforddiant, dylid cyflwyno adnoddau ac offer i gefnogi arferion, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg, a dylai’r hyfforddiant gael ei ddarparu gan unigolion medrus, dymunol ac ymroddedig sy’n meddu ar wybodaeth arbenigol am gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Dylid ei fonitro mewn modd effeithiol a'i werthuso i fapio pwy sydd wedi cael

hyfforddiant a'r deilliannau dysgu a gyflawnwyd. Yn olaf, dylai’r negeseuon a’r cynnwys fod yn gyson ledled Cymru, a dylai’r hyfforddiant fod ar gael ac yn briodol i gynulleidfa amlasiantaeth, sy’n cynnwys arweinwyr strategol/polisïau, ymarferwyr rheng flaen, a 'hyrwyddwyr' neu arweinwyr ymarfer.

**Adnabod plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar**

**Y cyd-destun**

4.82 Fel yr amlygwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, mae adnabod plant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar yn fater pwysig ond cymhleth. Nid oes proses systematig ar waith ar hyn o bryd i roi gwybod i ysgolion pan fydd rhiant neu ofalwr plentyn yn cael ei garcharu. Er bod proses adnabod yn allweddol wrth gynllunio a darparu cymorth i blant, mae angen ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd yn cael eu stigmateiddio a'u hynysu ymhellach.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.83 Trwy gydol yr ymgynghoriad, cadarnhaodd y rhanddeiliaid nad oes systemau ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd i adnabod plant a chanddynt riant yn y carchar. Er bod y cyfranogwyr yn cydnabod pwysigrwydd proses adnabod wrth ddarparu cymorth i blant, roeddent hefyd yn tynnu sylw at y tensiwn rhwng cyfathrebu, adnabod a phreifatrwydd. Nid yw rhai rhieni yn dymuno i'w plant wybod gwir y sefyllfa, a bydd gan deuluoedd lefelau amrywiol o gysylltiad â'r unigolyn a garcharwyd. Mae pob sefyllfa a theulu yn unigryw, gan gynnwys y math o drosedd a phriodoldeb/diogelwch cynnal cyswllt â’r unigolyn. Cytunodd yr ymatebwyr y dylid darparu cymorth i bob plentyn y mae arno ei eisiau a’i angen, ond bod angen system gofnodi er mwyn gwybod pwy yw'r plant hyn.

4.84 Datgelodd y grwpiau ffocws gyda’r gofalwyr a’r rhieni sydd wedi'u carcharu yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wahaniaeth barn ynghylch adnabod plant a rhannu gwybodaeth pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau bod gan ysgolion hawl i wybod at ddibenion diogelu, ond hefyd na ddylai ysgolion gael gwybod yn awtomatig er mwyn atal plentyn rhag cael ei stigmateiddio. Roedd rhai teuluoedd yn dymuno i'r ysgol wybod, oherwydd y gallai ymweliad gwael achosi i ymddygiad plentyn newid, felly byddai o gymorth pe byddai’r ysgol yn ymwybodol. Fodd bynnag, y dymuniad oedd y dylai'r wybodaeth hon fod i'r rhiant ei rhannu â'r ysgol yn hytrach na bod hynny’n digwydd yn awtomatig:

> ‘Pan fo'r athrawon yn gwybod mwy, maen nhw'n deall pam rydych chi'n drist.’ (Plentyn yn nigwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

> ‘Byddwn yn deall eu hymddygiad yn fwy ’nawr, a bydd yn ein helpu i ddarparu cymorth cyson.’ (Athro, digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

> ‘Dylid targedu cymorth at annog teuluoedd i ymgysylltu ag ysgolion i gael cymorth, nid gorfodi eu problemau i’r agored yn erbyn eu dymuniadau nhw neu eu plentyn. Lle mae pobl yn ymddiried mewn ysgolion ac yn datgelu materion iddynt, mae angen parchu a gwerthfawrogi pwysigrwydd yr ymddiriedolaeth hon yn staff yr ysgol.' (un o gyfranogwyr yr arolwg sylfaenol)

Roedd person ifanc a chanddo brofiad bywyd yn teimlo y dylai pawb (y person ifanc, y teulu, yr ysgol) 'weithio fel tîm a phenderfynu ar yr hyn y mae angen iddi (yr ysgol) wybod.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.85 Daeth y cyfranogwyr yn y digwyddiad rhanddeiliaid i'r casgliad y byddai system yn yr ysgol o adnabod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn ddefnyddiol, a hynny’n enwedig o ddechrau'r daith trwy'r system cyfiawnder troseddol, megis pan gaiff y rhiant ei arestio neu pan fydd yn y llys. Rhaid ystyried sawl mater, gan gynnwys beth yw’r ffordd orau o rannu gwybodaeth ag ysgolion, sut y dylai teuluoedd ymwneud â rhannu’r wybodaeth, a lle y dylid cadw’r wybodaeth fel bod y cofnodion yn dilyn y plant i'w hysgol nesaf. Mae dull gweithredu cyson ar draws pob ysgol yn allweddol. Mae sawl ysgol yng Nghymru eisoes yn defnyddio ffurflenni 'Fy Mhryder' i gofnodi unrhyw faterion ar ffeil achos plentyn, felly gellid defnyddio hyn ar gyfer plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar: Mae cofnodion 'Fy Mhryder' yn dilyn plentyn trwy gydol ei addysg, felly dylid ystyried dileu'r wybodaeth hon pan fydd y rhiant yn gadael y carchar.

4.86 Ar hyn o bryd, mae’r wybodaeth am blant a chanddynt riant yn y carchar yn anecdotaidd i raddau helaeth. Yn y cyfweliadau cam 4, amlygodd y rhanddeiliaid fod hyn yn arbennig o wir pan fydd plant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, gan fod y cysylltiadau â rhieni wrth giât yr ysgol yn diflannu i raddau helaeth, ynghyd â'r berthynas rhwng rhieni ac athrawon. Mae carchardai a darparwyr canolfannau ymwelwyr carchardai yn casglu data crai ar nifer y plant sy'n ymweld, ond dim ond i blant sy'n ymweld y mae hyn yn berthnasol, ac nid yw’r data’n cael eu coladu, eu rhannu na'u defnyddio i lywio polisïau neu arferion ehangach.

4.87 Tynnodd yr holl gyfranogwyr sylw at bwysigrwydd ystyried mynd ati i adnabod plant cyn gynted â phosibl, a hynny er mwyn sicrhau ymyrraeth gynnar o'r adeg y caiff y rhiant ei arestio, yn ystod yr achos llys, ac yn ystod y cyfnod ar remánd. Nododd rhai o’r cyfranogwyr y dylai llysoedd eisoes fod yn casglu data adeg dedfrydu ynghylch pwy sydd â phlant. Pwysleisiodd y bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw bwysigrwydd cymorth o'r dechrau:

> ‘Ar y dechrau, dydych chi ddim 100% yn siŵr beth sy'n digwydd, rydych chi wedi drysu’n lân ... roeddwn am wybod lle oedd fy nhad a sut roedd e’n cael ei drin ... mae'r holl bethau rydych chi wedi’u gweld ar y teledu yn gwneud i chi feddwl bod pawb yn y carchar yn bobl ddrwg, ydy'r swyddogion yn ddrwg?' (Person ifanc, cyfweliad cam 4)

Fodd bynnag, amlygodd y bobl ifanc hefyd y ffaith yr hoffent gael cynnig cymorth drwy gydol taith eu rhiant trwy'r system cyfiawnder troseddol, hyd yn oed ar ôl i'w rhiant adael y carchar, gan y gall y straen a'r pryder sy'n gysylltiedig â charchariad rhiant bara ymhell y tu hwnt i'w ryddhau:

> ‘Mae Dad wedi bod yn eitha' ynysig yn byw yn y carchar, ac mae'n mynd i fod yn rhyfedd iddo ddod adref a dod i arfer â'i fywyd eto ... rwy'n poeni y bydd pobl yn dweud ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le eto a bydd yn rhaid iddo fynd yn ôl, a bydd yn rhaid i ni fynd yn ôl i sut oedd hi ar y dechrau eto.' (Person ifanc, cyfweliad cam 4)

4.88 Trwy gydol yr ymgynghoriad, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai fod angen i asiantaethau allweddol eraill wybod bod gan blentyn riant yn y ddalfa, gan gynnwys sefydliadau ieuenctid, y proffesiwn meddygol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae casglu'r wybodaeth hon yn gofyn am ymddiriedaeth a dealltwriaeth o pam y mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio. Gall amlygu teuluoedd trwy ddulliau eraill, megis yn y cyfryngau neu drwy glywed rhywun yn sôn amdanynt, fod yn niweidiol iawn ac atal teuluoedd rhag bod yn barod i gael eu hadnabod. Holodd un cyfranogwr a oedd â phrofiad bywyd:

> ‘Pam ydych chi'n dal i ganiatáu i enwau a chyfeiriadau plant gael eu hargraffu wrth adrodd am droseddau y mae oedolion wedi'u cyflawni? Stopiwch hyn ’nawr.’ (Ymarferydd y Trydydd sector, cyfweliad cam 4)

4.89 Ni ddaeth unrhyw gonsensws i'r amlwg ynghylch datgelu gwybodaeth yn awtomatig i ysgolion am garchariad rhiant. Awgrymodd yr ymarferwyr y gellid defnyddio'r

systemau sy’n bod yn barod (megis Ymgyrch Encompass[11] neu Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd[12]), lle rhoddir gwybod i arweinwyr diogelu neu benaethiaid ysgolion fel y gellir gwneud addasiadau. Fodd bynnag, mewn unrhyw achos o ddatgeliad awtomatig, rhaid ystyried canlyniadau anfwriadol.

4.90 Yn yr arolwg ar-lein ar gyfer pobl ifanc, roedd naw o bob deg ymatebydd yn teimlo y dylid dweud wrth yr ysgol yn awtomatig, dywedodd chwech y dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda'r plentyn wybod, a dim ond tri a ddywedodd y dylai'r plentyn benderfynu. Fodd bynnag, roedd gan y bobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a’r cyfweliadau bryderon ynghylch y modd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ysgolion ac â phwy. Pan fydd plant a phobl ifanc yn dweud, 'dylai'r ysgol wybod', gallent olygu athro penodol yn hytrach na phawb yn yr ysgol. Roedd un o’r bobl ifanc a ddaeth i’r digwyddiad arddangos yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi dymuno cael mynegi ei farn o ran pa athro fyddai’n cael ei wahodd i'r digwyddiad. Dywedodd person ifanc arall y cyfwelwyd â hi yng ngham pedwar y dywedwyd wrth ei choleg heb yn wybod iddi. Cafodd wybod pan ddywedodd un o'i hathrawon, 'clywais beth ddigwyddodd i dy fam'. Roedd yn teimlo y dylai ysgolion gael gwybod fel y gallant roi cymorth, ond roedd hefyd yn teimlo'n gryf iawn y dylai plant gael cyfle i fod yn rhan o'r broses o benderfynu pwy sy’n cael gwybod. Dywedodd un rhiant yn y carchar na ddylid dweud wrth ysgolion oni bai bod yna fater diogelwch uchel.

4.91 Nododd y canfyddiadau fanteision i blant pan roddir gwybod i ysgolion fod eu rhiant yn y carchar. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gall ysgolion gynnig cymorth mewn modd rhagweithiol ac ar adegau penodol, er enghraifft cyn ac ar ôl ymweliadau â’r carchar
- gellir awdurdodi absenoldebau i ymweld â rhiant yn y carchar, ac felly byddai llai o absenoldebau anawdurdodedig yn dod i sylw’r gwasanaeth lles addysg
- gall athrawon fod yn fwy tosturiol, er enghraifft, os yw plentyn yn anghofio ei ddillad addysg gorfforol, neu os bydd ymddygiad plentyn yn newid, gallant ddeall pam, ac mae plant yn fwy tebygol o gael eu cefnogi yn hytrach na'u cosbi. (Fodd bynnag, nododd un ymatebydd polisi fod gan blant hawl i gael eu

[11] Partneriaeth ddiogelu gwybodaeth gynnar rhwng yr heddlu a byd addysg yw Ymgyrch Encompass, sy'n galluogi ysgolion i gynnig cymorth ar unwaith i blant sy'n profi camdriniaeth ddomestig.
Dogfen i rannu gwybodaeth yw[12] Hysbysiad Amddiffyn y Cyhoedd, sy'n cofnodi pryderon diogelu ynghylch oedolyn neu blentyn.

cefnogi heb i neb wybod y manylion penodol ac y gellir gweithredu dulliau sy'n ystyriol o drawma heb i neb wybod am sefyllfa'r plentyn)

- gall ysgolion reoli'r broses o rannu gwybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chadw’n gyfrinachol

4.92 Roedd aelodau teuluoedd ac ymarferwyr, fel ei gilydd, yn teimlo y dylid annog y teulu i ddweud wrth yr ysgolion eu hunain. Gallai hyn fod y rhiant yn y carchar, y gofalwr, neu'r person ifanc ei hun (er bod yr ymatebwyr yn cydnabod bod pobl ifanc yn tueddu i beidio â datgelu'r wybodaeth). Er mwyn cefnogi teuluoedd i ddatgelu bod rhiant yn y ddalfa, dywedodd yr ymatebwyr fod yn rhaid ystyried y canlynol:

- er mwyn annog teuluoedd i ddatgelu unrhyw fater anodd, neu os yw’r wybodaeth yn hysbys (e.e. trwy'r cyfryngau), neu os oes amheuaeth, mae angen i weithwyr addysg proffesiynol drin teuluoedd mewn modd sensitif ac mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys.
- mae angen i deuluoedd wybod na fyddant yn cael eu beirniadu ac na fyddant yn destun gwahaniaethu
- mae angen i deuluoedd wybod bod cymorth ar gael a sut i gael gafael ar y cymorth hwnnw
- mae angen i asiantaethau weithio mewn modd effeithiol ac ar y cyd
- mae angen i ymarferwyr wybod sut i ddarparu cymorth a/neu wybodaeth

4.93 Wrth ystyried y broses adnabod, nododd y rhanddeiliaid nifer o rwystrau y mae angen eu hystyried:

- gall llawer o rieni yn y carchar fod yn amharod i ddatgelu bod ganddynt blant oherwydd eu bod yn ofni cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol (yn un o'r carchardai yr ymwelodd tîm ASPIRE ag ef cofnodwyd bod tua 60 y cant o’r dynion â phrofiad o fod mewn gofal). Dywedodd un ymarferydd mewn carchar fod gofyn i ddynion am eu plant yn gallu bod yn ffordd dda o ddechrau sgwrs os yw'n cael ei wneud yn y ffordd iawn
- efallai na fydd gan y Swyddogion Lles Addysg fanylion cyswllt ar gyfer neiniau a theidiau neu berthnasau eraill sy'n gofalu am blant tra bod eu rhieni yn y carchar, nac ychwaith berthynas sefydledig â nhw.
- nid yw rhieni'n hyderus i ddweud wrth ysgolion am eu bod yn poeni y gallai’r wybodaeth gael ei rhannu ag eraill.

- gallai rhai o staff yr ysgol ymateb mewn modd beirniadol; gallai datgelu'r wybodaeth beri i'r plentyn gael ei weld a'i drin yn wahanol
- nid yw rhai pobl ifanc yn dymuno siarad am yr hyn sydd wedi digwydd

4.94 Trwy gydol yr holl drafodaethau ynghylch adnabod plant, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith bod perthnasoedd yn allweddol: rhaid i deuluoedd deimlo'n hyderus mai cynnig cymorth yw'r cymhelliad yn hytrach na chosbi neu wahaniaethu ymhellach. Rhaid sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng yr angen am gymorth a'r hawl i beidio â datgelu.

**Cynnwys pob plentyn yn y cymorth**

**Y cyd-destun**

4.95 Nid yw plant yng Nghymru yn grŵp homogenaidd; maent yn dod o amrywiaeth eang o gymunedau cymdeithasol, economaidd ac ethnig a chanddynt anghenion a phrofiadau amrywiol. Nid yw pob plentyn yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar yn mynychu'r ysgol nac yn ymweld â'i riant Felly, nid oes yna un ateb sy'n addas i bawb. Rhaid i'r broses o ddatblygu model ledled Cymru gydnabod hefyd nad yw pob rhiant o Gymru sydd wedi'i garcharu yn preswylio yng Nghymru: mae pob mam, a chyfran sylweddol o dadau, yn y ddalfa mewn carchardai yn Lloegr. Beth bynnag fo'i gefndir, ei amgylchiadau, ei brofiad, ei oedran, a'i nodweddion, mae ar bob plentyn angen ymagwedd garedig, sensitif, sy'n ystyriol o drawma, ynghyd â gofal a chymorth wedi'u teilwra.

**Canfyddiadau gweithgareddau prosiect ASPIRE**

4.96 Amlygodd y bobl a ddaeth i'r digwyddiad rhanddeiliaid a'r rhai y cyfwelwyd â nhw yn ystod cam pedwar y ffaith bod yr ystod amrywiol o blant ledled Cymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried wrth ddatblygu model cymorth. Yn ôl un arweinydd polisi a gafodd ei holi yng ngham pedwar, dylai'r cymorth i bob plentyn y mae carchariad rhiant yn effeithio arno gael ei ategu gan Gynllun Plant a Phobl Ifanc (2024) Llywodraeth Cymru, sy'n blaenoriaethu rhoi cymorth i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfle teg mewn bywyd, yn enwedig y rheiny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i oresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial:

> 'Mae angen i ni fod yn ymwybodol o anghenion ehangach plant o ran eu crefydd, eu hethnigrwydd, ac unrhyw anableddau gweladwy, neu anweledig, sydd ganddynt.' (Gweithiwr cymdeithasol, cyfweliad cam pedwar)

4.97 Amlygodd yr ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid a'r adolygiad o ymarfer yng Nghymru fod plant sy'n ymweld â charchardai yn gyffredinol yn cael mwy o fynediad at gymorth na'r rhai nad ydynt yn ymweld. Mae pob carchar yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaethau cymorth i ymwelwyr, ymweliadau teuluol, a gwybodaeth a chyngor. Maent hefyd yn galluogi plant i fod mewn amgylchedd ymhlith teuluoedd eraill sydd wedi cael profiadau tebyg:

> 'Ar ôl cyrraedd canolfan ymweld gynnes a chlyd, cefais fy nghyfarch gan staff hyfryd Waliau Anweledig ... Roedden nhw mor garedig wrthyf, ac yn cymryd yr amser i wrando, deall, a'm cynghori ynghylch y prosesau a'r hyn oedd ganddyn nhw ar gael i'm helpu i a'm plant ... Ar adegau o drallod ac anobaith llwyr, mae'r staff yn gwneud i chi deimlo mor gyfforddus ac fel eich bod yn cael eich cefnogi, eich cysuro, a'ch deall. Mae fy mhlant mor gyfforddus hefyd yn yr amgylchedd [y ganolfan ymweld], ac maen nhw wedi dod i adnabod y staff hefyd; mae wir yn gwneud gwahaniaeth anhygoel i bob un ohonom. Mae'n gwneud i chi deimlo nad ydych chi ar eich pen eich hun.' (Mam, digwyddiad arddangos, CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

4.98 Roedd yr athrawon a'r staff carchar y cyfwelwyd â nhw yn ystod digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cydnabod, er y gall mentrau megis y Parth Ysgolion fod o fudd i blant a'u teuluoedd, fod hyn yn cyrraedd cyfran fach iawn yn unig o'r plant yng Nghymru sy'n ymweld â rhiant yn y carchar. Er bod ar blant sy'n ymweld â'r carchar angen cymorth ynghylch effaith carchariad rhiant, mae angen ystyried yn benodol y rhai nad ydynt yn ymweld â'u rhieni er mwyn sicrhau bod eu hanghenion cymorth yn cael eu diwallu.

4.99 Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod y gellid datblygu gwasanaethau ymweld â charchardai ymhellach i ddarparu cymorth mwy cynhwysol i blant a phobl ifanc, y gellid ei ategu gan hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ychwanegol i staff carchardai. Roedd y grwpiau penodol o blant yn cynnwys:

Plant o gefndiroedd diwylliannol a/neu grefyddol gwahanol a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf

4.100 Nid oedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol o gymorth yng Nghymru i grwpiau ethnig penodol o blant a chanddynt riant yn y carchar, er bod cynlluniau ar y gweill i hwyluso digwyddiad yn CEF y Berwyn ar gyfer plant o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Roedd arweinydd polisi cyfiawnder troseddol y cyfwelwyd ag ef yng

ngham pedwar yn teimlo y gallai ymweliadau arbennig sy'n cydnabod arferion diwylliannol a chrefyddol plant (e.e. Diwali) helpu plant i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi'n fwy, ac y gallent annog teuluoedd i ymweld, ond roeddent yn cydnabod bod y ddarpariaeth ar gyfer hyn mewn carchardai yng Nghymru yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Nododd gwaith maes yn CEF y Parc a CEF Berwyn dystiolaeth o wybodaeth i deuluoedd yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ond nid i ieithoedd eraill; gallai hyn fod yn rhwystr i rai teuluoedd rhag ymweld â'r carchar.

Plant hŷn a phobl ifanc

4.101 Teimlai’r teuluoedd a’r rhanddeiliaid fod carchardai mewn sefyllfa well i gynnig ymweliadau sy'n addas i blant iau, ac y gallai diffyg darpariaeth i blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau fod yn rhwystr iddynt rhag ymweld.

Plant niwroamrywiol a phlant sydd ag anghenion ychwanegol

4.102 Dywedodd yr athrawon a gymerodd ran yn nigwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a’r staff carchardai y cyfwelwyd â nhw yn ystod cam pedwar y gall ymweliadau â charchardai fod yn anodd i blant niwroamrywiol; mae’r chwiliad diogelwch yn codi ofn arnynt (yn enwedig y cŵn synhwyro cyffuriau) ac mae’r sŵn yn y neuadd ymweliadau yn peri straen iddynt. Gall mentrau megis yr ystafell synhwyraidd yn CEF Berwyn leddfu pryderon plant a hwyluso ymweliad llai cynhyrfus. Mae hyfforddiant i staff carchardai yn allweddol ac mae paratoi plant cyn yr ymweliad yn fuddiol. Dywedodd yr ymarferwyr sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt a gymerodd ran yng nghyfweliadau cam pedwar fod plant niwroamrywiol yn gweld galwadau ffôn i'r carchar ac ymweliadau fideo yn heriol. Efallai y byddai’n well gan rai plant niwroamrywiol ymweliadau ar-lein, fodd bynnag nid oes gan bob teulu fynediad at y rhyngrwyd.

4.103 Pwysleisiodd un o’r ymatebwyr yng ngham pedwar yr angen i feddwl yn ofalus sut i gynnwys barn plant ag anawsterau dysgu a'r rhai sy’n ddieiriau, gan ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol os oes angen:

> 'Yn y gorffennol, rydym wedi cael person ifanc a oedd ag anabledd a, gyda'n cydlynydd, wedi gwneud cyflwyniad PowerPoint ar [ei meddyliau] ac yna wedi cyflwyno hynny i'w chynhadledd grŵp teuluol fel y gallai ei theulu a'i theulu estynedig ddeall [ei dymuniadau a'i theimladau] ychydig yn fwy.' (Ymarferydd y trydydd sector, cyfweliad cam pedwar)

Plant o deuluoedd ag incwm isel

4.104 Trwy gydol y prosiect, tynnodd rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid sylw at y gost ariannol a'r amser sy'n gysylltiedig â theithio i ymweld â rhywun yn y carchar, yn ogystal â'r heriau ychwanegol os gwneir hynny ar gludiant cyhoeddus. Mae hyn yn rhwystr sylweddol rhag sicrhau bod pob plentyn a chanddo riant yn y carchar yn cael cymorth, gan nad yw llawer o deuluoedd yn gallu ymweld oherwydd cyfyngiadau ariannol:

> ‘Pam ddylai'r plentyn ddioddef oherwydd na all mam neu dad fforddio ei yrru y tu allan i Gymru? Mae'n ymwneud â'i gwneud yn system deg i bawb.’ (Swyddog carchar, cyfweliad cam pedwar)

Plant a chanddynt riant yn y ddalfa y tu allan i Gymru

4.105 Amlygodd y rhanddeiliaid yr angen am gymorth ychwanegol i blant sy'n teithio pellteroedd sylweddol i ymweld â'u rhiant yn y carchar, gan y gall hyn gynyddu effaith emosiynol, ariannol ac ymarferol ymweld â rhiant (gweler Atodiad G am nifer yr unigolion o Gymru sydd yn y ddalfa yn Lloegr). Pwysleisiodd y rhanddeiliaid yr angen i fentrau megis Visiting Mum gael eu hariannu'n gynaliadwy i gefnogi pob plentyn yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar y tu allan i Gymru.

Plant y mae eu rhiant wedi cyflawni trosedd uchel-ei-phroffil, rywiol neu ryng-deuluol

4.106 Gall plant wynebu arwahanrwydd, stigma a gwahaniaethu ychwanegol o ganlyniad i drosedd eu rhiant. Mae angen ystyried hyn o ran y cymorth a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen.

Cymorth y tu allan i gyd-destun y carchar

4.107 Derbyniwyd yn eang ar bob cam o'r prosiect na ellir cysylltu cymorth i blant ag ymweliadau â’r carchar yn unig, gan y bydd hyn yn eithrio nifer sylweddol o blant rhag cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Roedd gweithwyr proffesiynol, plant a'u rhieni yn cydnabod y rôl werthfawr y gall ysgolion a gwasanaethau addysg ei chwarae wrth sicrhau bod pob plentyn y mae carchariad rhiant yn effeithio arno yn cael cymorth. Yn achos plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol, roedd y rhanddeiliaid trwy gydol y prosiect yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan Swyddogion Lles Addysg wrth ddarparu cymorth emosiynol a strategaethau ymarferol i blant a'u teuluoedd. Roedd yr awgrymiadau ynghylch y modd y gall Swyddogion Lles Addysg gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn cynnwys:

- darparu clust i wrando ac agwedd empathig
- awdurdodi absenoldebau pan fydd ymweliadau â'r carchar yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol
- hwyluso ysgolion rhithwir ac amserlenni hyblyg ar gyfer plant nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd, er enghraifft, stigma, cywilydd a bwlio

Roedd Swyddog Lles Addysg y cyfwelwyd â hi yng ngham pedwar yn teimlo nad oedd wedi cael fawr ddim hyfforddiant ar effaith carchariad rhiant ar blant a'i bod wedi 'dysgu pethau wrth i mi fynd ymlaen.' Mae hyn yn ategu'r angen am hyfforddiant ar gyfer ystod o randdeiliaid, fel yr amlinellwyd yn yr adran uchod ar hyfforddiant.

4.108 Roedd y cyfranogwyr yn y digwyddiad i'r rhanddeiliaid yn teimlo bod mwy o gymorth i blant yn tueddu i gael ei gynnig trwy ysgolion cynradd, lle mae'r berthynas rhwng y teulu a'r ysgol yn aml yn gryfach, ond bod angen cynnwys ysgolion uwchradd wrth ystyried model ar gyfer Cymru gyfan.

4.109 Yn gyffredin i bob plentyn y mae'r angen i sicrhau bod ganddo rieni neu ofalwyr a all ddarparu'r gofal a'r cymorth y mae arno eu hangen. Roedd y cyfweliadau â'r rhieni yn y ddalfa, y rhieni a'r gofalwyr yn y gymuned, a'r plant a'r bobl ifanc i gyd yn tynnu sylw at yr angen i fodel ledled Cymru gynnwys cymorth i rieni a gofalwyr yn y gymuned. Mae'n hanfodol bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cefnogi, yn eu rhinwedd eu hunain, gyda'u hanghenion eu hunain (emosiynol, ymarferol, ariannol, cymdeithasol), fel y gallant ddarparu'r cymorth, y gofal a'r arweiniad o ddydd i ddydd y bydd ar eu plant eu hangen:

> 'Mae hyn wedi cael effaith enfawr arnaf i gan nad ydw i wedi bod yn gadael y tŷ ryw lawer eleni am fy mod i'n ofni y bydd y gymuned ehangach yn fy meirniadu ac yn ceisio dial ... Mae hyn wedi troi ein bywydau wyneb i waered a phrin y gellid credu cymaint y mae wedi ein llorio.' (Mam, digwyddiad arddangos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)

4.110 Er bod y rhieni a oedd yn ymweld â'r carchar yn ddiolchgar am y cymorth gan deuluoedd eraill a oedd yn yr un sefyllfa â nhw, yn ogystal â chan staff y canolfannau ymwelwyr, roedd stigma, unigedd, a diffyg gwasanaethau arbenigol yn cyfyngu ar y cymorth a'r wybodaeth yr oeddent yn eu cael yn y gymuned. Roedd tadau yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn awyddus i dynnu sylw at y diffyg cymorth i'w partneriaid yn y gymuned, gydag un ohonynt yn disgrifio hyn fel

'twll du' i rieni ac un arall yn rhannu, 'Am 8 o’r gloch, pan fydd y drws yn cau a'r plant yn y gwely, mae hi'n unig, a dyna pryd fyddwn i yno fel arfer'. Er bod gwasanaethau megis gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn Pact a Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion yn bodoli (gweler Atodiad A am fanylion), nid oes unrhyw grwpiau cymorth cymheiriaid yn cael eu darparu yn y gymuned yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer rhieni a gofalwyr.

**Diogelu**

**Y cyd-destun**

4.111 Mae diogelu yn rhan annatod o’r holl waith gyda theuluoedd, a rhaid iddo fod yn flaenoriaeth yn y broses gydweithredu rhwng ysgolion a charchardai. Dylai llesiant plant fod wrth wraidd unrhyw fodel cymorth, ac ni ddylai achosi unrhyw niwed anfwriadol. Nid ymarfer sy’n digwydd unwaith yn unig yw diogelu, ond yn hytrach proses ddynamig sy’n dibynnu ar ddull sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac iddo ffocws ar y teulu cyfan, ynghyd â gwaith amlasiantaeth effeithiol a phroses rhannu gwybodaeth dryloyw. (Llywodraeth EF, 2023. Mae'n bwysig cydnabod hefyd nad yw cael rhiant yn y carchar yn bryder diogelu ynddo'i hun. Mae'n hanfodol bod pob asiantaeth yn sicrhau diogelwch effeithiol wrth gynnal hawl plentyn i gynnal cyswllt â’i riant.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.112 Er na chaniateir cyswllt rhwng plentyn a rhiant yn y ddalfa o bryd i'w gilydd oherwydd pryderon ynghylch diogelu, awgrymodd yr ymatebwyr a gyfrannodd at gyfweliadau cam pedwar a'r digwyddiad i’r rhanddeiliaid y gall carchariad rhiant beri i weithwyr proffesiynol gymryd fod yna lefel o risg neu ddiffyg nad yw o reidrwydd yn gywir. Dywedodd ymarferydd y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cymorth yn y carchar i deuluoedd fod rhai tadau yn y ddalfa wedi cael eu hannog gan wasanaethau cynghori llysoedd teulu i beidio â gwneud ceisiadau am gyswllt â’u plant, gyda'r rhagdybiaeth, gan eu bod yn y ddalfa, na fyddai eu cais yn llwyddiannus. Yn yr un modd, cyfeiriodd ymatebydd arall yn ystod cam pedwar at y modd y gall rhai pobl ystyried weithiau fod ymweld â’r carchar ynddo'i hun yn cael effaith negyddol ar lesiant plant. Rhoddwyd enghraifft o blentyn mewn gofal maeth na chafodd ei gefnogi i ymweld â'i riant yn y carchar, gan ddangos diffyg ystyriaeth i ddymuniadau'r plentyn ac i gryfderau cynnal cyswllt â rhiant. Yn ogystal, tynnodd yr ymatebwyr yn y digwyddiad i’r rhanddeiliaid ac yn ystod cyfweliadau cam pedwar

sylw at y ffaith bod y tueddiad canfyddedig i ystyried carchariad rhiant yn risg diogelu yn atal rhieni (yn y gymuned ac yn y ddalfa) rhag datgelu bod carchariad rhiant yn effeithio ar eu plentyn, a allai gyfyngu ar fynediad at gymorth. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid, er bod diogelu yn hanfodol, y dylid ystyried rhieni yn y ddalfa hefyd yn gryfder ac yn ased posibl i blant a'u teuluoedd yn hytrach na thrwy lens 'risg' yn unig.

4.113 Dywedwyd bod sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn carchardai yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ddiogelu, arbenigedd a chymorth i garchardai ac i rieni yn y ddalfa. Er bod staff carchardai yn nodi rôl Unedau Rheoli Troseddwyr a thimau diogelu'r cyhoedd wrth adnabod risgiau sy'n gysylltiedig â chyswllt rhwng rhieni a phlant, dywedasant yn gyffredinol mai gwybodaeth gyfyngedig oedd ganddynt am ymarfer diogelu plant:

> ‘Rwy'n credu yn gyffredinol y byddai staff [carchardai] bob amser yn elwa o fwy o hyfforddiant yn gyffredinol, ond hyd yn oed ar ddiogelu plant, mae angen llawer mwy o ddealltwriaeth arnyn nhw." (Swyddog carchar, cyfweliad cam pedwar)

4.114 Awgrymodd y rhanddeiliaid eu bod yn aml yn dibynnu ar wybodaeth ac arbenigedd eu darparwr gwasanaethau teuluoedd lleol (Pact, Barnardo's, neu Waliau Anweledig Cymru), os oedd ganddynt bryderon ynghylch diogelu plant. Nododd yr ymgynghoriad yng ngham pedwar hefyd enghreifftiau o’r modd yr oedd darparwyr gwasanaethau i deuluoedd yn y carchar wedi cefnogi rhieni yn y ddalfa ynghylch materion diogelu a chyswllt rhwng y rhiant a’r plentyn:

- yn CEF Berwyn, roedd Barnardo's wedi bod yn ymwneud â chefnogi rhieni oedd yn mynychu cyfarfodydd â’r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
- yn CEF Eastwood Park, roedd Pact wedi cefnogi mamau i fynegi pryderon ynghylch diogelu pan oeddent yn pryderu am lesiant eu plentyn yn y gymuned

4.115 Nododd un o’r ymatebwyr y potensial i ddatblygu rhaglenni ac ymyraethau yn y carchar i rieni yn y ddalfa er mwyn mynd i'r afael â risgiau a phryderon diogelu posibl yn y dyfodol, yn arbennig mewn cysylltiad â thrais domestig. Roedd amrywiaeth o ran sgiliau, gwybodaeth, polisïau ac arbenigedd ym maes diogelu plant yn amlwg ar draws asiantaethau gwahanol, ac mae’n bwysig sefydlu dull cydlynol a chydweithredol mewn unrhyw fodel cymorth amlasiantaeth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

4.116 Thema gyffredin yn y digwyddiad i'r rhanddeiliaid ac yn ystod cyfweliadau cam pedwar oedd yr angen i ystyried diogelu plant ar bob cam o daith rhiant trwy'r system cyfiawnder troseddol, nid dim ond pan fydd y rhiant yn y ddalfa. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y rôl bwysig y mae'r heddlu yn ei chwarae wrth sicrhau llesiant plant pan fydd eu rhiant yn cael ei arestio. Nododd y rhanddeiliaid hefyd y gallai plant fod yn arbennig o agored i niwed pan fydd eu rhiant yn cael ei ryddhau o'r carchar. Disgrifiwyd y dryswch a'r gofid posibl i blant pan allant ymweld â'u rhiant yn y ddalfa mewn amgylchedd diogel, o dan oruchwyliaeth, ond yna pan fydd eu rhiant yn cael ei ryddhau, ni chaniateir cyswllt mwyach neu o dan oruchwyliaeth yn unig oherwydd y risg ganfyddedig. Ystyriwyd bod cyfathrebu effeithiol rhwng carchardai, y gwasanaeth prawf, gofal cymdeithasol, addysg ac asiantaethau cymorth i deuluoedd yn hanfodol i liniaru'r effaith ar blant a phobl ifanc. Soniodd dau ymarferydd, er efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn tybio bod plant yn dymuno gweld eu rhiant ar ôl iddo gael ei ryddhau, na ddylid cymryd hynny'n ganiataol, ac 'nad yw pob plentyn yn awyddus' i wneud hynny. Gall rhyddhau rhiant o'r carchar fod yn newid enfawr i blant a phobl ifanc, ac efallai y bydd arnynt angen cymorth emosiynol ar yr adeg hon. Ategwyd hyn mewn cyfweliad â pherson ifanc, a ddywedodd, er ei fod yn edrych ymlaen at weld ei riant yn cael ei ryddhau, ei fod hefyd yn teimlo'n bryderus:

> 'Rwy'n poeni sut mae e'n mynd i ymdopi gartre.' (Person ifanc, cyfweliad cam pedwar)

4.117 Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at effaith y prosesau rhyddhau ac ailsefydlu ar rieni, a phwysigrwydd rhoi cymorth iddynt, fel y gallant ymdopi ag effeithiau ymarferol ac emosiynol ailsefydlu, a gallu cefnogi eu plant. Nid oes yr un o'r asiantaethau cymorth i deuluoedd yng ngharchardai Cymru yn darparu cymorth trwy'r-giât i deuluoedd fel rhan o gontract Gwasanaeth Teuluoedd yr HMPPS.

4.118 Dim ond pan fydd llais y plentyn yn cael ei glywed y gall ymarfer diogelu fod yn effeithiol. Mae darparu gwybodaeth addas a phriodol i blant a phobl ifanc ar bob cam ynghylch pob penderfyniad sy'n effeithio arnynt, ynghyd â chyfleoedd parhaus i leisio eu barn, yn hanfodol. Fel y trafodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, mae'r teclyn Asesu'r Effaith ar Blant (yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022) yn adnodd defnyddiol i helpu ymarferwyr i gefnogi plant a phobl ifanc yn rheolaidd i nodi eu hanghenion eu hunain:

‘Tybiaf mai'r peth mawr, mawr y byddwn i'n ei feddwl pe bawn i'n gweithio gyda phlentyn fyddai, a yw wir am gael cyswllt â'i riant? Ac os nad oes ganddo’r gallu, a yw hyn er ei les gorau? Felly, mae'n ymwneud â chynnal ei farn a'i ddewisiadau ... Tybiaf mai'r gwahaniaeth mawr yn fy rôl i yw nad oes gan yr unigolyn y gallu, felly mae'n rhaid dibynnu ar ei ofalwyr, y rhai sy'n ymwneud fwyaf ag ef, a sut y maen nhw'n gweld y sefyllfa, yr effeithiau, neu'r hyn y maen nhw'n teimlo y mae’r plentyn yn ei gael o hyn.' (Gweithiwr cymdeithasol, cyfweliad cam pedwar)

**Monitro a gwerthuso**

**Y cyd-destun**

4.119 Mae'r adran gefndir yn dangos cyfoeth o ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol am effaith carchariad rhiant ar blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae yna fwlch sylweddol mewn tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i wella eu deilliannau, yn enwedig o ran eu haddysg a'u llesiant. At hynny, dim ond ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch yr effaith ar grwpiau penodol o blant a’r hyn sy'n gweithio iddynt. Nid yw fframweithiau sicrhau ansawdd ac arolygu ledled cyfiawnder troseddol, addysg ac iechyd y cyhoedd yn cydnabod bod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn grŵp penodol.

**Canfyddiadau prosiect ASPIRE**

4.120 Mae systemau Cymru’n brin o ddata am blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Er enghraifft, dim ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â faint o blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, pwy ydynt, ble ydynt, eu nodweddion demograffig, eu llesiant, ac effaith cymorth ar eu deilliannau. Nid oes unrhyw wasanaeth cyffredinol yng Nghymru, er enghraifft nid yw addysg (trwy fframwaith arolygu Estyn) nac iechyd, yn cofnodi data ar nifer y plant a chanddynt riant yn y carchar na'r cymorth a gânt. Mae’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) yn casglu data ysgolion yn flynyddol ar iechyd a llesiant plant, ac er ei fod yn monitro plant mewn gofal, nid yw'n monitro plant a chanddynt riant yn y carchar. Gallai'r SHRN ddarparu ffordd ddefnyddiol o nodi nifer y plant yr effeithir arnynt a'u nodweddion demograffig, yn ogystal â'u hiechyd a'u llesiant presennol a newidiadau dros amser. Gallai fod yn werth ystyried setiau data eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru a’r modd y gellir eu defnyddio i lywio gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch profiadau plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Yn ogystal, roedd y cyfweliadau â rheolwyr gwasanaethau

cymdeithasol yng ngham pedwar yn awgrymu nad oes ganddynt gofnod ar draws yr awdurdod lleol o'r holl blant a chanddynt riant yn y carchar, ac nad ydynt yn monitro eu deilliannau chwaith, ond y byddent 'yn ymwybodol o fewn timau unigol pwy yw'r plant hyn'.

4.121 Yn y system garchardai, defnyddir Adnodd Sgrinio Sylfaenol y Dalfeydd i gasglu data pan fydd unigolion yn cyrraedd y ddalfa gyntaf ac i gofnodi a oes gan rywun yn y carchar blant. Fodd bynnag, fel y nododd y rhanddeiliaid yng nghyfweliadau cam pedwar, mae dibynadwyedd y data hyn yn dibynnu ar ba un a yw'r unigolyn yn datgelu'r wybodaeth hon, sut y gofynnir y cwestiwn, a chan bwy. Mae carchardai a darparwyr cymorth i deuluoedd sy'n darparu gwasanaethau canolfannau ymwelwyr hefyd yn cofnodi data am faint o blant a pha blant sy'n ymweld, yn ogystal â phwy y maent yn ymweld â nhw, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill. Amlygodd y rhanddeiliaid yng nghyfweliadau cam pedwar hefyd botensial Pasbortau Ailsefydlu (GovNet Justice, 2020) wrth ddarparu gwybodaeth am blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae Pasbortau Ailsefydlu yn rhan o Raglen Lleihau Aildroseddu yr HMPPS, a'u nod yw cefnogi pobl yn y carchar pan gânt eu rhyddhau, a hynny trwy ddwyn ynghyd yr wybodaeth a'r gwasanaethau hanfodol er mwyn iddynt ailintegreiddio'n llwyddiannus i'w cymunedau. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddarganfod lle y gall gwybodaeth am gyfrifoldeb rhieni a phlant eistedd.

4.122 Dim ond hyn a hyn o ddata cyfunol sydd ar gael yng Nghymru ynghylch effeithiolrwydd cymorth i blant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar. Mae Offeryn Mesur Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol yr HMPPS yn broses asesu orfodol y mae'n rhaid i bob carchar ei chyflawni er mwyn monitro ei waith gyda theuluoedd. Fodd bynnag, fel y nododd un o'r rhanddeiliaid yng ngham pedwar, 'maent yn marcio eu gwaith cartref eu hunain', gan ei fod yn offeryn hunanasesu. Ar ôl i'r asesiad gael ei gwblhau, dylai carchardai ddatblygu cynllun gweithredu i ddangos y modd y maent yn bodloni argymhellion canfyddiadau'r offeryn asesu. Fodd bynnag, nododd y rhanddeiliaid nad yw'r asesiad hwn yn monitro effaith gwasanaethau ar blant a phobl ifanc, a'i fod yn hytrach yn canolbwyntio ar yr ymyraethau a ddarparwyd (h.y. allbynnau) a'r canlyniadau i unigolion yn y ddalfa.

4.123 Nododd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd â darparwyr y trydydd sector sy'n darparu cymorth i deuluoedd mewn carchardai fod gwaith monitro a gwerthuso sy'n benodol i wasanaethau yn cael ei wneud er mwyn monitro eu heffaith ar blant a chanddynt

riant yn y carchar. Dywedodd Barnardo's, Pact, Waliau Anweledig Cymru, a'r gwasanaeth Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau monitro a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er enghraifft, adolygu profiadau plant o wasanaethau ymweld a diwrnodau teuluol a monitro cynnydd plant yn ystod rhaglenni cymorth un-i-un. Mae gwerthusiadau ehangach o ymyraethau penodol a ddarperir yng Nghymru hefyd wedi'u cynnal, megis gwasanaeth Visiting Mum (gweler Rees et al., 2017 a 2022, a Clancy a Maguire, 2017). Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant unigol.

4.124 Amlygodd yr adolygiad o ddeddfwriaethau a pholisïau nad oes yr un fframwaith arolygu yng Nghymru ar hyn o bryd yn gofyn i wasanaethau fynd i'r afael ag anghenion penodol plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Nid yw Offeryn Mesur Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol yr HMPPS, Arolygiaeth Carchardai EF, na fframwaith arolygu Estyn yn adolygu deilliannau plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

4.125 Wrth ystyried pa ddeilliannau y dylid eu hystyried wrth fonitro effaith cymorth ac ymyraethau, awgrymodd y rhanddeiliaid yng nghyfweliadau cam pedwar y dylid canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- perthynas y plentyn â theulu a ffrindiau
- presenoldeb y plentyn yn yr ysgol
- cyrhaeddiad addysgol y plentyn
- gallu'r plentyn i fynegi a rheoli ei emosiynau
- hyder y plentyn
- ymddygiad y plentyn
- iechyd y plentyn
- a yw'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a hobïau
- teimlad y plentyn o 'ddiogelwch'

> 'Edrychwch ar ddiogelwch a sefydlogrwydd. Ydy'r person ifanc yn teimlo'n ddiogel? Ydy'r plentyn yn poeni ei fod yn mynd i fod allan ar y strydoedd neu'n mynd i orfod symud a symud ysgol; yr holl ffactorau sy'n gysylltiedig â phlentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn sefydlog.' (Arweinydd polisi gwaith cymdeithasol, cyfweliad cam pedwar)

4.126 Mae’n ddiddorol sylwi bod yr holl feysydd deilliannau hyn a awgrymwyd yn cyd-fynd â'r profiadau amddiffynnol a chydbwyso y dangoswyd eu bod yn lliniaru effaith ACEs, megis carcharu aelod o'r teulu.

4.127 Awgrymodd y cyfranogwyr yng nghyfweliadau cam pedwar hefyd y dylai’r deilliannau fod yn 'briodol a chael eu mesur fesul unigolyn', nid yn erbyn eraill. Awgrymodd un o’r ymatebwyr y dylid defnyddio dull gweithredu ansoddol i 'ymchwilio'n ddyfnach trwy ofyn i'r plentyn beth oedd y trobwynt iddo, neu ofyn sut roedd gweithio yn y ffordd benodol honno wedi helpu'. Nododd eraill mai’r 'canlyniadau meddal yw'r rhai y mae angen eu mesur. Fodd bynnag, mae'n anodd dangos achosiaeth gyda'r mathau hyn o ddeilliannau, fel yn achos data meintiol'. Yn ogystal, argymhellodd y rhanddeiliaid y dylid mesur deilliannau byrdymor a hirdymor, oherwydd 'yn aml, dim ond ymhen blynyddoedd y gellir gweld effaith, nid misoedd'. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid trwy gydol yr ymgynghoriad, fodd bynnag, fod gan bob plentyn ei anghenion unigryw ei hun, ac felly y dylid teilwra’r dulliau gweithredu unigol a’r broses fonitro i bob plentyn.

4.128 Er nad oedd yr ymgynghoriad â’r rhanddeiliaid wedi nodi unrhyw offer na fframweithiau deilliannau cyson i fonitro effaith gwasanaethau ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, nododd yr adolygiad o lenyddiaeth ac ymarfer rai adnoddau a allai fod yn werthfawr, gan gynnwys:

- Y Teclyn Asesu’r Effaith ar Blant a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022), sy'n adnodd defnyddiol i gefnogi ymarferwyr i wrando heb feirniadaeth ar deimladau, safbwyntiau a phryderon plant, gan sicrhau bod unrhyw ddeilliannau arfaethedig yn cael eu llywio gan yr hyn y mae'r plentyn yn teimlo y mae arno ei angen.
- Outcome Stars, sef adnodd seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi a mesur newid; ac er nad oes Seren ar gael yn benodol ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, gall ystod o Sêr sy'n benodol i blant a phobl ifanc ddarparu fframwaith defnyddiol (Triangle Consulting Social Enterprise Ltd., 2024)
- Yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (Child Outcomes Research Consortium), a allai ddarparu mesurydd cynnydd defnyddiol
- Y Datganiadau Ansawdd a'r Pecyn Cymorth (Barnardo's), a ddatblygwyd i gefnogi sefydliadau i osod targedau, llunio cynlluniau gweithredu, a monitro eu

cynnydd o ran darparu cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt (Barnardo's i-HOP Datganiadau Ansawdd a Phecyn Cymorth – NICCO)

# 5. Canfyddiadau: Astudiaethau achos eglurhaol, Megan ac Evan[13]

5.1 Mae'r astudiaethau achos canlynol, sy'n seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o gam pedwar, yn rhoi darlun clir o ba mor hanfodol yw pob un o'r meysydd hyn wrth ddarparu cymorth effeithiol i blant a chanddynt riant yn y ddalfa. Mae stori Megan yn dangos yr effaith drychinebus ar bobl ifanc pan nad yw'r elfennau hyn yn cael eu hystyried. I'r gwrthwyneb, mae stori Evan yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan gaiff y rhain eu hintegreiddio mewn ymarfer.

5.2 Stori Megan

| |
|---|
| Roedd Megan yn 17 oed pan aeth ei mam i'r carchar gyntaf. Er ei bod yn dal yn blentyn, ni chafodd ei hanghenion eu hystyried yn unrhyw un o benderfyniadau'r system cyfiawnder troseddol ynghylch ei mam: 'Rwy'n cofio rhywun yn y llys yn dweud wrth fy mam, 'Rydych chi'n byw gyda'ch merch', ond dyna'r unig dro i unrhyw un sôn amdanaf erioed.' Gadawyd Megan ar ei phen ei hun yn y tŷ heb unrhyw arian i brynu bwyd na hanfodion megis pethau ymolchi: 'Roedd gen i weithiwr cymdeithasol ar y pryd, ond cefais fy ngadael yn fy nhŷ heb fwyd. Doeddwn i ddim yn gallu bwyta. Doedd gen i ddim arian ar gyfer bwyd nac unrhyw beth. Doedd y gweithiwr cymdeithasol ddim yn deall o gwbl, doedd e ddim yn sylweddoli beth o'n i'n mynd drwyddo. Roedd e'n arfer cerdded rownd gyda'i fag dogfennau ac ni fyddai'n gwneud llawer.' <br><br> Cymerodd y gymdeithas dai a oedd yn darparu fflat mam Megan y les yn ôl gan ddweud nad oedd Megan yn gymwys i gael tŷ, gan ei bod dan 18 oed. Roedd yn teimlo ei bod yn cael ei beirniadu am drosedd ei mam: 'Siaradodd y ddwy fenyw a oedd yn gweithio yno â mi fel pe bawn i'n ddim byd. Gwnaethon nhw bopeth o fewn eu gallu i fy nhanseilio. Dywedodd un ohonyn nhw wrtha i, 'ni fyddwn i'n gwneud i'm merch i yr hyn y mae dy fam wedi ei wneud i ti.' Cafodd Megan ei gwneud yn ddigartref a chynigiwyd lle iddi mewn lloches i'r digartref lle'r oedd yn teimlo'n anniogel iawn. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae mam Megan wedi bod i mewn ac allan o'r carchar 11 gwaith. Mae Megan wedi treulio'r amser hwnnw yn cysgu ar soffa'r naill ffrind ar ôl y llall, yn cysgu yng nghar ei chariad, ac yn achlysurol yn aros gyda theulu estynedig. |

[13] Er mwyn cadw anhysbysrwydd, newidiwyd yr enwau

Y tro cyntaf i fam Megan gael ei harestio (ni arweiniodd hynny at ddedfryd o garchar), roedd hi yn yr ysgol. Roedd Megan yn ymwybodol bod rhai o’r staff yn gwybod, ond nid oedd yn siŵr sut yr oeddent yn gwybod na beth yr oeddent yn ei wybod: ‘Gwnaeth y person gofal cymdeithasol yn yr ysgol ddarganfod bod mam wedi cael ei harestio ... efallai bod yr heddlu neu fy ngweithiwr cymdeithasol wedi dweud wrthi. Ni ddywedwyd wrthyf ei bod wedi cael gwybod .... byddai wedi bod yn well dweud wrthyf fod yr ysgol wedi cael gwybod.' Ni ofynnodd neb yn yr ysgol iddi sut yr oedd hi na chynnig cymorth iddi: ‘Dywedodd [athrawes] wrthyf, 'Clywais am yr hyn a ddigwyddodd gyda dy fam’, a dyna’r cyfan.’

Mae profiadau Megan wedi ei gadael ag ymdeimlad clir o'r hyn a fyddai wedi gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol a'r coleg: ‘Dylen nhw [yr athrawon] ... amlygu tosturi a dealltwriaeth ... mae'n rhaid i chi ddeall beth maen nhw'n mynd drwyddo ... gwrandewch ar brofiadau pobl ... gwrandewch ar sefyllfa pawb. Mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud amdanaf, ond does neb erioed wedi gofyn i mi ... gallai ysgolion ofyn i mi beth sydd ei angen arnaf."  Er ei bod yn teimlo bod rhannu gwybodaeth yn bwysig ('Mae'n dda bod y coleg yn gwybod fel y gall geisio eich cefnogi.'), mae'n glir bod 'angen i blant a phobl ifanc wybod pwy y dywedir wrthynt [a bod angen] gofyn iddynt am eu barn ynghylch pwy ddylai cael gwybod. Dylai'r person sy'n gweithio gyda chi ddweud, 'Hoffech chi i'r ysgol neu'r coleg wybod?'

Ar ôl i’w mam fynd i'r carchar gyntaf, cysylltodd Megan â'r ganolfan waith am gymorth i gael mynediad at gredyd cynhwysol: ‘Ni chynigiodd y fenyw yno unrhyw help. Dywedodd, 'Cer allan, ni allwn dy helpu'. Ni wrandawodd arnaf nac unrhyw beth ... Dywedais, 'Rwy’n cael trafferth, mae fy mam wedi mynd i'r carchar', a dywedodd, 'Nid wyt ti’n 18, allwn ni ddim dy helpu.' Roedd hi'n ymddangos mewn hwyliau gwael. Roedd yna atgasedd ganddi, fel pe bai’n fy meirniadu.'  Cafwyd cyfarfodydd amdani: ‘Cafodd fy ngweithiwr cymdeithasol, gweithiwr prawf mam, a rhywun o'r coleg gyfarfod â’i gilydd ... ond nid oedd dim yn y cyfarfod ynglŷn â rhywle i mi fyw,' teimlai Megan nad oedd neb yn gwrando arni mewn gwirionedd, a llawer llai yn gweithredu: ‘O'n i'n teimlo nad oedd neb yn poeni amdanaf. Maen nhw'n cael eu talu, yr holl weithwyr yma oedd i fod i'm helpu, ond wnaeth neb ddim byd.'

I Megan, roedd ymweld â'i mam yn y carchar yn brofiad brawychus: ‘Roedd yn ddi-flewyn-ar-dafod. Roedd yn hollol ddi-flewyn-ar-dafod – dylen nhw ei wneud yn llai

brawychus. Gwelais fyrddau â llyfrau lliwio arnynt a phethau felly, ond roedd y teimlad cyffredinol yn frawychus ... doedd e ddim yn groesawgar.' Nid oedd staff y carchar wedi helpu i leddfu'r ofnau yma: 'Doedden nhw ddim hyd yn oed wedi siarad â mi, roedden nhw'n ein trin ni fel byddin: 'Cerddwch yno, gwnewch hyn, peidiwch â gwneud hynny.' Mae'n glir ynglŷn â beth fyddai'n helpu: 'Dylai staff carchardai gael hyfforddiant ar sut beth ydyw i blant ... byddai'n bendant yn helpu pe bydden nhw'n clywed gan bobl ifanc fel fi yn ystod eu hyfforddiant.'

Mae Megan wedi profi gweithredoedd bach o garedigrwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf: 'Roedd y coleg wedi helpu [ychydig] ... rhoddon nhw bethau ymolchi i mi (siampŵ/gel cawod a phethau tebyg) ... Dydw i ddim yn siŵr sut roedden nhw'n gwybod, ond roedd y coleg jest yn gwybod [bod mam yn y carchar].' Dangosodd ymarferydd prawf ei mam dosturi: 'Cyn i'm mam gael ei rhyddhau, anfonodd swyddog prawf fy mam neges destun ataf i ddweud, 'Mae dy fam yn dod allan, ffonia fi os byddi di fy angen.' Mae hi'n neis iawn ac yn gydymdeimladol. Roedd hi'n deall fy sefyllfa.' Ac roedd dau gymydog yr un wedi darparu pryd o fwyd i Megan (mae'n dal i gofio hynny'n fyw ddwy flynedd yn ddiweddarach).

Nid yw'r digwyddiadau tosturiol unigol hyn yn ddigon i sicrhau bod plant a phobl ifanc fel Megan yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen ac y maent yn ei haeddu. Fel y dywed Megan, 'Dylai fod mwy o gymorth gan ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, a charchardai – mwy o gymorth yn gyffredinol yn emosiynol, cael eich deall yn iawn a chael help a chymorth ymarferol.' Mae Megan yn glir bod yn rhaid i'r cymorth ymarferol gynnwys cymorth tai i bobl ifanc fel hi: 'Mae angen i'r bobl tai ddeall – mae tai yn rhan enfawr ... mae eich mam wedi cael ei chymryd oddi arnoch, ond sut allwch chi fyw'n annibynnol 'nawr? Bydd arnoch angen cymorth tai a phethau felly oherwydd eich bod chi'n cael eich gadael allan ... rydych chi'n edrych ar famau eich ffrindiau i gyd ac yn sylweddoli eich bod yn cael eich gadael allan.' Ac er bod dull cydweithredol yn hanfodol, 'Pan fydd pobl yn dod i mewn i dimau [o amgylch plentyn] a phan fyddant yn casglu sefydliadau at ei gilydd, dylent wneud [rhywbeth] yn lle ei wneud yn gyfrifoldeb ar y plentyn. Maen nhw'n dweud eu bod nhw'n mynd i helpu ond dydyn nhw ddim – mae hynny wir yn gadael y plentyn i lawr.'

Mae stori Megan yn rhoi cipolwg ar effaith drychinebus carchariad rhiant ar blant, pan nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried, ac ni ddarperir cymorth. Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i sicrhau bod y rhai sydd â'r pŵer i wneud newidiadau yn

gwrando ar y plant a'r bobl ifanc y mae eu penderfyniadau'n effeithio arnynt. Fel y mae Megan yn dweud, 'Dylai'r llywodraeth wrando ar bobl fel fi. Chefais ddim help o gwbl. Rwy'n ddigartref ar hyn o bryd. Rydw i wedi gweld y pethau gwaethaf. Rydw i wedi gwylio fy mywyd yn diflannu. Y cyfan sydd wedi digwydd i mi erioed yw cael fy nghau allan. Fyddwn i ddim yn dymuno i neb fynd trwy'r hyn sydd wedi digwydd i mi.'

## 5.3 Stori Evan

Roedd Evan yn 13 oed pan aeth ei mam i'r carchar. Gofalwyd amdano gan ei fam-gu, a welodd y profiad yn un anodd a brawychus: 'Rydyn ni'n deulu arferol, bob-dydd. Roedden ni mewn sioc. Mae'n brofiad arswydus i deuluoedd.' Yn wahanol i Megan, a adawyd ar ei phen ei hun a heb gymorth, mae stori Evan yn un sy'n dangos y gwahaniaeth y gall pob asiantaeth ei wneud trwy gael agwedd garedig a thosturiol. Roedd hyn yn amlwg o'r adeg y cafodd y rhiant ei arestio, fel yr eglura mam-gu Evan: 'Daeth swyddogion yr heddlu ag [Evan] draw i'n tŷ ni ar ôl iddyn nhw arestio ei fam. Ffonion nhw fi a dweud y bydden nhw'n dod ag ef draw ata i mewn car arferol, nid car heddlu. Roedd swyddogion yr heddlu'n hyfryd – eu blaenoriaeth oedd [Evan]. Roedden nhw'n wirioneddol wych.'

Ar ôl arestio ac yna carcharu ei fam, cysylltodd Evan a'i fam-gu â Pact, sefydliad trydydd sector sy'n cefnogi pobl yn y carchar a'u teuluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae mam-gu Evan yn glir ynghylch pa wahaniaeth y mae'r cymorth hwn wedi'i wneud i'r teulu: 'Mae staff Pact wedi bod yn garedig ac yn dyner. Maen nhw wedi dal ein dwylo trwy hyn i gyd ac wedi rhoi help a chymorth anhygoel i ni.' Yn y dyddiau cynnar ar ôl carcharu mam Evan, nid oedd y teulu'n gwybod beth i'w wneud: 'Roedd y syniad o fynd i mewn i garchar yn codi ofn mawr arnom ni.' Cynigiodd staff Pact gyngor ymarferol ar drefnu ymweliad, gan gynnwys mynd gydag Evan a'i fam-gu i'r ymweliad cychwynnol. Cafodd mam-gu Evan ei tharo gan y caredigrwydd a dangoswyd tuag atyn nhw yn y carchar: 'Roedd staff y carchar yn anhygoel gyda'r plant – roedden nhw'n gallu gweld ein bod ni'n nerfus. Roedden ni mor ofnus. Gwnaeth [staff y carchar] i ni deimlo'n gartrefol ac egluron nhw bopeth, er enghraifft beth i'w ddisgwyl ar ôl cyrraedd [yr ystafell ymweliadau].'

Yn ogystal â chymorth ymarferol, darparodd Pact gymorth emosiynol hanfodol. Mae mam-gu Evan yn glir ynglŷn â phwysigrwydd hyn: 'Roedden ni'n teimlo'n ddiogel

gyda Pact. Mae gwybod nad ni yw'r unig rai wedi gwneud gwahaniaeth enfawr.' Cysylltodd staff Pact ag athrawon Evan ynglŷn â'r cymorth y gallai fod arno ei angen yn yr ysgol. Gwahoddwyd staff yr ysgol hefyd i ymgymryd â hyfforddiant Pact ar effaith carchariad rhiant ar bobl ifanc a'u teuluoedd. Dywedodd athrawon Evan wrth Pact pam y mae hyn mor bwysig: 'Roedd y cysylltiad â Pact yn fuddiol iawn i wella ein gwybodaeth am [fyfyrwyr y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt], ac felly ein cymorth iddynt.' Mae mam-gu Evan yn cytuno bod cymorth gan sefydliadau fel Pact yn allweddol: 'Helpodd Pact yr ysgol i'n cefnogi ni – roedd [yr ysgol] yn gwneud hynny'n barod ond roedd yn well ar ôl i Pact ymuno â'r broses.'

Mae'n amlwg o stori Evan fod hyfforddiant a dealltwriaeth ymhlith ymarferwyr ar bob cam o'r system gyfiawnder yn allweddol i sicrhau bod teuluoedd yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac er mwyn iddynt gael y cymorth y mae arnynt ei angen. Fel y dywed mam-gu Evan, 'Rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn – mae'r athrawon, yr heddlu, staff y carchar i gyd wedi bod mor garedig. Roeddech chi'n gallu dweud bod ganddyn nhw galonnau. Roeddwn i'n dychmygu pob math o bethau, ond roedden nhw i gyd yn garedig iawn. Rwy'n credu eu bod i gyd yn deall sut beth ydyw i blant gael rhiant yn y carchar.'

Pan ofynnwyd iddi beth sydd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf i Evan a'i deulu, nid oes amheuaeth gan fam-gu Evan: 'Mae bod yn garedig yn bwysig iawn. A gwrando ar yr hyn y mae'r plant yn ei ddweud. Mae pawb wastad wedi rhoi ein lle i ni wrth wneud penderfyniadau am [Evan]. Rydw i bob amser wedi teimlo fy mod wedi cael fy nghynnwys.'

## 6. Casgliadau

6.1 Cafodd tîm prosiect ASPIRE y dasg o ddarparu opsiynau ac ystyriaethau ar gyfer model cenedlaethol o gymorth i wella deilliannau llesiant ac addysgol plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Amlygodd manyleb y gwaith fod prosiect Parth Ysgolion Waliau Anweledig yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn fodel y gallai fod yn werth ei efelychu ar gyfer model ledled Cymru o gydweithio rhwng carchardai ac ysgolion i gefnogi plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar. Roedd yr adolygiad pum cam o ymchwil bwrdd gwaith, yr ymweliad safle â'r Parth Ysgolion yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, yr arolwg sylfaenol, y digwyddiad i'r rhanddeiliaid, y cyfweliadau, yr alwad ar-lein am dystiolaeth gan bobl ifanc, a thrafodaethau'r grŵp cynghori arbenigol i gyd wedi nodi a llywio'r materion allweddol sy'n berthnasol i ddatblygu model cymorth ledled Cymru i blant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar. Mae'r casgliadau'n cynrychioli crynodeb o'r materion allweddol hyn, ac amlinellir argymhellion a chamau gweithredu cysylltiedig ym Mhennod 7 er mwyn awgrymu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r rhain yng Nghymru.

**Llenyddiaeth a pholisïau**

6.2 Dangosodd yr adolygiad cefndir o'r llenyddiaeth a'r polisïau fod yna ddiffyg cysylltiad rhwng polisïau sy'n canolbwyntio ar garchardai ac sy'n hyrwyddo cyswllt teuluol a pholisïau sy'n ymwneud ag anghenion a hawliau plant. Ychydig o bolisïau'r DU sy'n cyfeirio at anghenion plant a chanddynt riant yn y carchar, ac mae'r rhethreg yn parhau i ganolbwyntio ar atal aildroseddu neu ar 'dorri'r cylch' troseddu a charcharu o fewn teuluoedd. Mor ddiweddar â mis Mehefin 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU amcangyfrif diwygiedig o nifer y plant sy'n profi carchariad rhiant bob blwyddyn, gan gyfiawnhau'r cyfrifiad hwn ar y sail bod ymchwil flaenorol yn awgrymu bod plant sy'n profi carchariad rhiant mewn mwy o berygl o droseddu eu hunain. (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2024). Pa mor dda bynnag yw bwriad y broses o adnabod a chasglu data, rhaid hoelio sylw ar hawliau'r plentyn ac nid ar y tebygolrwydd o droseddu yn y dyfodol.

**Arfer cyfredol**


6.3 Dangosodd yr adolygiad o ymarfer yng Nghymru hefyd bocedi cadarnhaol o gymorth mewn carchardai, ysgolion a chymunedau. Darparodd model Parth Ysgolion Waliau Anweledig, er enghraifft, yr ysgogiad i Lywodraeth Cymru

gomisiynu prosiect ASPIRE ac ystyried model cymorth ar gyfer Cymru gyfan. Amlygodd yr ymweliad safle fanteision niferus dull o'r fath i bawb dan sylw, a chreodd fframwaith ar gyfer archwilio model ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at fylchau posibl i'w hystyried, sef dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach nag ar adsefydlu; sy'n cyrraedd pob plentyn yng Nghymru, ni waeth lle y mae ei riant yn y carchar neu a yw'n ymweld â'r carchar ai peidio; ac sy'n ennyn yr isadeiledd gofynnol o ran hyfforddiant, cydweithredu, a chyllid i sicrhau bod y gwaith yn hygyrch ac yn cael ei gynnal.

6.4 Ymhellach, dangoswyd yn glir gan yr astudiaeth achos eglurhaol a gyflwynwyd ym mharagraff 5.2 fod y modelau cymorth cyfredol yn cyrraedd dim ond cyfran fach o'r plant yng Nghymru sy'n profi carchariad rhiant, sy'n gallu arwain at ganlyniadau trychinebus.

6.5 Trwy'r broses ddysgu a'r cyd-destun hyn, nododd y prosiect naw blaenoriaeth allweddol sy'n darparu map ffordd clir i ddatblygu model cymorth mwy cynhwysfawr ledled Cymru, a amlinellir yn Ffigur 1:

**Ffigur 1: Naw blaenoriaeth allweddol a ddatblygwyd o ganfyddiadau prosiect ASPIRE**



6.6 Daeth canfyddiadau prosiect ASPIRE i'r casgliadau canlynol:

**Ymdrin â chymorth gan ganolbwyntio ar hawliau plant a chryfderau (argymhelliad 7.2)**

6.7 Gall ysgolion a charchardai, fel ei gilydd, chwarae rhan unigryw yn y broses o gynnal hawliau plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt a chydnabod eu potensial. Mae plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn aml yn cael eu diffinio o fewn model diffyg; mae dull seiliedig ar gryfderau yn canolbwyntio ar alluoedd, a nodweddion a pherthnasoedd cadarnhaol plentyn, ynghyd â'i botensial. Mae ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau yn cydnabod bod gan blant set benodol o hawliau yn hytrach na'u bod yn wrthrychau goddefol sy'n ddarostyngedig i benderfyniadau a wneir am eu rhieni yn unig. Mae pob plentyn yn wahanol, a pha bynnag lefel o gymorth y mae ar blentyn ei angen, dylai'r cymorth fod wedi'i wreiddio mewn hawliau plant ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma, a dylai hoelio sylw ar ei farn a'i anghenion.

6.8 Trwy gydol y prosiect, roedd y rhanddeiliaid yn glir y dylai hawliau plant a'u lleisiau fod wrth wraidd unrhyw fodel cymorth a hyfforddiant, ac y dylid eu defnyddio i lywio polisïau ac arferion:

6.9 Er bod angen i gymorth ymateb i anghenion, dymuniadau ac amgylchiadau plant, pwysleisiodd y rhanddeiliaid yr angen am gysondeb: dylai pob carchar ac ysgol ledled Cymru fod yn rhan o'r un model integredig, cyfannol a hyblyg.

**Polisïau ac adnoddau sy'n cefnogi model ar gyfer Cymru gyfan (argymhelliad 7.3)**

6.10 Er bod rhai polisïau addysg a chyfiawnder troseddol yn sôn am blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, prin yw'r rhai sy'n ystyried eu hanghenion na sut y dylid cefnogi'r anghenion hyn. Mae'r modd y caiff gwasanaethau eu comisiynu, yn ogystal â'r adnoddau a ddarperir, yn effeithio ar natur, argaeledd, cynaliadwyedd, cysondeb ac ansawdd y cymorth sydd ar gael i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

6.11 Dangosodd y canfyddiadau fod yn rhaid i bolisïau a chanllawiau perthnasol i blant yng Nghymru a chanddynt riant yn y carchar gynnwys mesurau ar gyfer y canlynol:

- amddiffyn eu hawliau
- nodi bod arnynt angen cymorth ychwanegol o bosibl
- sicrhau bod eu hanghenion o ran llesiant yn cael eu diwallu

- cefnogi’r broses o rannu gwybodaeth ac adnabod plant

6.12 Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru a'r pedwar diben yng nghwricwlwm ysgolion Cymru mewn sefyllfa dda i adnabod y grŵp hwn o blant.

6.13 Ni chafodd unrhyw gymorth targededig gan wasanaethau'r trydydd sector i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt ei ariannu trwy Teuluoedd yn Gyntaf, er bod rhai awdurdodau lleol yn cynnwys hyn fel rhan o'u cynlluniau cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai symud i ffwrdd o gyllid gan yr HMPPS yn unig yn sicrhau mynediad at gymorth i bob plentyn trwy gydol taith ei riant trwy'r system cyfiawnder troseddol, gan ganolbwyntio ar y plentyn, yn hytrach na'r rhiant yn y carchar. Gellid cyflawni hyn trwy gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg neu iechyd, neu drwy fodel wedi'i gyd-gomisiynu sy'n cwmpasu adrannau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Dylai prosesau comisiynu hefyd gydnabod goblygiadau ehangach unrhyw fodelau cymorth o ran adnoddau i deuluoedd a gwasanaethau sy’n bod yn barod. Er enghraifft, awgrymodd y rhanddeiliaid fod angen i fodel megis y Parth Ysgolion ystyried y canlynol:

- yr effaith ariannol ar deuluoedd yn sgil teithio i’r carchar ac oddi yno ar gyfer ymweliadau ychwanegol
- costau athrawon cyflenwi i alluogi staff ysgolion i fynd i ddigwyddiadau yn y carchar
- y goblygiadau o ran adnoddau i garchardai wrth ddarparu staff ar gyfer ymweliadau/digwyddiadau ychwanegol

**Mynediad canolog at wybodaeth ac adnoddau (argymhelliad 7.4)**

6.14 Trwy gydol yr ymchwil, nododd y cyfranogwyr ddiffyg cysondeb o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch effaith carchariad rhiant, yr adnoddau sydd ar gael, a gwasanaethau targededig. O ystyried hyn, awgrymodd y cyfranogwyr dro ar ôl tro y byddai hwb gwybodaeth ac adnoddau canolog yn darparu cymorth gwerthfawr i weithwyr proffesiynol, plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Gwaith amlasiantaeth (argymhelliad 7.5)**

6.15 Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil o’r farn bod model cymorth cynhwysfawr ledled Cymru yn gofyn am gydweithrediad llawn rhwng carchardai ac ysgolion, yn ogystal ag ystod eang o asiantaethau sy’n cefnogi plant a theuluoedd, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a sefydliadau’r trydydd sector.

### Hyfforddiant (argymhellion 7.6-7.7)

6.16 Roedd yr holl randdeiliaid yn cytuno bod hyfforddiant yn elfen bwysig o unrhyw fodel cymorth ledled Cymru. Byddai sesiynau hyfforddi amlddisgyblaeth sydd ar gael i ystod eang o ymarferwyr yn cefnogi cydweithrediad, dealltwriaeth gyson, a dysgu ar y cyd.

6.17 Dylai unrhyw raglen hyfforddi ledled Cymru gael ei llywio gan brofiadau bywyd plant a theuluoedd, ei theilwra i gyd-destun polisïau ac arferion penodol Cymru, a bod yn gyson yn ei negeseuon ledled Cymru. Rhaid i’r hyfforddiant gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol medrus, ei gefnogi gan uwch-reolwyr, a'i fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod wedi cyflawni'r canlyniad a ddymunwyd. Dylai'r holl hyfforddiant fod yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin, sef yn ystyriol o drawma, yn dileu stigma, yn canolbwyntio ar hawliau plant ac yn seiliedig ar gryfderau.

### Adnabod plant mewn modd sensitif pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar (argymhellion 7.8-7.10)

6.18 Trwy gydol yr holl drafodaethau ynghylch adnabod plant, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith bod perthnasoedd yn allweddol: rhaid i deuluoedd deimlo’n hyderus mai cynnig cymorth yw’r cymhelliad yn hytrach na chosbi neu wahaniaethu ymhellach. Rhaid sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng yr angen am gymorth a'r hawl i beidio â datgelu.

### Cynnwys pob plentyn yn y cymorth (argymhellion 7.11-7.13)

6.19 Nid yw plant yng Nghymru yn grŵp homogenaidd, ac nid yw pob plentyn yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar yn mynychu'r ysgol nac yn ymweld â'r rhiant hwnnw. Felly, nid oes yna un ateb sy'n addas i bawb. Rhaid i’r broses o ddatblygu model ledled Cymru gydnabod hefyd nad yw pob rhiant o Gymru sydd wedi’i garcharu yn preswylio yng Nghymru: mae pob mam, a chyfran sylweddol o dadau, yn y ddalfa mewn carchardai yn Lloegr. Beth bynnag fo’i amgylchiadau, mae ar bob plentyn angen ymagwedd garedig, sensitif, sy’n ystyriol o drawma, ynghyd â gofal a chymorth wedi’u teilwra sy’n cydnabod mai plentyn ydyw yn anad dim.

### Diogelu (argymhelliad 7.14)

6.20 Mae diogelu yn rhan annatod o’r holl waith gyda theuluoedd, a rhaid iddo fod yn flaenoriaeth yn y broses gydweithredu rhwng ysgolion a charchardai. Dylai llesiant plant fod wrth wraidd unrhyw fodel cymorth, ac ni ddylai achosi unrhyw niwed anfwriadol. Mae diogelu yn broses ddynamig a pharhaus sy’n dibynnu ar ddull sy’n

canolbwyntio ar y plentyn ac iddo ffocws ar y teulu cyfan, ynghyd â gwaith amlasiantaeth effeithiol a phroses rhannu gwybodaeth dryloyw.

6.21 Nid yw cael rhiant yn y carchar yn bryder diogelu ynddo'i hun. Rhaid i bob asiantaeth sicrhau diogelwch effeithiol wrth gynnal hawliau plant i gynnal cyswllt â'u rhieni. Rhaid ystyried diogelu plant hefyd ar bob cam o daith rhiant trwy'r system cyfiawnder troseddol, nid dim ond pan fydd y rhiant yn y ddalfa.

**Monitro a gwerthuso** **(argymhellion 7.15-7.17)**

6.22 Mae ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol yn disgrifio effaith sylweddol a pharhaus carchariad rhiant ar blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran gwella deilliannau i blant a phobl ifanc yn parhau i fod yn anghyson, yn enwedig o ran eu haddysg a'u llesiant. At hynny, dim ond ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch yr effaith ar grwpiau penodol o blant a'r hyn sy'n gweithio iddynt. Dylid ystyried a ddylai fframweithiau sicrhau ansawdd ac arolygu ledled meysydd Cyfiawnder Troseddol, Addysg ac Iechyd y Cyhoedd gydnabod bod plant y mae carchariad riant yn effeithio arnynt yn grŵp penodol.

## 7. Argymhellion

7.1 Wrth ddatblygu model cymorth ar gyfer Cymru gyfan i blant a chanddynt riant yn y carchar, mae ASPIRE yn argymell y dylid rhoi sylw i’r ystyriaethau a'r camau cysylltiedig a nodir isod. Pan ddefnyddir y term 'ysgol', mae hyn yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig, ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS).

**Dull hawliau plant seiliedig ar gryfderau** (canfyddiadau 4.2-4.19)

7.2 Argymhelliad 1: sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ar bob cam o daith rhiant trwy’r system gyfiawnder, gan gydnabod bod plant a chanddynt riant yn y system cyfiawnder troseddol yn haeddu cymorth trwy eu hawl eu hunain ac nid fel modd o ddylanwadu ar y broses o adsefydlu eu rhiant.

Cam gweithredu a awgrymir: ymgorffori'r CCUHP yn llawn yng nghyfraith ddomestig Cymru.

Cam gweithredu a awgrymir: cefnogi’r broses o hwyluso Fforwm Plant a Phobl Ifanc i lywio‘r gwaith o ddylunio model ar gyfer Cymru gyfan a pholisïau ac arferion cysylltiedig.

Cam gweithredu a awgrymir: cefnogi'r defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Blant ar bob cam o daith rhiant trwy'r system cyfiawnder troseddol i sicrhau bod plant yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen.

**Polisïau ac adnoddau** (canfyddiadau 4.20-4.43)

7.3 Argymhelliad 2: sefydlu ymrwymiad cyson, gweladwy, ledled Cymru i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, gan gynnwys model comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iddynt, sy'n hyrwyddo cydweithrediad, cynaliadwyedd a chymorth ledled y wlad.

Cam gweithredu a awgrymir: datblygu strategaeth ledled Cymru ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, wedi'i gyd-ddatblygu gyda phlant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o gael rhiant yn y carchar.

Cam gweithredu a awgrymir: ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr trawsadrannol, megis Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Comisiynydd Camdriniaeth Ddomestig, gydnabod a gwneud ymdrechion i fynd i'r afael ag anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: adolygu'r polisïau, y canllawiau a'r fframweithiau cyfredol (fel y nodwyd yn yr adran gefndir) er mwyn ystyried y modd y maent yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: ariannu model partneriaeth trydydd sector cenedlaethol i liniaru cystadleuaeth rhwng darparwyr y trydydd sector, cefnogi cydweithrediad, ac adeiladu ar arferion da cyfredol ledled Cymru.

Cam gweithredu a awgrymir: ariannu model cymorth ar gyfer 'pum mlynedd a dwy flynedd'[14] (i adlewyrchu contractau cymorth i deuluoedd yr HMPPS).

**Mynediad canolog at wybodaeth ac adnoddau** (canfyddiadau 4.44-4.52)

7.4 Argymhelliad 3: sicrhau bod pob plentyn a theulu yng Nghymru y mae carchariad yn effeithio arnynt yn cael mynediad at gymorth cyson a phriodol.

Cam gweithredu a awgrymir: nodi arweinydd Gweinidogol ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt i sicrhau bod anghenion plant a chanddynt riant yn y carchar yn aros ar yr agenda wleidyddol ac yn cael eu cydnabod ac yr ymatebir iddynt mewn deddfwriaethau ledled adrannau Llywodraeth Cymru.

Cam gweithredu a awgrymir: comisiynu'r broses o ddatblygu hwb adnoddau canolog ledled Cymru ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, sy'n cynnwys:

- datblygu a darparu hwb gwybodaeth ar-lein (wedi'i integreiddio i hwb gwybodaeth sy'n bod yn barod yng Nghymru, megis Hwb Cymru)
- cyflwyno a hwyluso rhwydwaith hyrwyddwyr amlasiantaeth

Cam gweithredu a awgrymir: cynnal adolygiad o'r gwasanaethau targededig presennol ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt er mwyn sicrhau dull hyblyg ond cyson, a bod hawliau plant, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, a dulliau seiliedig ar gryfderau yn ganolog.

**Gwaith amlasiantaeth** (canfyddiadau 4.53-4.66)

7.5 Argymhelliad 4: annog diwylliant o gydweithio i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

[14] Hyd y contract

Cam gweithredu a awgrymir: cydlynu cyfarfodydd rheolaidd er mwyn i randdeiliaid amlasiantaeth ddod ynghyd i rannu ymarfer, mynd i'r afael â heriau cyffredin, a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a hyfforddiant amlddisgyblaeth.

Cam gweithredu a awgrymir: darparu cyllid ar gyfer mentrau ysgolion/carchardai sy'n darparu cyswllt cadarnhaol rhwng plant a'u rhiant yn y carchar ac yn gwella deilliannau addysgol a llesiant i blant.

**Hyfforddiant** (canfyddiadau 4.67-4.81)

7.6 Argymhelliad 5: datblygu dealltwriaeth fanwl o'r dirwedd hyfforddi bresennol yng Nghymru o ran plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: ymgymryd ag ymarfer i fapio'r ddarpariaeth hyfforddiant gyfredol ynghylch plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Dylai'r ymarfer mapio gynnwys adolygiad o'r canlynol:

- Pwy sydd wedi cael hyfforddiant: pa sectorau, ym mha rannau o Gymru, faint o unigolion, pa sefydliadau/ysgolion?
- Y math o hyfforddiant a ddarperir: ar-lein neu wyneb yn wyneb, ac ym mha leoliadau?
- Cynnwys yr hyfforddiant: gan gynnwys yr egwyddorion sylfaenol a'r deilliannau dysgu
- Llais y plentyn: sut y mae plant wedi bod yn rhan o'r broses ddatblygu/gyflwyno?
- Gwerthuso'r hyfforddiant ac adborth: a oes tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio?

7.7 Argymhelliad 6: meithrin ymwybyddiaeth o effaith carchariad rhiant ar draws yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yng Nghymru, gan sicrhau bod yr holl raglenni hyfforddi ynghylch plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt a ariennir neu a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru yn darparu negeseuon cyson; eu bod yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin (yn ystyriol o drawma, yn dileu stigma, yn canolbwyntio ar hawliau plant, ac yn seiliedig ar gryfderau); eu bod yn hygyrch i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ledled Cymru; a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael eu monitro'n unol â set gyffredin o ddeilliannau dysgu.

Cam gweithredu a awgrymir: integreiddio effaith carchariad rhiant mewn modelau hyfforddi Cymru gyfan sy'n bodoli eisoes (megis ACEs a phecynnau hyfforddi sy'n ystyriol o drawma).

Cam gweithredu a awgrymir: datblygu Siarter[15], mewn cydweithrediad â phlant a phobl ifanc, i alluogi ymarferwyr i ddangos y modd y maent yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar.

Cam gweithredu a awgrymir: datblygu cyfres graidd o egwyddorion ar gyfer unrhyw raglen hyfforddi ledled Cymru ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, sy'n cyd-fynd â'r Siarter ac wedi'i llywio gan blant a phobl ifanc.

Cam gweithredu a awgrymir: sicrhau bod pob darparwr hyfforddiant a gomisiynir neu a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru yn adolygu ei raglenni hyfforddi ac yn dangos ei fod yn bodloni egwyddorion Cymru gyfan.

Cam gweithredu a awgrymir: cysylltu'r holl arlwy hyfforddiant â hwb canolog Cymru ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, fel bod set gyson o adnoddau ac offer yn cyd-fynd â'r holl hyfforddiant.

Cam gweithredu a awgrymir: sicrhau bod hwb canolog Cymru ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn cynnwys arlwy hyfforddiant cydgysylltiedig ledled Cymru.

Cam gweithredu a awgrymir: sefydlu set gyffredin o ddeilliannau dysgu (wedi'u llywio gan blant a phobl ifanc) a ffurflenni gwerthuso cysylltiedig ar draws pob rhaglen hyfforddi.

**Adnabod** (canfyddiadau 4.82-4.94)

7.8 Argymhelliad 7: sicrhau bod y trafodaethau parhaus ynghylch adnabod plant a chanddynt riant yn y carchar yn osgoi caniatáu i stigma barhau, ac nad ydynt yn negyddu'r chwe elfen allweddol, sef diogelwch, ymddiriedaeth, dewis, cydweithio, grymuso ac ystyriaeth ddiwylliannol, sy'n hanfodol i ymarfer sy'n ymateb i drawma (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae sensitifrwydd o ran dulliau a diben y broses adnabod, yn ogystal ag o ran y defnydd ohoni, yn hollbwysig.

Cam gweithredu a awgrymir: sefydlu gweithgor amlasiantaeth, sy'n cynnwys aelodau o deuluoedd a chanddynt brofiad bywyd, i ymateb i ganfyddiadau prosiect

[15] Gallai Siarter fod yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a amlinellir ym Mhecyn Cymorth Asesu'r Effaith at Blant yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

ASPIRE ac i gytuno ar ganllawiau Cymru gyfan ar gyfer adnabod plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar.

7.9 Argymhelliad 8: cefnogi ysgolion i greu amgylcheddau lle mae teuluoedd a phlant yn teimlo'n ddiogel i ddatgelu gwybodaeth, a lle mae staff yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod sut i ymateb i'r datgeliad hwnnw a darparu cymorth priodol.

Cam gweithredu a awgrymir: datblygu, yn unol ag argymhelliad 6, Siarter[16], mewn cydweithrediad â phlant a phobl ifanc, i alluogi ymarferwyr i ddangos y modd y maent yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar.

7.10 Argymhelliad 9: cefnogi carchardai i greu amgylcheddau lle mae rhieni yn y ddalfa yn teimlo'n ddiogel i ddatgelu bod ganddynt blant, a lle mae staff yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod sut i gynorthwyo rhieni yn y carchar i ymgysylltu ag ysgol eu plentyn, os yw hynny'n briodol.

Cam gweithredu a awgrymir: sicrhau bod carchardai a darparwyr canolfannau ymwelwyr carchardai wedi llofnodi'r Siarter uchod, a'u bod yn dangos eu bod yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

**Cynnwys pob plentyn yn y cymorth** (canfyddiadau 4.95-4.110)

7.11 Argymhelliad 10: sicrhau bod y cymorth a gynigir i blant a chanddynt riant yn y carchar yn gyson ledled Cymru, ond yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion.

Cam gweithredu a awgrymir: penodi arweinydd trawslywodraethol ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt i oruchwylio'r polisïau, yr arferion, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: sicrhau bod strategaeth Cymru gyfan ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn ymateb i anghenion **pob** plentyn.

7.12 Argymhelliad 11: cydnabod na all cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar ddibynnu ar ddarpariaeth yn y carchar yn unig a bod gan ysgolion, meithrinfeydd, unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), gwasanaethau ieuenctid a cholegau, yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol a statudol eraill a rhai'r trydydd sector, rôl hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi plant.

[16] Gallai Siarter fod yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a amlinellir ym Mhecyn Cymorth Asesu'r Effaith at Blant yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

Cam gweithredu a awgrymir: annog (a, lle bo'n bosibl, ei gwneud yn ofynnol) bod staff o'r holl wasanaethau sy'n cefnogi plant (boed yn rhai cyffredinol, statudol neu drydydd sector) yn cael hyfforddiant ar effaith carchariad rhiant ar blant a theuluoedd, sy'n cynnwys ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Cam gweithredu a awgrymir: meithrin partneriaethau rhwng ysgolion a charchardai trwy weithredu model megis y Parth Ysgolion ym mhob carchar yng Nghymru (gan ddefnyddio technoleg ar-lein i gefnogi partneriaethau mewn carchardai eraill lle mae rhieni plant sy'n byw yng Nghymru yn y ddalfa), gan fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau a nodwyd yn astudiaeth achos CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc (para. 3.18-3.25.

7.13 Argymhelliad 12: sicrhau bod unrhyw fodel ar gyfer Cymru gyfan yn darparu cymorth i rieni a gofalwyr plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau (megis grwpiau cymorth cymheiriaid) i rieni/ofalwyr yn y gymuned mewn unrhyw fodel cymorth ledled Cymru i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

**Diogelu** (canfyddiadau 4.111-4.118)

7.14 Argymhelliad 13: sicrhau bod gan bob asiantaeth sy'n gweithio i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar bolisïau diogelu plant cadarn ar waith a bod y rhain yn cael eu cyfleu'n glir i bob sefydliad partner.

Cam gweithredu a awgrymir: cynnwys diogelu fel safon allweddol yn y Siarter i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: cynnwys diogelu plant fel eitem sefydlog ar yr agenda o fewn grŵp llywio cenedlaethol amlasiantaeth ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: cynnwys diogelu plant ym mhob hyfforddiant sy'n ymwneud â phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

**Monitro a gwerthuso** (canfyddiadau 4.119-4.128)

7.15 Argymhelliad 14: datblygu gwell dealltwriaeth o nifer y plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt ledled Cymru, a'u hanghenion.

Cam gweithredu a awgrymir: cydweithio â'r SHRN (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, 2024) i archwilio’r posibilrwydd o gasglu data ar blant a chanddynt riant yn y carchar fel categori penodol[17].

Cam gweithredu a awgrymir: ystyried setiau data eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru a’r modd y gellir eu defnyddio i lywio gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch profiadau plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

7.16 Argymhelliad 15: sicrhau bod canlyniadau'n ganolog i unrhyw fodel cymorth ledled Cymru ar gyfer plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

Cam gweithredu a awgrymir: gweithio gyda phlant a rhanddeiliaid amlasiantaeth allweddol i nodi canlyniadau CAMPUS ar gyfer strategaeth ledled Cymru, sy’n seiliedig ar hawliau plant, y gellir cynllunio a monitro gwasanaethau ac ymyraethau yn unol â nhw.

7.17 Argymhelliad 16: sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddiffinio beth yw eu hanghenion, fel bod cynnydd yn cael ei fonitro yn unol â chanlyniadau sy'n cael eu llywio gan eu hanghenion unigryw.

Cam gweithredu a awgrymir: cefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Blant (Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022) yn eu hymarfer, a hynny trwy integreiddio hyn mewn rhaglenni hyfforddi a darparu dolen ar hwb adnoddau canolog i ymarferwyr yng Nghymru.

[17] Mae'r SHRN wedi nodi y byddai’n croesawu sgyrsiau pellach ynghylch cynnwys plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn eu set ddata. Rhaid gwneud ceisiadau am ddata newydd ar ddechrau blwyddyn y cylch arolygon (erbyn mis Ionawr 2025). Ceir rhagor o wybodaeth yn: shrn@cardiff.ac.uk.

## 8. Cyfeiriadau


Barnardo's. (2012). Cymorth i deuluoedd i blant a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Barnardo's. (2014). Plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Barnardo's. (2024). Pecyn Cymorth y Cytundeb Waliau Anweledig [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Beresford, S. (2018). What about me? The impact on children when mothers are involved in the criminal justice system. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017).

Brown, M. (2020). 'School counselor conceptualizations of the needs of children of incarcerated parents'. Adolygiad Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. 112, tt. 1-9

Children Heard and Seen. (2020). Polisi ysgol enghreifftiol [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Plant Carcharorion yn Ewrop. (2022a). Reading between the lines: a toolkit to help schools support children with a parent in prison. Paris: Plant Carcharorion yn Ewrop.

Plant Carcharorion yn Ewrop. (2022b). 'Building partnerships between schools and prisons: briefing paper'. Paris: Plant Carcharorion yn Ewrop.

Comisiynydd Plant Cymru. (2022). Y Ffordd Gywir – Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Clancy, A. a Maguire, M. (2017). Prisoners' children and families: Can the walls be 'invisible'? Gwerthusiad o Waliau Anweledig Cymru. Cymru: Prifysgol De Cymru.

Condry, R. a Scharff Smith, P. (2018). Prisons, Punishment, and the Family: towards a new sociology of punishment? Rhydychen, Y Deyrnas Unedig; Efrog Newydd, Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Cyngor Ewrop. (2018). Recommendation CM/Rec(2018)5 of the Committee of Ministers to member States concerning children with imprisoned parents (2019) [ar-lein]. Cyrchwyd ar 28 Awst 2023.

Doka, K.J. (1989). Galar diymgeledd. Yn: Disenfranchised Grief: Recognizing Hidden Sorrow. Lexington Books/D. C. Heath a'r Cwmni, tt.3–11.

Estyn. (2020). Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Yr Arglwydd Farmer. (2017). The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime: Adroddiad terfynol Adolygiad Farmer [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Felitti, V.J. et al. (1998). 'Relationship of Childhood Abuse and Household Dysfunction to Many of the Leading Causes of Death in Adults'. American Journal of Preventive Medicine, 14(4), tt.245–258. doi:https://doi.org/10.1016/s0749-3797(98)00017-8.

GovNet Justice. (2020). The Resettlement Passport: What is it and how does it work? [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2019). Strategaeth teuluoedd ac eraill arwyddocaol. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

Jones, A. et al. (2013). COPING: Children of Prisoners: Interventions and Mitigations to Strengthen Mental Health [ar-lein] Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Kincaid, S., Roberts, M. a Kane, E. (2019). Children of prisoners: fixing a broken system. Crest Advisory.

Mannay, D. et al. (2015). Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru {ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

McGillivray, C. (2016). Rendering Them Visible: A Review of Progress Towards Increasing Awareness and Support of
Prisoners' Families. Caeredin: Families Outside.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024). Official Statistics in Development: Estimates of children with a parent in prison. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2019). Fframwaith Polisi Cymelliadau [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. (2019). Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru [ar-lein]. Cyrchwyd ar 29 Awst 2023.

Minson, S. (2017). Who cares? Analysing the place of children in maternal sentencing decisions in England and Wales. Traethawd Ymchwil DPhil.

Minson, S. (2020). Maternal Sentencing and the Rights of the Child. Cham, Y Swistir: Palgrave Macmillan.

Murray, J., a Murray, L. (2010). 'Parental incarceration, attachment and child psychopathology'. Attachment and Human Development, 12(4), tt.289-309.

Pilotto, F. (2024). 'Imprisoned mothers: experiences of motherhood between detention facilities and children's schools'. Seminar y Scottish Centre for Crime & Justice Research, Prifysgol Napier, 26 Mehefin 2024.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). (2022). A Child Impact Assessment framework [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Raikes, B. (2021). Making sense of the impact of imprisonment on children and families. Traethawd ymchwil a gyflwynwyd i rannol gyflawni'r gofynion ar gyfer gradd Doethur mewn Athroniaeth.

Rees, A., Staples, E. a Maxwell, N. (2017). Final report June 2017: Evaluation of Visiting Mum Scheme [ar-lein]. Cyrchwyd ar 15 Awst 2023.

Rees, A., Maxwell, N., Lyttleton-Smith, J., a Staples, E. (2022). 'Visiting Mum: Children's Perspectives on a Supported Scheme When Visiting Their Mother in Prison'. Child Care in Practice 28(3), tt. 247-262. 10.1080/13575279.2020.1769025.

Rees, A., Waits, C. a Bezeczky, Z. (2023). Together a Chance. Evaluation of the Social Worker for Mothers in Prison pilot project, 2021-2023: Ail adroddiad interim [ar-lein]. Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd ar 20 Medi 2023.

Rees, A., Waits, C. a Bezeczky, Z. (2024). Together a Chance. Evaluation of the Social Worker for Mothers in Prison pilot project, 2021-2023: Adroddiad terfynol [ar-lein]. Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd ar 30 Awst 2024.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 [ar-lein] Cyrchywd ar 12 Gorffennaf 2024.

Roberts, S. (2012). The Role of Schools in Supporting Families Affected by Imprisonment. Caeredin: Families Outside.

Robertson, O. (2011). Collateral Convicts: Children of incarcerated parents. Swyddfa Cenhedloedd Unedig y Crynwyr.

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2020). National data [ar-lein] Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Storybook Dads. (2024). The difference we make to families [ar-lein]. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Sutherland, L. a Wright, P. (2017). Supporting children and families affected by a family member's offending – A Practitioner's Guide [ar-lein]. Cyrchwyd ar 14 Medi 2024.

Triangle Consulting Social Enterprise Ltd. (2024). Outcomes Star [ar-lein]. Cyrchwyd ar 5 Awst 2024.

Turney, K. (2018). 'Adverse childhood experiences among children of incarcerated parents'. Children and Youth Services Review, 89, tt.218–225. doi:https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2018.04.033.

UNICEF. (dim dyddiad). Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Cyrchwyd ar 28 Awst 2024.

Warren J.M., Coker, G.L. a Collins, M.L. (2019). 'Children of Incarcerated Parents: Considerations for Professional School Counselors. The Professional Counselor, 9(3), tt.185-199.

Weaver, B. a Nolan, D. (2015) Families of Prisoners: A review of the evidence [ar-lein] Cyrchwyd ar 23 Awst 2024.

Llywodraeth Cymru. (2017a). Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf [ar-lein]. Cyrchwyd ar 5 Awast 2024.

Llywodraeth Cymru. (2017b). Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltu a chymorth [ar-lein]. Cyrchwyd ar 27 Awst 2024.

Llywodraeth Cymru. (2018). Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru [ar-lein] Cyrchwyd ar 5 Awst 2024.

Llywodraeth Cymru. (2021). Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; Addysg Cymru

Llywodraeth Cymru. (2022). Working definition of trauma-informed practice [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Llywodraeth Cymru. (2023). Cymorth i rieni Cefnogi eich plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar [ar-lein]. Cyrchwyd ar 29 Awst 2023.

Llywodraeth Cymru. (2024). Cynllun plant a phobl ifanc [ar-lein] Cyrchwyd ar 5 Awst 2024.

Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru. (Dim dyddiad). Cwricwlwm i Gymru Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2018). 2018-2023. Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru [ar-lein]. Cyrchwyd ar 29 Awst 2023.

## Atodiad A: Sefydliadau yn y DU sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael eu hamlygu mewn glas

| Enw'r sefydliad | Disgrifiad | Y Wefan |
|---|---|---|
| Gweithredu dros Blant | Elusen ledled y DU sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ac sy'n darparu canolfan ymwelwyr yn CEF Grampian | Cartref – Action for Children |
| Apex Scotland | Elusen cyfiawnder troseddol genedlaethol yn yr Alban a chanddi wasanaethau sy'n cynnwys cynnal canolfan ymwelwyr yn CEF Inverness | Apex Highland |
| Barnardo's | Elusen ledled y DU sy'n cefnogi plant a theuluoedd, ac y mae ei gwasanaethau'n cynnwys gwaith arbenigol sy'n canolbwyntio ar blant a chanddynt riant yn y carchar. Mae'n darparu rhaglenni hyfforddi, canolfannau ymwelwyr mewn carchardai (CEF Berwyn, CEF Ynys Wyth, CEF Caeredin) a chymorth yn y gymuned ac ar-lein | Plant a chanddynt riant neu berthynas yn y carchar \| Barnardo's (barnardos.org.uk) |
| Children Heard and Seen | Elusen sy'n gweithio ar draws Lloegr i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae'n cynnig cymorth 1-1, gwasanaeth mentora gwirfoddol, cymorth i rieni, grwpiau cymorth cymheiriaid i blant, gweithgareddau ar-lein i blant, a diwrnodau gweithgareddau | Cartref – Children Heard and Seen |
| Corona Kids | Sefydliad yn Llundain sy'n darparu hyfforddiant Hidden Sentence a hyfforddiant ar brofiadau ymweld â charchardai ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant. Mae hefyd yn darparu prosiectau cymorth i gryfhau rhwymau teuluol ac arfogi ysgolion. | Corona Kids |
| The Croft | Wedi'i sefydlu'n benodol ar gyfer ymweliadau â CEF Barlinnie i groesawu ymwelwyr, darparu | Canolfan Ymwelwyr â'r Carchar The Croft |

| | | |
|---|---|---|
| | gwybodaeth iddynt, a'u cysylltu â chymorth | |
| CrossReach | Cangen gyflenwi Cyngor Gofal Cymdeithasol Eglwys yr Alban, dan gontract gan Gyfiawnder Cymunedol Llywodraeth yr Alban i ddarparu canolfannau ymwelwyr yn CEF Perth, a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont. | Canolfan Cymorth a Chyngor i Ymwelwyr â CEF Perth<br>Canolfan Ymwelwyr â'r Carchar Polmont |
| Cyrenians | Sefydliad yn yr Alban sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd ac yn cynnal canolfan ymwelwyr yn CEF Addiewell | Canolfan Ymwelwyr CEF Addiewell |
| Early Years Scotland | Elusen yn yr Alban sy'n rhedeg y Rhaglen Plant Ifanc y mae Carchariad Rhiant yn Effeithio Arnynt (Rhaglen Tadau a sesiynau Dysgu Gyda'n Gilydd Trwy Chwarae) mewn chwe charchar yn yr Alban, yn ogystal â gwasanaethau i ymwelwyr â'r carchar yn CEF Greenock a CEF Low Moss. | Gwasanaethau Carchardai Early Years Scotland |
| The Ebb | Cymorth yng Nghaerlŷr i deuluoedd carcharorion | The Ebb |
| Every Family | Comisiynwyd gan Gyngor Dinas Bryste a Chyngor De Swydd Gaerloyw i ddatblygu dull strategol o gefnogi plant y mae trosedd rhiant yn effeithio arnynt. | Plant y mae Trosedd Rhiant yn Effeithio Arnynt \| everyFAMILY |
| Rhaglen Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI) | Rhaglen strategol amlasiantaethol i wella'r cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac sy'n cynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol | Rhaglen Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI) 2023 \| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion De-orllewin Cymru (FFOPS) | Darparu cymorth trwy gyfrwng canolfan galw heibio i deuluoedd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn Ne-orllewin Cymru yn effeithio arnynt | Amdanom Ni — FFOPS |
| Families First, YSS | Mae'n darparu cymorth i blant yn Swydd Gaerwrangon a chanddynt aelod agos o'r teulu (rhiant, tad-cu, brawd neu chwaer) yn mynd trwy'r system cyfiawnder troseddol ar y | Families First \| YSS |

| | | |
|---|---|---|
| | pryd, a hynny o'r adeg y caiff yr aelod ei arestio i ddiwrnod ei ryddhau o'r carchar. | |
| Families Outside | Yr unig elusen genedlaethol yn yr Alban sy'n gweithio'n benodol i gefnogi plant a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt. Mae'n gwneud hynny trwy ddarparu hyfforddiant proffesiynol, cymorth gan gymheiriaid, cymorth 1-1, llinell gymorth genedlaethol a datblygiad strategol | Help, gwybodaeth a chymorth i deuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt \| Families Outside |
| Forth Valley Inclusion | Sefydliad elusennol seiliedig ar ffydd sy'n darparu cymorth i bobl yn y carchar a'u hymwelwyr yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stirling a CEF Glenochil | Cartref – Forth Valley Inclusion |
| Getting Better Together Ltd | Menter iechyd yn y gymuned sy'n hyrwyddo addysg, iechyd a llesiant preswylwyr Gogledd Swydd Lanark, gan gynnwys rhedeg canolfan ymwelwyr â'r carchar yn CEF Shotts | Prosiect Amser Teulu CEF Shotts |
| Himaya Haven | Sefydliad yn Birmingham sy'n canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | Himaya Haven |
| Waliau Anweledig Cymru | Cwmni Buddiant Cymunedol sy'n darparu cymorth i deuluoedd, hyfforddiant, gwasanaethau canolfannau ymwelwyr (yn CEF y Parc, CEF Caerdydd, CEF Brynbuga, a CEF Prescoed), a chymorth mewn ysgolion | Cartref – Waliau Anweledig |
| Jigsaw | Yn darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn CEF Leeds a CEF Wealstun | CARTREF \| Jigsawcharity |
| Lincolnshire Action Trust | Yn darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn carchardai ledled Swydd Lincoln | Cymorth i Deuluoedd ac Eraill Arwyddocaol – Lincolnshire Action Trust (latcharity.org.uk) |
| Canolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant | Cyfeiriadur ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol yng Nghymru a Lloegr i gefnogi gwaith gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. | NICCO |

| | | |
|---|---|---|
| Troseddwyr (NICCO) | | |
| NEPACS | Mae'r elusen hon, sy'n gweithio yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, yn darparu gwasanaethau canolfannau ymwelwyr â charchardai, a chymorth 1-1 a chymorth grŵp i blant a theuluoedd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn effeithio arnynt. | Nepacs |
| NIACRO | Gan weithio ar draws Gogledd Iwerddon, nod yr elusen yw lleihau trosedd a'r effaith ar deuluoedd, a darparu gwasanaethau canolfannau ymwelwyr, cymorth 1-1 a chymorth gwaith grŵp | NIACRO \| |
| One Small Thing | Sefydliad yn Llundain sy'n darparu hyfforddiant i ymarferwyr yn y sectorau cymunedol a chyfiawnder ar effaith trawma | One Small Thing |
| Ormiston | Yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi teuluoedd y mae carchariad neu ymddygiad troseddol perthynas yn effeithio arnynt, gwasanaethau sy'n cynnwys rhedeg canolfannau ymwelwyr mewn wyth carchar yn ne-ddwyrain Lloegr, a'r gwasanaeth Breaking Barriers, sy'n cynnig cymorth 1-1 i blant a phobl ifanc | Gweithio gyda theuluoedd y mae troseddu'n effeithio arnynt – Ormiston Families |
| Out There | Elusen sy'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol a gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd carcharorion ym Manceinion Fwyaf. | Yr elusen Out There (SFOP) – Manceinion 0161 232 8986 (outtherecharity.org) |
| Pact: | Elusen genedlaethol sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr ac yn darparu ystod sylweddol o wasanaethau i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, gan gynnwys cymorth yn yr ysgol, hyfforddiant proffesiynol, cymorth 1-1 a chymorth gwaith grŵp, a chanolfannau ymwelwyr mewn mwy na 60 o garchardai (sy'n cynnwys CEF Abertawe, CEF Style a CEF Eastwood Park) | Cartref – Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) |

| | | |
|---|---|---|
| POPS (Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion) | Yn darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn un ar ddeg o garchardai ledled gogledd-orllewin Lloegr | Partneriaid Carcharorion \| Mae POPS yn darparu gwybodaeth a chymorth i deuluoedd troseddwyr o adeg eu harestio hyd at eu rhyddhau, a thu hwnt. |
| Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). | Elusen annibynnol yn y DU sy'n gweithio i greu system gosbi gyfiawn, drugarog ac effeithiol. Mae wedi llunio adnoddau i gefnogi gwaith gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac mae'n ymgyrchu ar eu rhan. | 'This is Me': Pecyn cymorth Asesiad o'r Effaith ar Blant \| Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai |
| Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion | Gwasanaeth ledled Cymru a Lloegr a ddarperir gan Pact ac sy'n gweithredu llinell gymorth am ddim a hwb gwybodaeth ar-lein i deuluoedd. | Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion (prisonersfamilies.org) |
| Spurgeons | Elusen genedlaethol i blant sy'n gweithio ledled Lloegr. Mae'n darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn CEF Caer-wynt, yn ogystal â gwasanaeth ailsefydlu trwy'r gât i gefnogi teuluoedd | BTWBTG \| Help for Released Prisoners UK (spurgeons.org) |
| Canolfan Gymunedol Summerhill | Elusen leol yn Dumfries a chanddi ymrwymiad Dysgu a Datblygu Cymunedol i wella amodau bywyd a rhyddhad tlodi i bob oed yn y gymuned ehangach. Yn cynnwys datblygiad personol mewn Addysg, Hamdden, Chwaraeon, Iechyd a Llesiant, cynulliadau cymdeithasol, a gweithgareddau amgylcheddol | Gwasanaeth Ymwelwyr â Charchar Summerhill |
| Sussex Prisoners Families | Elusen leol sy'n gweithio yn Sussex i gefnogi plant a theuluoedd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn effeithio arnynt, a hynny trwy gyfrwng gwaith 1-1, gwaith grŵp a gweithgareddau | Cartref – Sussex Prisoners' Families (sussexprisonersfamilies.org.uk) |
| Time Matters UK | Elusen yng Nglannau Mersi sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, a hynny mewn grwpiau ac yn unigol, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau mewn cydweithrediad â phobl ifanc i gefnogi | Cartref – Time-Matters UK (timemattersuk.com) |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithwyr proffesiynol, plant a'u teuluoedd | |
| Y Bont | Elusen yng Nghymru sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd, am ba reswm bynnag, wedi eu gwahanu, neu mewn perygl o gael eu gwahanu, oddi wrth eu teuluoedd (gan gynnwys y rhai y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt). Mae'r sefydliad yn cynnig gwasanaeth cwnsela, rhaglenni grŵp, a chymorth 1-1 | Y Bont \| Helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd |

## Atodiad B: Aelodau'r grŵp cynghori arbenigol

Pact

HMPPS - Y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder

HMPPS - Lleihau Aildroseddu

Clinks

Tîm Lles Addysg - Blaenau Gwent

HMPPS - Y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder

Arbenigwr trwy brofiad - Unigolyn ifanc â mam yn y carchar gynt

Arbenigwr trwy brofiad - Mam yn y carchar gynt

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

G4S - Waliau Anweledig Cymru

Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI)

Barnardo's

Pact

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Llywodraeth Cymru - addysg

HMPPS

HMPPS Cymru

## Atodiad C: Cwestiynau’r arolwg sylfaenol

1. Ym mha sector ydych chi'n gweithio? Addysg Prawf Carchardai Sector Gwirfoddol Iechyd Gwaith Cymdeithasol Arall:________________

2. Beth yw eich rôl o fewn y sector hwn? (Gall fod yn hael)

3. Pa bolisïau, fframwaith neu ganllawiau cyfredol ydych chi'n ymwybodol ohonynt sy'n llywio gwaith gyda phlant/teuluoedd y mae carchariad yng Nghymru yn effeithio arnynt?

4. Pa adnoddau sydd ar gael i gefnogi plant/teuluoedd y mae carchariad yng Nghymru yn effeithio arnynt?

5. Beth mae carchardai Cymru yn ei wneud i gefnogi tadau yn y carchar a'u plant?

6. Beth mae HMPs Styal a Pharc Eastwood yn ei wneud i gefnogi mamau o Gymru a'u plant?

7. Beth mae ysgolion Cymru yn ei wneud i gefnogi plant gyda rhiant yn y carchar?

8. Pa fathau eraill o gymorth i blant sydd â rhiant yn y carchar, nad ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol neu'r carchar, ydych chi'n ymwybodol ohonynt?

9. Beth yw eich dull wrth weithio gyda phlentyn gyda rhiant yn y carchar neu gyda rhiant yn y ddalfa? (Er enghraifft, efallai y byddwch yn defnyddio rhai deunyddiau cymorth, cyfeirio plant at asiantaethau penodol, neu gynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd lle trafodir cefnogaeth i blant)

10. a) Beth ydych chi'n meddwl yw'r materion allweddol y mae angen i dîm ASPIRE eu hystyried wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer model Cymru gyfan ar gyfer gwella canlyniadau i blant y mae carcharu rhieni yn effeithio arnynt? b) Ym mha ffyrdd y gallai cydweithrediad ysgol/carchar gefnogi hyn?

11. Nodwch unrhyw heriau posibl y mae angen i'r tîm ASPIRE fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer model cenedlaethol ar gyfer gwella canlyniadau i blant y mae carchariad rhieni yn effeithio arnynt yng Nghymru.

12. Nodwch unrhyw heriau posibl y mae angen i'r tîm ASPIRE fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer model cenedlaethol ar gyfer gwella canlyniadau i blant y mae carchariad rhieni yn effeithio arnynt yng Nghymru.

13. A oes unrhyw beth yr hoffech i dîm ASPIRE wybod/bod yn ymwybodol ohono ar y cam hwn o'r prosiect?

## Atodiad D: Cwestiynau’r cyfweliadau a’r grwpiau ffocws yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

**Cam dau: Cwestiynau cyfweliad lled-strwythuredig:**

1. I ba sector/sefydliad yr ydych yn gweithio?
2. Beth yw eich rôl?
3. Sut y mae gwaith CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc gydag ysgolion wedi newid ers gwerthusiad 2017?
4. Ym mha ffordd yr ydych wedi ymwneud â'r fenter Parth Ysgolion?
5. Yn ôl eich dealltwriaeth, beth yw’r prif ganlyniadau y mae'r fenter Parth Ysgolion yn ceisio eu cyflawni?
6. Pa effaith (os o gwbl) ydych chi wedi gweld y fenter Parth Ysgolion yn ei chyflawni i garcharorion, plant, eu gofalwyr a/neu sefydliadau (er enghraifft, ysgolion, carchardai)?
7. Yn eich barn chi, pa elfennau allweddol o'r fenter Parth Ysgolion (os o gwbl) sy'n ei galluogi i fynd ati mewn modd effeithiol i ddiwallu anghenion rhieni yn y carchar a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt? (e.e. sgiliau a phrofiad y staff, y fformat, y dulliau gweithredu, y perthnasoedd rhwng y partneriaid, ac ati)
8. Beth yw'r rhwystrau sy’n atal y Parth Ysgolion rhag gweithio'n effeithiol?
9. a) Ar gyfer staff yr HMPPS: Beth yw profiadau’r staff carchar sy'n ymwneud â’r Parth Ysgolion, a pha arferion da y mae eu cyfranogiad yn eu hannog?
   b) Ar gyfer staff addysg Beth yw profiadau’r darparwyr addysg sy'n ymwneud â’r Parth Ysgolion, a pha arferion da y mae eu cyfranogiad yn eu hannog?
10. Pa ganlyniadau (os o gwbl) sy'n cael eu cyflawni ar gyfer y plant sy'n cymryd rhan yn y Parth Ysgolion o ran eu llesiant a'u haddysg?
11. Sut y mae'r canlyniadau hyn yn cael eu mesur?
12. a) Ar gyfer staff yr HMPPS: Yn eich barn chi, a yw'r fenter Parth Ysgolion wedi cael effaith ar yr agenda 'Cryfhau Cysylltiadau Teuluol' yn y system cyfiawnder troseddol? Os felly, ym mha ffordd? (A yw pobl yn fwy ymwybodol o anghenion teuluoedd carcharorion? A fu newid yn y ffordd y mae pobl yn edrych ar deuluoedd carcharorion? A fu newid o ran polisïau/arferion?)
    b) Ar gyfer staff addysg Yn eich barn chi, a yw'r fenter Parth Ysgolion wedi cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion teuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt ac wedi dylanwadu ar bolisïau/arferion? (Eglurwch.)
13. Beth yw cryfderau allweddol y fenter Parth Ysgolion?
14. Beth yw'r cyfyngiadau a'r rhwystrau o ran ei llwyddiant?
15. Pa heriau y mae'r Parth Ysgolion yn eu hwynebu o ran mynd ati mewn modd effeithiol i ddiwallu anghenion teuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt? (e.e. diwylliannau, ymwybyddiaeth, prosesau atgyfeirio, diffyg arian, ac ati)
16. Sut y mae'r Parth Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill? (ystyriwch brosesau atgyfeirio, rhannu gwybodaeth, asesiadau ar y cyd, cydweithio, datblygu strategaethau/polisïau, ac ati)

17. Beth sy'n herio gwaith partneriaeth effeithiol rhwng carchardai ac ysgolion (os oes rhywbeth yn ei herio), a sut y gellid datblygu gwaith partneriaeth ymhellach?
18. Sut y gallai'r fenter Parth Ysgolion gael mwy o effaith o ran dylanwadu ar bolisïau ac arferion yn y system cyfiawnder troseddol/addysg?
19. A allwch argymell unrhyw ffyrdd y gallai'r fenter Parth Ysgolion gael ei newid neu ei datblygu ymhellach i sicrhau bod anghenion teuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt yn cael eu diwallu ledled Cymru?
20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei wybod am y fenter Parth Ysgolion?

**Cwestiynau'r grŵp ffocws i rieni/ofalwyr:**

Mae Alma yn ffigur y mae ei llun wedi'i dynnu ar bapur siart droi. Mae Alma yn fam i Eric (gall y cyfranogwyr ddewis pa mor hen yw Eric). Mae tad Eric yn y carchar, ac mae'r teulu wedi dechrau ymwneud â'r Parth Ysgolion yn ddiweddar. Byddai'r ymchwilwyr yn hoffi cael ychydig o help i ddeall sut beth oedd profiad Alma o'r Parth Ysgolion. Dyma sylfaen y gweithgareddau sy'n dilyn.

Bydd y cwestiynau hyn yn annog y cyfranogwyr i ystyried sut beth oedd perthynas Alma ag ysgol Eric cyn i dad Eric ddod i Garchar y Parc:

- Pa fath o gyswllt y gallai Alma fod wedi'i gael ag ysgol Eric?
- Pa fath o gymorth (os o gwbl) y gallai Eric fod wedi'i gael yn yr ysgol (h.y. cymorth dysgu, cymorth emosiynol, ac ati)?
- Sut berthynas oedd gan Alma ag athrawon Eric, o bosibl?

Bydd y cwestiynau hyn yn annog y cyfranogwyr i ystyried y cymorth y gallai Eric fod wedi'i gael pan gafodd ei dad ei anfon i'r carchar gyntaf:

- A roddodd Alma wybod i'r ysgol pan gafodd tad Eric ei anfon i'r carchar? Os naddo, pam? Os felly, beth oedd yr ymateb?
- Pa fath o gymorth y gallai Eric fod wedi ei gael gan yr ysgol pan gafodd ei dad ei anfon i'r carchar?
- A oedd yna unrhyw beth a allai fod wedi ei gwneud yn anodd i Alma gael cyswllt ag ysgol Eric? (e.e. A yw profiad Alma ei hun o'r ysgol wedi effeithio ar y modd y mae'n teimlo am addysg Eric?)
- Faint yr oedd Alma yn ymwneud â'r hyn yr oedd Eric yn ei ddysgu yn yr ysgol cyn y Parth Ysgolion?
- Sut berthynas oedd gan Alma ag athrawon Eric cyn y Parth Ysgolion?

Bydd y cwestiynau hyn yn annog y cyfranogwyr i ystyried y gwahaniaeth y mae bod yn rhan o'r Parth Ysgolion wedi'i wneud i Alma, Eric a'i dad:

- Pa fath o gyswllt y mae Alma yn ei gael ag ysgol Eric trwy'r Parth Ysgolion?
- Pa fath o gymorth y mae Eric yn ei gael o'r ysgol 'nawr?
- Faint y mae Alma yn ymwneud â'r hyn y mae Eric yn ei ddysgu yn yr ysgol 'nawr?
- Sut berthynas sydd gan Alma ag athrawon Eric 'nawr?
- Pa wahaniaeth y mae'r Parth Ysgolion wedi'i wneud i Alma?

- Pa rwystrau y mae cymryd rhan yn y Parth Ysgolion wedi helpu Alma i'w goresgyn?
- Beth yw agwedd fwyaf buddiol y Parth Ysgolion?
- A yw'r Parth Ysgolion wedi newid y berthynas rhwng Eric a'i dad? Ym mha ffyrdd?
- Sut y mae'r Parth Ysgolion wedi helpu Eric?
- Sut y mae'r Parth Ysgolion wedi helpu tad Eric?
- A yw'r Parth Ysgolion wedi newid profiad Eric o addysg? Ym mha ffyrdd?
- Ym mha ffyrdd y mae'r Parth Ysgolion yn helpu Alma i wella profiad Eric o addysg (e.e. trwy gyswllt rheolaidd â'i athrawon?
- Sut brofiad fyddai hi i Alma pe na bai'r teulu'n ymwneud â'r Parth Ysgolion?
- A ydych yn credu y bydd cymryd rhan yn y Parth Ysgolion yn newid pethau gartref ac yn yr ysgol pan fydd tad Eric yn cael ei ryddhau? Ym mha ffyrdd? (DS – bydd yr hwyluswyr yn cydnabod y gallai plant rhai tadau fod wedi gadael yr ysgol cyn iddynt gael eu rhyddhau)

Bydd y cwestiynau hyn yn annog y cyfranogwyr i ystyried ffyrdd y gellid datblygu'r Parth Ysgolion:

- Sut ydych yn meddwl y gellid datblygu'r Parth Ysgolion i gynnwys plant nad oes ganddynt berthynas â'u tadau?
- A oes unrhyw beth am y Parth Ysgolion a allai fod yn well?
- A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y Parth Ysgolion nad ydym wedi'i drafod?

Bydd yr hwyluswyr yn atgoffa'r cyfranogwyr bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r prosiect hwn ddigwydd oherwydd ei bod wir am ddeall pa gymorth y mae ar blant ei angen i deimlo'n dda amdanynt eu hunain ac i wneud yn dda yn yr ysgol. Gwahoddir y cyfranogwyr i roi un neges syml yr hoffent i dîm ASPIRE ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru.

### Cwestiynau'r grŵp ffocws i blant a phobl ifanc

Bydd yr hwyluswyr yn cyflwyno Eric (neu Erica – gall y grŵp benderfynu). Mae Eric yn ffigur y mae ei lun wedi'i dynnu ar bapur siart droi. Gall y grŵp benderfynu pa mor hen yw Eric/Erica. Mae tad Eric yn y carchar. Nid oes Parth Ysgolion yn y carchar lle y mae tad Eric. Mae Eric wedi gofyn i'r grŵp ddweud wrtho am y Parth Ysgolion, a dyna hanfod y gweithgareddau.

Y cwestiwn cyntaf y mae Eric yn ei ofyn yw, 'Beth sy'n dda am y Parth Ysgolion?' Gwahoddir y cyfranogwyr i ymateb yn rhydd. Bydd cardiau cynorthwyol ar gael hefyd i helpu'r rhai a allai ei chael yn anodd siarad mewn grŵp neu nad ydynt yn siŵr sut i ddechrau. Bydd cardiau cynorthwyol i'w gweld o amgylch y llun o Eric ar y siart droi. Gall y cyfranogwyr gasglu cerdyn cynorthwyol a gorffen y frawddeg. Bydd yr awgrymiadau ar y cardiau cynorthwyol yn cynnwys: 'Mae'r Parth Ysgolion yn dda oherwydd ...'; 'Mae'r Parth Ysgolion yn fy helpu i ...'; 'Oherwydd y Parth Ysgolion, gallaf ...'; a 'Rwy'n hoffi'r Parth Ysgolion oherwydd ...'. 'Cyn i mi ymuno â'r Parth Ysgolion, roedd pethau'n ...'; 'Ers ymuno â'r Parth Ysgolion, rydw i wedi ... '

Bydd yr hwyluswyr yn egluro bod Eric yn dymuno gwybod beth nad yw cystal am y Parth Ysgolion, beth allai fod yn wahanol am y Parth Ysgolion, ac a oes gan y bobl ifanc unrhyw gwestiynau am unrhyw beth i'w wneud â'r Parth Ysgolion. Bydd rhai cardiau swigod meddwl a marciau cwestiwn o amgylch y llun o Eric ar y siart droi. Gwahoddir y cyfranogwyr i godi swigen feddwl a dweud rhywbeth y maent yn pendroni yn ei gylch, neu farc cwestiwn a lleisio eu cwestiwn (er enghraifft, 'Tybed pam nad yw'r Parth Ysgolion yn ...' neu 'Pam na allwn ni gael mwy o amser gyda'n gilydd fel teulu yn ystod y Parth Ysgolion?' O ran y pethau y maent yn pendroni yn eu cylch, anogir y cyfranogwyr i gael dull meddwl 'hudlath' ac 'awyr las'.

Gwahoddir y cyfranogwyr i godi cerdyn ac arno rôl gweithiwr proffesiynol y maent yn cael (neu y gallent gael) cyswllt ag ef (athro, swyddog carchar, rhywun o elusen sy'n cefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar, gweithiwr cymdeithasol), ac yna dweud beth bynnag y maent yn teimlo bod angen i'r person hwnnw ei glywed gan rywun a chanddo riant yn y carchar.

Bydd yr hwyluswyr yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r prosiect hwn ddigwydd oherwydd ei bod wir am ddeall pa gymorth y mae ar blant ei angen i deimlo'n dda amdanynt eu hunain ac i wneud yn dda yn yr ysgol. Gwahoddir y cyfranogwyr i roi un neges syml yr hoffent i dîm ASPIRE ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru.

### Cwestiynau'r grŵp ffocws i dadau yn y carchar

Mae Morgan yn ffigur y mae ei lun wedi'i dynnu ar bapur siart droi. Morgan yw tad Eric (gall y cyfranogwyr ddewis pa mor hen yw Eric). Mae Morgan yn y carchar, ac mae'r teulu wedi dechrau ymwneud â'r Parth Ysgolion yn ddiweddar. Byddai'r ymchwilwyr yn hoffi cael ychydig o help i ddeall sut brofiad y mae Morgan wedi'i gael gyda'r Parth Ysgolion, a dyna hanfod y gweithgareddau sy'n dilyn.

Bydd cwestiynau'n annog y cyfranogwyr i ystyried sut berthynas oedd gan Morgan ag ysgol Eric cyn bod yng Ngharchar y Parc:

- A oedd Morgan yn cael unrhyw gyswllt ag ysgol/ysgolion Eric? Os felly, sut beth oedd hynny?
- A oedd yna unrhyw beth a oedd yn ei gwneud yn anodd i Morgan gael cyswllt ag ysgol Eric? (e.e. A yw profiad Morgan ei hun o'r ysgol wedi effeithio ar y modd y mae'n teimlo am addysg Eric?)
- Faint yr oedd Morgan yn ymwneud â'r hyn yr oedd Eric yn ei ddysgu yn yr ysgol?

Bydd cwestiynau'n annog y cyfranogwyr i ystyried y modd yr oedd Morgan yn ymwneud ag addysg Eric o'r carchar cyn y Parth Ysgolion:

- Ar ôl i Morgan ddod i'r ddalfa, a oedd yn cael unrhyw gyswllt ag ysgol Eric?
- Os felly, sut beth oedd hynny?
- Os nad oedd, pa gyswllt y gallai Morgan fod wedi hoffi ei gael, a sut y gallai hyn fod wedi digwydd?

Bydd cwestiynau'n annog y cyfranogwyr i ystyried y gwahaniaeth y mae bod yn rhan o'r Parth Ysgolion wedi'i wneud i Morgan, Eric, a'i fam (Alma):

- Pa fath o gyswllt y mae Morgan yn ei gael ag ysgol Eric trwy'r Parth Ysgolion?
- Faint y mae Morgan yn ymwneud â'r hyn y mae Eric yn ei ddysgu yn yr ysgol?
- Sut berthynas sydd gan Morgan ag athrawon Eric?
- Pa wahaniaeth y mae'r Parth Ysgolion wedi'i wneud i Morgan?
- Pa rwystrau y mae cymryd rhan yn y Parth Ysgolion wedi helpu Morgan i'w goresgyn?
- Beth yw agwedd fwyaf buddiol y Parth Ysgolion?
- Sut y mae'r Parth Ysgolion wedi gwneud gwahaniaeth i berthynas Morgan ag Eric?
- Sut y mae'r Parth Ysgolion wedi helpu Eric?
- Sut y mae'r Parth Ysgolion wedi helpu mam Eric?
- A yw'r Parth Ysgolion wedi newid profiad Eric o addysg?
- Ym mha ffyrdd y mae'r Parth Ysgolion yn helpu Morgan i helpu Eric i wneud yn dda yn yr ysgol (h.y. gwneud gwaith cartref gyda'i gilydd)?
- A yw'n brofiad gwahanol i dadau o'r Uned Ymyraethau i Deuluoedd sy'n cymryd rhan yn y Parth Ysgolion o gymharu ag unedau eraill?
- A fydd cymryd rhan yn y Parth Ysgolion yn newid y ffordd y mae Morgan yn ymwneud ag ysgol Eric ar ôl iddo gael ei ryddhau? (DS – bydd yr hwyluswyr yn cydnabod y gallai plant rhai tadau fod wedi gadael yr ysgol cyn iddynt gael eu rhyddhau)

Bydd cwestiynau'n annog y cyfranogwyr i ystyried ffyrdd y gellid datblygu'r Parth Ysgolion:

- Sut ydych yn meddwl y gellid datblygu'r Parth Ysgolion i gynnwys plant nad oes ganddynt berthynas â'u tadau?
- A oes unrhyw beth am y Parth Ysgolion a allai fod yn well?
- A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y Parth Ysgolion nad ydym wedi'i drafod?

Bydd yr hwyluswyr yn atgoffa'r cyfranogwyr bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r prosiect hwn ddigwydd oherwydd ei bod wir am ddeall pa gymorth y mae ar blant ei angen i deimlo'n dda amdanynt eu hunain ac i wneud yn dda yn yr ysgol. Gwahoddir y cyfranogwyr i roi un neges syml yr hoffent i dîm ASPIRE ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru.

## Atodiad E: Cwestiynau cyfweliadau cam 4

**Cyfweliad lled-strwythuredig i blant a phobl ifanc**

a) Model cymorth cyffredinol
- Beth yw'r pethau pwysicaf i chi o ran cymorth?
- Os ydych wedi cael cymorth am fod eich mam neu eich tad yn y carchar, pa rannau ohono y byddech yn eu hargymell i bobl ifanc eraill? Pam?
- Mae ar bobl angen mathau gwahanol o gymorth ar adegau gwahanol. Pan fydd mam neu dad yn dod allan o'r carchar, pa gymorth sydd o help?

b) Rhannu gwybodaeth
- Pwy y mae angen iddynt wybod am yr hyn sydd wedi digwydd?
- Beth y mae angen iddynt ei wybod?
- Sut y dylid rhannu unrhyw wybodaeth amdanoch?

c) Hyfforddiant a dealltwriaeth
- Beth y dylai'r bobl sy'n eich cefnogi (athrawon, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, cymorth arbenigol, e.e. cwnselwyr) ei wybod am sut beth ydyw i blant sydd â rhiant yn y carchar?
- Beth y dylai staff carchardai ei wybod am sut beth ydyw i blant sydd â rhiant yn y carchar?
- Pa fath o hyfforddiant y dylai'r bobl sy'n eich cefnogi ei gael?
- Pa fath o hyfforddiant y dylai staff carchardai ei gael?
- A yw'n syniad da cynnwys y plant eu hunain yn yr hyfforddiant? Pam? Pam ddim?

d) Gweithio gyda'i gilydd
- Sut y gall sefydliadau weithio'n dda gyda'i gilydd i'ch cefnogi? Er enghraifft, a all ysgolion a charchardai gydweithio? Beth y gallent ei wneud?
- Pa mor bwysig ydyw i chi fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau amdanoch chi?
- Sut y gall sefydliadau eich cynnwys chi wrth rannu gwybodaeth/wneud penderfyniadau amdanoch?
- Ym mha ffyrdd y gallai'r bobl sy'n cefnogi chi eich cynnwys wrth wneud penderfyniadau?

e) Cymorth i bob plentyn
- Beth yw'r ffyrdd gorau o sicrhau bod pob plentyn a chanddo riant yn y carchar yn cael y cymorth y mae arno ei angen (e.e. plant nad ydynt yn ymweld â'r carchar, plant ag anghenion ychwanegol, plant y mae eu mam yn y carchar, plant a chanddynt riant yn y carchar y tu allan i Gymru, plant nad ydynt yn yr ysgol)?
- A yw'n syniad da helpu plant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar i gefnogi ei gilydd? Pam? Pam ddim? A allai hyn fod ar-lein, neu a fyddai'n well wyneb yn wyneb?

- A yw'n syniad da sicrhau bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau (llunwyr polisïau) yn clywed yn uniongyrchol gan blant a chanddynt riant yn y carchar? Pam? Pam ddim?

Cyfweliad lled-strwythuredig i rieni/ofalwyr

a) Model cymorth cyffredinol
   - Beth ydych yn meddwl yw'r pethau pwysicaf i'w hystyried neu eu cynnwys mewn perthynas â chymorth i'ch plentyn?
   - Mae ar bobl angen mathau gwahanol o gymorth ar adegau gwahanol. Pa fath o gymorth y mae ar blant ei angen pan fydd rhiant yn cael ei ryddhau o'r carchar?

b) Rhannu gwybodaeth
   - Pwy ym mywyd eich plentyn y mae angen iddynt wybod am yr hyn sydd wedi digwydd?
   - Beth y mae angen iddynt ei wybod?
   - Sut y dylid rhannu unrhyw wybodaeth am eich plentyn?

c) Hyfforddiant a dealltwriaeth
   - Beth y dylai'r bobl sy'n cefnogi plant (athrawon, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, cymorth arbenigol, e.e. cwnselwyr) ei wybod am sut beth ydyw i blant a chanddynt riant yn y carchar?
   - Beth y dylai staff carchardai ei wybod am sut beth ydyw i blant sydd â rhiant yn y carchar?
   - Pa fath o hyfforddiant y dylai pobl sy'n cefnogi plant ei gael?
   - Pa fath o hyfforddiant y dylai staff carchardai ei gael?
   - A yw'n syniad da cynnwys y plant eu hunain yn yr hyfforddiant? Pam? Pam ddim?

d) Gweithio gyda'i gilydd
   - Sut y gall sefydliadau weithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi eich plentyn? Er enghraifft, a oes unrhyw gyfathrebu da rhwng y carchar a'r ysgol neu'r ysgol a'r gweithiwr cymdeithasol/sefydliad arbenigol?
   - Pa mor bwysig ydyw i chi fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich plentyn?
   - Sut y gall sefydliadau eich cynnwys chi wrth rannu gwybodaeth/wneud penderfyniadau am eich plentyn?
   - Ym mha ffyrdd y gallai'r bobl sy'n cefnogi eich plentyn gynnwys eich plentyn wrth wneud penderfyniadau?

e) Cymorth i bob plentyn
   - Beth yw'r ffyrdd gorau o sicrhau bod pob plentyn a chanddo riant yn y carchar yn cael y cymorth y mae arno ei angen (e.e. plant nad ydynt yn ymweld â'r carchar, plant ag anghenion ychwanegol, plant y mae eu mam yn y carchar, plant a chanddynt riant yn y carchar y tu allan i Gymru, plant nad ydynt yn yr ysgol)?

- A yw'n syniad da helpu plant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar i gefnogi ei gilydd? Pam? Pam ddim? A allai hyn fod ar-lein, neu a fyddai'n well wyneb yn wyneb?
- A yw'n syniad da sicrhau bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau (llunwyr polisïau) yn clywed yn uniongyrchol gan blant a chanddynt riant yn y carchar? Pam? Pam ddim?

Cyfweliadau lled-strwythuredig i ymarferwyr/arweinwyr polisïau

Cyflwyniad i'r cyfranogwyr

Mae'r cwestiynau hyn yn seiliedig ar gamau un i dri prosiect ASPIRE Cymru (adolygiad llenyddiaeth, arolwg sylfaenol a digwyddiad i randdeiliaid yng Nghaerdydd) ac ar fewnbwn gan ein Grŵp Cynghori Arbenigol. Bydd eich ymatebion yn llywio ein cynnig i Lywodraeth Cymru ynghylch yr hyn y dylai ei ystyried mewn model cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar.

1. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Mae Cymru'n cynnwys cymunedau amrywiol a chanddynt anghenion gwahanol; felly, mae angen i unrhyw fodel cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar ddarparu ar gyfer hyn.
    - Beth yw elfennau pwysicaf model cymorth i blant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar?
    - Sut y gallwn sicrhau bod unrhyw fodel cymorth yn cael ei lywio gan hawliau plant?
    - Pa brif negeseuon/egwyddorion sylfaenol sy'n hanfodol mewn model cymorth?
    - Mae ar bobl angen mathau gwahanol o gymorth ar adegau gwahanol. Pa fath o gymorth a allai fod yn arbennig o fuddiol i deuluoedd pan fydd rhiant yn cael ei ryddhau o'r carchar?
2. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Gall fod yn heriol adnabod plant a chanddynt riant yn y carchar, ac mae rhannu gwybodaeth am blant yn fater sensitif; mae teuluoedd yn dymuno gwybod pwy sy'n gwybod beth a beth y maent yn mynd i'w wneud â'r wybodaeth honno.
    - A ydych yn gwybod faint o blant sy'n cael eu cefnogi yn eich sefydliad/sector? A oes systemau eisoes ar waith i gasglu'r wybodaeth hon?
    - Sut y gellir casglu data mewn ffordd sy'n cynnwys teuluoedd ac sy'n arwain at gymorth yn cael ei gynnig ?
    - Sut y gellir rhannu data mewn modd sensitif rhwng sefydliadau/sectorau?
3. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Mae'n bwysig gwybod bod y cymorth sy'n cael ei ddarparu yn gwella deiliannau plant.
    - A yw eich sefydliad/sector yn casglu unrhyw wybodaeth i ddangos deilliannau gwell i blant a chanddynt riant yn y carchar?
    - Beth yw'r ystyriaethau allweddol o ran monitro a gwerthuso cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar?
4. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Efallai na fydd gan ymarferwyr a llunwyr polisïau wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol ynghylch yr effaith y mae bod â rhiant yn y carchar yn ei chael ar blant.

- Pa fath o hyfforddiant a fyddai'n eich cefnogi chi/eich cyd-weithwyr?
- Pa negeseuon allweddol sy'n hanfodol i'w cyfleu yn yr hyfforddiant?
- Beth fyddai'n gwneud yr hyfforddiant yn hygyrch i chi/eich cyd-weithwyr? (Ar-lein? Hyd yr hyfforddiant? Wedi'i ymgorffori mewn hyfforddiant sy’n bod yn barod? Lleoliad – mewn carchar?)
- Sut y gall plant a chanddynt brofiad bywyd lywio’r hyfforddiant i ymarferwyr?
- Cynigiwyd model 'hyrwyddwr' (rhywun sydd wedi cael hyfforddiant trylwyr ar effaith carchariad ar blant, y gallai eraill ofyn iddo am gyngor ac arweiniad) yn ein digwyddiad bwrdd crwn; ym mha ffyrdd y byddai hyrwyddwr yn eich cefnogi yn eich gwaith?
- Pwy fyddai yn y sefyllfa orau i fod yr 'hyrwyddwr' yn eich cyd-destun chi (e.e. yr arweinydd diogelu/y pennaeth lleihau aildroseddu/lles plant/yr arweinydd lles)?

5. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Mae cydweithio rhyngasiantaethol effeithiol yn hanfodol wrth ddatblygu model cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar.
    - Beth y mae angen i ni ei ystyried ar gyfer model i gefnogi cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau a sectorau?
    - Beth y gall eich sefydliad/sector ei gynnig i sefydliadau/sectorau eraill i wella eu dealltwriaeth o blant/garchardai/yr effaith ar blant a chanddynt riant yn y carchar?
    - Cynigiwyd yn ein digwyddiad bwrdd crwn y byddai hwb canolog (sy’n cynnwys hyfforddiant, adnoddau a manylion sefydliadau sy'n cynnig cymorth) yn fuddiol. A fyddech yn cytuno? Sut (os o gwbl) y byddai hwb canolog o fudd i'ch sefydliad/sector?
    - Pe bai hwb canolog yn cael ei greu, pa fath o wybodaeth y dylai ei gynnwys?
    - Pwy ddylai oruchwylio/ddiweddaru'r wybodaeth hon?
    - A fyddai fforwm amlasiantaeth ar-lein (i rannu arfer da a pholisïau ynghylch cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar ac i fynd i'r afael â heriau) o fudd i'ch sefydliad/sector?
    - A ddylai hwn fod yn rhanbarthol neu'n genedlaethol?
    - Pwy ddylai hwyluso hyn?
6. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Mae cyllid byrdymor ac annigonol yn rhwystro newid parhaol yn y sector.
    - Pwy sydd yn y sefyllfa orau i ariannu model cymorth i blant yng Nghymru a chanddynt riant yn y carchar?
    - Sut y gall y cyllid sicrhau bod y gwaith yn gynaliadwy?
7. Yr hyn yr ydym yn ei wybod: Mae plant yng Nghymru a chanddynt riant yn y carchar yn grŵp amrywiol. Nid yw rhai'n ymweld (nac yn cael cyswllt) â'u rhiant yn y carchar; mae gan rai riant (pob mam a rhai tadau) mewn carchar y tu allan i Gymru; nid yw rhai mewn addysg brif ffrwd; mae rhai’n dod o grwpiau lleiafrifol.
    - Sut y gall model sicrhau bod cymorth ar gael i bob plentyn yng Nghymru?
    - Pa asiantaethau sy'n hanfodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys?
    - Beth yw'r rhwystrau rhag cyrraedd pob plentyn a chanddo riant yn y carchar?
    - Beth fyddai'n helpu i leihau'r rhwystrau hyn?

- A allai fforwm cenedlaethol sy’n cynnwys plant/pobl ifanc a chanddynt brofiad bywyd o fod â rhiant yn y carchar lywio polisïau ac arferion i sicrhau cymorth i bob plentyn? Os felly, pwy fyddai'n hwyluso hyn?

## Atodiad F: Taflen recriwtio a chwestiynau'r arolwg i bobl ifanc

# The ASPIRE Project: share your views!



## What is the ASPIRE Project?



If you have a parent in prison, it can be hard. The people who are in charge of Wales want children with a parent in prison to get the right support when they need it. They want all children and young people to feel good about themselves and do well at school. The Welsh Government has asked the ASPIRE team to help them understand what they need to do.

## What will the ASPIRE project do?

We are going to find out how best to help children in Wales when a parent is in prison. We will do this by speaking to lots of people like teachers, people who work in prisons, parents and people who help families.

**But the most important people to speak to are children and young people - you are the experts!**

## Share your views

We want to hear your views about what will help children and young people with a parent in prison.

Scan the QR code on your phone or i-Pad using your camera and fill in the short survey. We will not ask for your name - it is anonymous.

## Get in touch with the ASPIRE team

Sarah Beresford, ASPIRE Deputy Project Manager

Sarah.Beresford@prisonreformtrust.org.uk

**ASPIRE Project: helping to make sure children with a parent in prison get the right support when *they* need it.**

**Cwestiynau'r arolwg i bobl ifanc:**
A oes gennych brofiad o fod â rhiant yn y carchar (dewis lluosog)

A ydych mewn addysg? (Dewis lluosog)

Beth yw eich oedran?

Yn eich barn chi, pa gymorth y mae ar blant ei angen pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar?

Pan fydd Mam neu Dad plentyn yn mynd i'r carchar, pwy ddylai gael gwybod yn eich barn chi?

Sut y byddech yn sgorio'r mathau canlynol o gymorth i bobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar – lle '1 seren' yw 'ddim yn syniad da' a '5 seren' yw 'syniad gwych!'? Unrhyw syniadau eraill o ran cefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar?

A oes gennych unrhyw syniadau eraill am ba fath o gymorth a fyddai'n dda i blant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar?

Mae rhai pobl wedi awgrymu y gallai gwefan neu ap i bobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar fod o gymorth. A ydych yn meddwl bod gwefan neu ap sy'n cynnwys gwybodaeth, cymorth a chyngor yn syniad da?

Pe bai gwefan neu ap yn cael ei ddatblygu ar gyfer pobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar, beth fyddai'n ddefnyddiol iddo ei gynnwys?


Mae'n bwysig i bobl sy'n gweithio gyda phlant (athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid) wybod sut i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar. Beth yw'r pethau pwysicaf y mae angen i weithwyr eu gwybod am gael rhiant yn y carchar?


Pe gallech ddweud un peth wrth Lywodraeth Cymru am y modd y dylai gefnogi pobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar, beth y byddech yn ei ddweud?

## Atodiad G: Poblogaeth carchardai Cymru

Cymerwyd y data canlynol o Gais Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2023:[18]. Mae'n cynrychioli cipolwg o nifer y Cymry a oedd yn y ddalfa ar 1 Medi 2023.

Roedd 4,811 o ddynion a 245 o fenywod o Gymru mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr ar 1 Medi 2023.




[18] Cais Rhyddid Gwybodaeth 230831045 Cymry yn y carchar yn ôl Ethnigrwydd 2023, a ddyfynnir yn: Cymry yn y Carchar – Cais Rhyddid Gwybodaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – WhatDoTheyKnow